**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y CANOLBARTH**

**4 Gorffennaf 2022**

**ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO**

**Teitl yr Adroddiad:** **Mabwysiadu Cyfansoddiad ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth**

**Pwrpas yr Adroddiad :** Mabwysiadu Cyfansoddiad ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth

**Penderfyniad a ofynnir amdano:**

**Argymhellir bod Aelodau yn:**

1. Mabwysiadu Cyfansoddiad Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth fel y'i gosodwyd allan yn Atodiad 1 yr adroddiad.
2. Dirprwyo pŵer i'r Swyddog Monitro i wneud mân-newidiadau golygyddol (pe bai angen) i'r Cyfansoddiad ar gyfer ei gyhoeddi ar wefan y CJC.
3. Ei gwneud yn ofynnol bod y Cyfansoddiad a gymeradwyir o dan argymhelliad 1 yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i gyhoeddi ar wefan y CJC cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.
4. Bod sefydlu Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru) yn cael ei ohirio tan gyfarfod o'r CJC yn y dyfodol fel y gall Trysorlys EF roi Gorchymyn yn ei le i ganiatáu cynnwys y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig Cymreig yn y cynllun ad-dalu TAW Adran 33 ac er mwyn bod yn glir ar faterion Treth Gorfforaethol.

**Awdur yr Adroddiad:** Clive Pinney
**Swyddog Cyllid:** Stephen Johnson (Swyddog Adran 151)
**Swyddog Cyfreithiol:** Clive Pinney (Swyddog Monitro)

**Cefndir:**

1. Pan basiwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf LGE"), crëwyd fframwaith ar gyfer cael dull cyson o sicrhau cydweithrediad rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol drwy Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CJC). Mae'r Ddeddf LGE yn darparu ar gyfer sefydlu CJC y Canolbarth drwy Reoliadau, ac yn ei gyfarfod rhagarweiniol ar 25 Ionawr 2022 fe sefydlwyd y CJC, cymeradwywyd cyllideb ar gyfer 2022/23 ynghyd â Rheolau Sefydlog a fyddai'n cael eu disodli gan Gyfansoddiad ffurfiol maes o law.

2. Pwrpas yr adroddiad hwn yw bod y CJC yn ystyried cymeradwyo Cyfansoddiad drafft wedi'i ddrafftio gan y Swyddog Monitro ar ôl ymgynghori â Swyddogion Monitro Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
3. Ystyried argymhelliad bod sefydlu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru) yn cael ei ohirio tan gyfarfod o'r CJC yn y dyfodol fel y gall Trysorlys EF roi Gorchymyn yn ei le i ganiatáu cynnwys y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig Cymreig yn y cynllun ad-dalu TAW Adran 33 ac er mwyn bod yn glir ar faterion Treth Gorfforaethol.



**<u>Y Cyfansoddiad Drafft</u>**

4. Mae'r Cyfansoddiad drafft yn seiliedig ar Gyfansoddiad Model Newydd diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi'i ddarparu gan Browne Jacobson Solicitors yn Rhagfyr 2021 ar gost i'r WLGA, ac sydd wedi'i ddiwygio fel bo'n briodol i'w wneud yn addas ar gyfer CJC y Canolbarth.

5. Bydd y Cyfansoddiad (os bydd y CJC yn ei gymeradwyo a'i fabwysiadu) yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson gan Swyddogion a diwygiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu cyflwyno i'r CJC i'w hystyried a / neu gymeradwyo fel bo angen.

6. Yn y bôn mae'r Cyfansoddiad yn cyflwyno strwythur cyffredinol y CJC a'i amrywiol Is-bwyllgorau er mwyn gallu gwneud penderfyniadau allweddol.

7. Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

   darparu fframwaith ar gyfer llywodraethu da;

   cynorthwyo penderfyniadau effeithlon ac effeithiol;

   creu ffordd bwerus ac effeithiol o ddal gwneuthurwyr penderfyniadau i gyfrif cyhoeddus;

   sicrhau na fydd neb yn adolygu na'n craffu ar benderfyniad yr oeddent yn rhan o'i wneud;

   sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn adnabyddus i bobl leol a'u bod yn egluro'r rhesymau am benderfyniadau; a

   bod yn fodd i wella sut y darperir gwasanaethau i'r gymuned.

8. Ynghlwm yn **Atodiad 1** y mae cyfansoddiad arfaethedig y CJC er mwyn i Aelodau ei ystyried a'i fabwysiadu ac mae'n cynnwys adrannau'n delio â'r canlynol:

| Adran | Teitl |
|---|---|
| 01 | Rhagarweiniad |
| 02 | Pwrpas Diffiniad Dehongliad |
| 03 | Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan |
| 04 | Rheolau Gweithdrefnol y CJC |
| 05 | Is-bwyllgorau |
| 06 | Swyddogion |
| 07 | Cynllun Dirprwyo |
| 08 | Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth |
| 09 | Cod Ymddygiad |
| 10 | Cyllideb, Cyllid a Chaffael |
| 11 | Cytundebau a Materion Cyfreithiol |
| 12 | Rheolau Gweithdrefnau Contractau |
| 13 | Indemniti ar gyfer Aelodau a Swyddogion |



9. Nid yw'r Cyfansoddiad Drafft wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg eto ond unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo a'i fabwysiadu bydd yn cael ei gyfieithu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a'i gyhoeddi ar wefan y CJC.

10. Gohirio sefydlu Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru).

10.1 Dylid eu gwneud yn ymwybodol bod holl gyd-bwyllgorau CJC Cymru, a Llywodraeth Cymru, yn poeni na all cyd-bwyllgorau CJC ar hyn o bryd adennill TAW ar weithgareddau di-fusnes, fel y gall pob awdurdod lleol arall ei wneud. Mae LIC a'r Cynghorau wedi bod yn lobïo Trysorlys EF i roi cyd-bwyllgorau CJC yn yr un sefyllfa â chyrff cyhoeddus eraill ac mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn gwneud Gorchymyn i sicrhau bod y pedwar CJC Cymreig yn cael eu derbyn i gynllun ad-dalu TAW Adran 33. Fodd bynnag mae'r Gorchymyn yn annhebygol o fod yn ei le cyn yr hydref ac mae'r Trysorlys wedi nodi'n glir na ellir cymhwyso'r Gorchymyn yn ôl-weithredol cyn y dyddiad y gwneir y Gorchymyn. Mae yna hefyd faterion sydd angen eu hegluro o ran Treth Gorfforaethol.

10.2 Yng ngoleuni'r anfantais TAW i'r Cynghorau a'r CJC pe bai'r Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru) yn cwmpasu rôl Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, argymhellir gohirio sefydlu'r Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru) tan gyfarfod o'r CJC yn y dyfodol fel y gall Trysorlys EF roi Gorchymyn yn ei le i ganiatáu cynnwys y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig Cymreig yn y cynllun ad-dalu TAW Adran 33 ac er mwyn egluro'r materion yn ymwneud â Threth Gorfforaethol.

**Effeithiau Ariannol:**

11. Bydd effeithiau ariannol mabwysiadu'r Cyfansoddiad hwn a'r dogfennau cysylltiedig yn cael eu hymgorffori yng nghyllideb flynyddol y MWCJC.

**Asesiad Effaith Integredig:**

12. Mae gan y CJC ddyletswydd i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur y Gymraeg (Cymru) ac wrth ymarfer ei swyddogaethau rhaid iddo roi sylw dyledus i fod angen:

dileu gwahaniaethu, harasio a fictimeiddio anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Deddfau;



hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a rhai nad ydynt;
meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a warchodir a rhai nad ydynt;
sicrhau canlyniadau gwell i bobl sy'n profi anfanteision economaidd-gymdeithasol;
ystyried cyfleoedd i bobl gael defnyddio'r iaith Gymraeg, a thrin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg;
sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu cwrdd heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy.

13. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru fod yn gynaliadwy wrth ddatblygu. Mae datblygu cynaliadwy'n golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, i'r pwrpas o gyflawni'r 'amcanion lles'.

14. Nid yw'n ofynnol gwneud Asesiad Effaith Integredig ar gyfer yr adroddiad hwn oherwydd mae sefydlu'r CJC wedi'i ategu gan ddeddfwriaeth a phwrpas yr adroddiad hwn yw sefydlu trefniadau llywodraethu'n unol â deddfwriaeth. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson a bydd unrhyw adroddiad yn y dyfodol yn ystyried a oes angen ystyried yr effeithiau.

**Effeithiau ar y Gweithlu:**

15. Nid oes unrhyw effeithiau gweithlu'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**Effeithiau Cyfreithiol:**

16. Mae Rhan 5 y Ddeddf LGE yn darparu ar gyfer sefydlu, drwy reoliadau, Cyd-bwyllgorau Corfforedig gan sicrhau drwy eu sefydlu y cydymffurfir â'r Ddeddf hon ac ymrwymiadau deddfwriaethol eraill. Yn benodol, daeth Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth i rym ar 1 Ebrill 2021 gan gyflwyno fframwaith cychwynnol y dylid, er enghraifft, sefydlu'r CJC ynghyd â'r amserlen ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodol. Fodd bynnag, mae cyfres o Reoliadau pellach yn cael eu drafftio ac mae

Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorffen ymgynghori ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori ar ganllawiau statudol drafft ar hyn o bryd. Bydd trydydd cam o Reoliadau'n cyflwyno deddfwriaeth bellach ar weithrediad y cyd-bwyllgorau a'u swyddogaethau ac sy'n destun ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Bydd pedwerydd cam yn cyflwyno unrhyw ddarpariaethau sy'n weddill y gallai fod eu hangen ar CJC.

**Effeithiau Rheoli Risg:**

17. Mae methu â chyfansoddi'r CJC yn golygu na allai'r CJC wneud unrhyw benderfyniadau, gan gynnwys pennu cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/2023 a byddai, felly, yn mynd yn groes i'r gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (gan olygu y gallai pob cyngor cyfansoddol ac awdurdod parc cenedlaethol gael ei herio) ynghyd â'r risg i enw da y byddai unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r fath yn ei greu.



**Ymgynghori:**

18. Nid oes angen ymgynghori yng nghyswllt yr adroddiad hwn.

**Rhesymau am y Penderfyniad Arfaethedig:**

19. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle fel bo'r CJC yn gallu gwneud penderfyniadau a chydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r CJC.

**Gweithredu'r Penderfyniad:**

20. Cynigir bod y penderfyniad hwn yn cael ei weithredu'n syth.

**Atodiadau:**

21. Atodiad 1 - Cyfansoddiad Drafft ar gyfer CJC y Canolbarth

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn fwriadol wag

# Adran 1 - Rhagarweiniad

## Pwrpas a Chynnwys y Cyfansoddiad

1.1 Mae'r Cyfansoddiad yn disgrifio'r amrywiol gyrff sy'n rhan o'r CJC, ei swyddogaethau, ei Aelodaeth a'i Reolau Gweithdrefnol.

1.2 Yn Adran 3 (Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan), darparwn wybodaeth i'r cyhoedd am sut y gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y CJC.

1.3 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol sy'n berthnasol i wahanol gyrff y CJC yn yr adran sy'n berthnasol i'r cyrff hynny, e.e. CJC (Adran 4) ac Is-bwyllgorau (Adran 5).

1.4 Mae Adran 9 yn cynnwys y Cod Ymddygiad y mae'r Aelodau wedi cytuno i ufuddhau iddo. Hwn sy'n gosod y safonau ymddygiad.

1.5 Mae'r tudalennau Cynnwys ar ddechrau'r Cyfansoddiad hwn yn rhoi arweiniad i gynnwys y Cyfansoddiad a ble i ddod o hyd iddo. Yn Adran 2.3 rhoddir Geirfa o'r termau a ddefnyddir yn y Cyfansoddiad.

## Sut y mae'r CJC yn Gweithredu

1.6 Mae'r CJC yn cynnwys Arweinwyr Cynghorau Sir Powys a Cheredigion gyda phob Arweinydd awdurdod yn cael eu hethol gan aelodaeth Cynghorau Sir Powys a Cheredigion ynghyd ag Aelod ychwanegol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer cynllunio datblygu strategol.

1.7 Mae holl Aelodau'r CJC wedi cytuno i ddilyn y Cod Ymddygiad a chadw at safonau uchel o ran sut y maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau'n gyfrifol am hyfforddiant a chynghori ar y Cod Ymddygiad.

1.8 Mae holl Aelodau'r CJC yn cwrdd gyda'i gilydd yn rheolaidd fel CJC. Fel arfer mae cyfarfodydd y CJC yn agored i'r cyhoedd heblaw pan drafodir materion cyfrinachol. Mae'r CJC yn gyfrifol am Gynllunio Datblygu Strategol, Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a Lles Economaidd, gan gytuno ar gyllideb ar gyfer pob un o'r pethau hyn pob blwyddyn.

Os oes angen mwy o gymorth arnoch, cofiwch gysylltu gyda ni.

Swyddog Monitro
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
Rhif ffôn: 01597 826100

Mae’r dudalen hon wedi’i gadael yn fwriadol wag

# Adran 2 – Pwrpas, Diffiniad, Dehongliad a Diwygio'r Cyfansoddiad

**Pwrpas y Cyfansoddiad**

2.1 Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

(a) Cynorthwyo'r CJC i ddarparu arweinyddiaeth glir i'r gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill gan gynnwys ei gynghorau cyfansoddol, awdurdodau parc cenedlaethol a chyrff cyhoeddus;
(b) Cefnogi dinasyddion i gyfrannu'n weithredol at broses benderfyniadau'r awdurdod lleol;
(c) Darparu fframwaith ar gyfer llywodraethu da;
(d) Helpu Aelodau i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;
(e) Cynorthwyo i wneud penderfyniadau effeithlon ac effeithiol;
(f) Creu ffordd bwerus ac effeithiol o ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif cyhoeddus;
(g) Sicrhau na fydd neb yn adolygu na'n craffu penderfyniad yr oedden nhw'n rhan uniongyrchol o'i wneud;
(h) Sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n cael eu hadnabod yn glir i bobl leol ac yn egluro'r rhesymau am eu penderfyniadau; a
(i) Darparu ffordd o ddarparu gwasanaethau'n well i'r gymuned.

**Diffiniadau yn y Cyfansoddiad**

2.2 Cyfansoddiad y CJC yw'r ddogfen hon.

2.3 Yn y Cyfansoddiad, mae gan y geiriau a'r brawddegau canlynol yr ystyron isod:

| Gair neu Frawddeg | Ystyr |
|---|---|
| "Cyfarfod Blynyddol" | Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ym mis Gorffennaf pob blwyddyn. |
| "Aelod Bannau Brycheiniog" | Y person a benodir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel ei gynrychiolydd ar y CJC. |
| "Cyllideb" | Y gyllideb refeniw a chyfalaf gyffredinol a gymeradwyir gan CJC (Adran 4). |
| "Y Prif Weithredwr" | Prif Weithredwr naill ai Cyngor Sir Powys neu Gyngor Sir Ceredigion gyda'r rôl yn cylchdroi'n flynyddol. |
| "Diwrnodau Clir" | Y nifer o ddiwrnodau y mae'n rhaid i rybudd a gwŷs ar gyfer cyfarfod gael eu cyhoeddi cyn cynnal cyfarfod. Nid yw'r diwrnodau clir yn cynnwys (a) diwrnod cyhoeddi a / neu dderbyn y ddogfen; a (b) diwrnod y cyfarfod; ac (c) diwrnodau penwythnos a gwyliau banc.[1] |

[1] Atodlen 12, Rhan 1, Rheoliad 4(2) – Deddf Llywodraeth Leol 1972.

| | |
|---|---|
| "Gwybodaeth Gyfrinachol" | Rhoddir ystyr hyn yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 – wele Adran 8. |
| "Cynghorau Cyfansoddol" | Mae hyn yn golygu Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. |

| Gair neu Frawddeg | Ystyr |
|---|---|
| "Aelod Cyfetholedig" | Person a benodir gan y CJC i wasanaethu ar un o'i Is-bwyllgorau. |
| "Cyd-bwyllgor Corfforedig" | Y corff corfforedig, a sefydlir gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022, sy'n cynnwys Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion (ynghyd â chynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer swyddogaeth (c) isod), ar gyfer y swyddogaethau canlynol:<br><br>(a) Lles economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol (adran 76 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;<br>(b) Polisïau Trafnidiaeth Rhanbarthol (Adran 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000 a RHAN 2 Deddf Trafnidiaeth 2000);<br>(c) Cynllunio Defnydd Tir Strategol (Rhan 6 o Ddeddf Gynllunio a Phryniant Gorfodol 2004). |
| "Aelod Cyngor" | Arweinydd naill ai Cyngor Sir Powys neu Gyngor Sir Ceredigion. |
| "Rheoliadau Sefydlu" | Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021 |
| "Gwybodaeth Eithriedig" | Rhoddir ystyr hyn yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 – wele Adran 8. |
| "Blaenraglen Waith" | Mae'r Flaenraglen Waith yn ddogfen sy'n rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r CJC yn bwriadu eu gwneud a phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Nid yw hyn yn atal ystyried materion brys neu rai sy'n codi'n annisgwyl. |
| "Aelod (Lleyg) Annibynnol" | Aelod o'r Pwyllgorau Safonau a Llywodraethu ac Archwilio sydd ddim:<br>(a) yn Aelod o'r CJC;<br>(b) yn Swyddog; neu<br>(c) yn gymar i Aelod neu swyddog o'r CJC neu i unrhyw swyddog arall yn y naill awdurdod neu'r llall. |
| "y Mesur" | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. |

| | |
|---|---|
| "Aelod" | Naill ai Arweinydd Cyngor Sir Powys neu Gyngor Sir Ceredigion neu gynrychiolydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, neu Aelod Annibynnol neu Gyfetholedig a ddewisir gan y CJC i wasanaethu ar un o'i Is-bwyllgorau. |
| "Is-bwyllgorau" | Yr Is-bwyllgorau yw: |



| Gair neu Frawddeg | Ystyr |
|---|---|
| | Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol;<br>Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol;<br>Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru);<br>Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;<br>Is-bwyllgor Safonau;<br>Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.<br><br>Dylid nodi – mae cyfeiriadau at Bwyllgor hefyd yn cynnwys Is-bwyllgor. |
| "Y Swyddog Monitro" | Rhaid i'r Swyddog Monitro fod yn Swyddog naill ai o Gyngor Sir Powys neu Gyngor Sir Ceredigion a benodwyd gan y CJC, ac yn Swyddog sy'n rhaid ei benodi'n gyfreithiol i gyflawni swyddogaethau penodol. ; |
| "Swyddogion" | Y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Adran 151. |
| "Cynllun Deisebau" | Cynllun wedi'i baratoi a'i gyhoeddi o dan adran 42 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (ac yn cael ei adolygu o dro i dro) er mwyn egluro:<br><br>Sut y dylid cyflwyno deiseb i'r CJC;<br>Sut a phryd y bydd y CJC yn cydnabod derbyn deiseb;<br><br>Y camau fydd y CJC yn eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb a dderbynnir ganddo;<br>O dan ba amgylchiadau (os o gwbl) y bydd y CJC yn penderfynu cymryd dim camau pellach mewn ymateb i ddeiseb; a<br>Sut ac erbyn pryd fydd y CJC yn cyflwyno ei ymateb i ddeiseb i'r person a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd. |
| "Swyddog Priodol" | Y Swyddog Monitro |

| | |
|---|---|
| "Budd Cyhoeddus" | Sef y prawf a eglurir yn Adran 8. |
| "Swyddog Adran 151" | Rhaid i'r Swyddog Monitro fod yn swyddog naill ai o Gyngor Sir Powys neu Gyngor Sir Ceredigion a benodwyd gan y CJC, ac yn Swyddog sy'n rhaid ei benodi'n gyfreithiol i gyflawni swyddogaethau penodol. |
| "Swyddogaeth Cynllunio Datblygu Strategol" | Y swyddogaeth a ddisgrifir yn y Cynllun Defnydd Tir Strategol (Rhan 6 o Ddeddf Gynllunio a Phryniant Gorfodol 2004). |

**Dehongli'r Cyfansoddiad**

2.4 Rydym wedi ceisio gwneud y Cyfansoddiad mor glir a hawdd i'w ddeall â phosib. Yn anochel bydd gan bobl wahanol farn am ystyr rhai paragraffau.



2.5 Yn ystod cyfarfodydd, gall y person sy'n cadeirio neu'n llywyddu'r cyfarfod ddehongli'r Rheolau Gweithdrefnol perthnasol ac i bwrpas y cyfarfod mae dyfarniad y Cadeirydd yn derfynol.

2.6 Ym mhob sefyllfa arall, y Swyddog Monitro fydd yn penderfynu ar ddehongliad a chymhwysiad y Cyfansoddiad.

2.7 Oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog ac fel arall, a bydd geiriau a fynegir mewn un rhyw'n cynnwys unrhyw ryw arall.

Mae'r Penawdau wedi eu cynnwys er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar y dehongliad o'r Cyfansoddiad.

**Dyletswydd i Fonitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad**

2.8 Bydd y Swyddog Monitro'n monitro ac adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad i sicrhau bod amcanion ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu gweithredu'n llawn.

2.9 Bydd y Swyddog Monitro'n trefnu i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad gael eu hystyried gan y CJC o ran unrhyw ddiwygiadau a allai fod angen eu gwneud.

2.10 Bydd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am adolygu'n gyson y Rheoliadau Ariannol a osodir allan yn Adran 10 y Cyfansoddiad a gwneud unrhyw ddiwygiadau a newidiadau angenrheidiol fel bo angen o bryd i'w gilydd. Rhaid iddi hi / iddo drefnu i unrhyw newidiadau arfaethedig gael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd, yn ei dro, yn gwneud argymhellion i'r CJC ynghylch unrhyw ddiwygiadau a allai fod angen eu gwneud.

**Protocol ar gyfer Monitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad gan y Swyddog Monitro**

2.11 Un o brif rolau'r Swyddog Monitro yw gwneud argymhellion ar gyfer sut y gallai'r Cyfansoddiad gael ei ddiwygio er mwyn cyflawni'n well y pwrpasau a osodir allan yn yr Adran hon. Wrth gyflawni'r dasg hon gall y Swyddog Monitro:

2.11.1 Arsylwi cyfarfodydd gwahanol rannau'r strwythur Aelodau a Swyddogion;
2.11.2 Cyflawni trywydd archwilio o sampl o benderfyniadau;
2. 11.3 Cofnodi a dadansoddi materion a godwyd â'r Swyddog Monitro gan Aelodau, Swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill; a
2.11.4 Cymharu arferion yn y CJC hwn a rhai mewn cyd-bwyllgorau CJC cymharol, neu enghreifftiau cenedlaethol o arferion gorau.



**Newidiadau i'r Cyfansoddiad**

**Cymeradwyo**

2.12 Yn amodol i Reolau 2.7 a 2.8 isod, bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad ond yn cael eu cymeradwyo gan y CJC yn unol â'r gweithdrefnau a osodir allan yn Rheol 2.4.2 uchod.

**Mân Newidiadau**

2.13 Os yw newid, ym marn resymol y Swyddog Monitro, yn:

2.13.1 mân amrywiad; neu
2.13.2 angen ei wneud i ddileu unrhyw anghysondeb, amwysedd neu gywiriad teipograffegol;

gall y Swyddog Monitro wneud newid o'r fath. Bydd unrhyw newid o'r fath a wneir gan y Swyddog Monitro'n dod i rym yn syth. Rhaid adrodd unrhyw newid o'r fath i gyfarfod nesaf y CJC er gwybodaeth.

**Newid Deddfwriaethol**

2.14 Gall y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad os oes angen gwneud y diwygiad er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Daw diwygiadau o'r fath i rym pan fydd y Swyddog Monitro'n penderfynu neu'r ddeddfwriaeth (lle bo'n berthnasol) yn

darparu. Rhaid adrodd unrhyw newid o'r fath i gyfarfod nesaf y CJC er gwybodaeth.

**Atal y Cyfansoddiad Dros Dro**

2.15 Ni ellir atal y Cyfansoddiad hwn dros dro ond gellir atal dros dro'r Rheolau Gweithdrefnol a osodir allan yn Adran 4 ar yr amod bod Cynnig i atal unrhyw reol dros dro'n cael ei wneud heb rybudd os bydd o leiaf hanner y CJC yn bresennol. Bydd pa mor hir ac eang fydd yr atal dros dro'n para'n gymesur i'r canlyniad sydd mewn golwg ar ôl ystyried pwrpasau'r Cyfansoddiad a osodir allan yn yr Adran hon. Bydd unrhyw atal dros dro ond yn berthnasol i'r mater neu faterion sy'n cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw.

**Cyhoeddi**

2.16 Bydd y Swyddog Monitro'n sicrhau bod copïau o'r Cyfansoddiad hwn ar gael ar wefan y CJC a bod copïau ar gael, os gofynnir amdanynt, ar dâp sain, yn Gymraeg ac mewn Braille.

2.17 Rhaid i'r Swyddog Monitro ddarparu dolen i gopi o'r Cyfansoddiad hwn mewn fformat electronig i bob Aelod o'r CJC a sicrhau ar ôl hynny bod y fersiwn ddiweddaraf ar gael i'w harchwilio ac yn cael ei chyhoeddi ar wefan y CJC.

2.18 Rhaid i'r Swyddog Monitro sicrhau bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru fel bo angen yn unol â Rheol 2.6.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn fwriadol wag.

# Adran 3 – Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan

## Gwybodaeth Ar Gael i'r Cyhoedd

### *Pryd y Cynhelir Cyfarfodydd y Cyrff sy'n Aelodau*

3.1 Mae rhaglen o gyfarfodydd ar gael ar wefan y CJC.

### *Y Flaenraglen Waith*

3.2 Bydd y CJC a'r Is-bwyllgorau'n cyhoeddi Blaenraglenni Gwaith yn gosod allan y penderfyniadau a / neu'r materion sydd i gael eu trafod gan y CJC a pha faterion fydd yr Is-bwyllgorau yn eu hystyried a phryd fydd y materion hyn yn cael eu trafod.

### *Gwybodaeth Ar Gael Cyn Cyfarfod*

3.3 Dri diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd yr agenda ac unrhyw adroddiad di-gyfrinachol sydd i'w drafod ar gael i'w harchwilio ar wefan y CJC. Os ychwanegir eitem i'r agenda nes ymlaen, bydd yr agenda ddiwygiedig ar gael i'w harchwilio o'r amser yr ychwanegir yr eitem i'r agenda a bydd unrhyw adroddiad di-gyfrinachol ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bydd ar gael ac yn cael ei anfon i'r Aelodau.

3.4 **NI FYDD** adroddiadau cyfrinachol a phapurau cefndir adroddiadau o'r fath ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd, nac ar y wefan.

3.5 Ni fydd gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig (yn ôl y diffiniad yn Adran 8) yn cael ei datgelu i'r cyhoedd.

### *Gwybodaeth Ar Gael Ar Ôl Cyfarfod*

3.6 Am gyfnod o chwe blynedd, bydd yr agenda, adroddiadau di-gyfrinachol a chofnodion y cyfarfod ar gael i'w harchwilio a / neu ar y wefan. Ni fydd papurau cefndir di-gyfrinachol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan ond yn parhau i fod ar gael i'w harchwilio am gyfnod o bedair blynedd.

### *Cyfrifon y CJC*

3.7 Gall y cyhoedd archwilio cyfrifon y CJC a chyflwyno barn i'r archwilydd allanol (adrannau 29 a 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, bydd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am ugain (20) diwrnod gwaith cyn y dyddiad a benodir gan yr archwilydd.

## Gwybodaeth a Roddir yn Gyfrinachol

3.8 Ni ddylai Aelod wneud gwybodaeth gyfrinachol, neu eithriedig neu y dylid ystyried yn rhesymol ei bod (yn ôl y diffiniad yn Adran 8), yn gyhoeddus heb ganiatâd person a awdurdodir i roi caniatâd o'r fath neu oni bai ei bod yn gyfreithiol ofynnol gwneud hynny;

3.9 Ni ddylai Aelod atal unrhyw berson rhag cael gafael ar wybodaeth y mae gan y person hawl iddi'n gyfreithiol[2] ond cyn rhoi'r wybodaeth dan sylw rhaid i'r Aelod gadarnhau'n gyntaf gyda'r Swyddog Monitro bod yr hawl gyfreithiol honedig yn bodoli.

---

[2] Wele Baragraff 5(b) o Ran 2 Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

**Gwybodaeth Heb Fod Ar Gael i Aelodau'r CJC**

3.10 Ni fydd Aelod yn cael gweld unrhyw wybodaeth neu ddogfen os byddai hynny'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol fel Deddf Diogelu Data 1998, hawliau unrhyw berson o ran cyfrinachedd, neu fuddiannau masnachol, unrhyw un o ddarpariaethau'r Cyfansoddiad hwn neu unrhyw bolisi, rheol neu weithdrefn Llywodraeth.

3.11 Nid oes gan unrhyw Aelod hawl i weld unrhyw wybodaeth am fater y mae ganddo ef neu hi fudd rhagfarnus ynddo.

**Aelodau'r Is-bwyllgor Craffu**

3.12 Gall Aelod o'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd weld unrhyw ddogfen sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud â:

3.12.1 unrhyw fusnes wedi'i drafodi gan neu mewn cyfarfod o'r CJC;
3.12.2 unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu reolaeth y CJC, ei Is-bwyllgorau a / neu Aelodau unigol o'r CJC ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud â 3.13.1 uchod.

3.13 Nid oes gan Aelod o'r Is-bwyllgor Craffu hawl i:

3.13.1 unrhyw ddogfen ar ffurf drafft;
3.13.2 unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig oni bai fod y wybodaeth honno'n berthnasol i weithred neu benderfyniad y maen nhw'n ei adolygu neu graffu neu'n bwriadu ei graffu ac wedi'i gynnwys ym Mlaenraglen Waith yr Is-bwyllgor Craffu;
3.13.3 unrhyw ran o ddogfen os byddai hynny'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol fel Deddf Diogelu Data 1998, hawliau unrhyw berson o ran cyfrinachedd, neu fuddiannau masnachol, unrhyw un o ddarpariaethau'r Cyfansoddiad hwn neu unrhyw bolisi, rheol neu weithdrefn Llywodraeth.

**Gwybodaeth Ar Gael i Swyddogion**

3.14 Gall y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr weld unrhyw bapurau neu gofnodion a gedwir gan unrhyw ran o'r CJC neu ei Swyddogion.

**Cymryd Rhan**

3.15 Rhaid i'r CJC annog pobl leol i gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r CJC. Am fwy o wybodaeth, dylid darllen strategaeth cyfranogiad cyhoeddus y CJC.

**Cynnwys Dinasyddion**

3.16 Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol: Eglurir eu hawliau i wybodaeth ac i gyfranogi'n fwy manwl yn y Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth:

3.17 Mae gan ddinasyddion hawl i:

gael copi o'r Cyfansoddiad oddi ar wefan y CJC neu drwy dalu ffi resymol os oes angen copi caled;

mynychu cyfarfodydd o'r CJC a'i Is-bwyllgorau ac eithrio os trafodir materion personol neu gyfrinachol;

mynychu cyfarfodydd a gofyn cwestiynau'n uniongyrchol i'r CJC a'i Is-bwyllgorau. Rhaid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ystyried unrhyw farn a gyflwynir iddynt o dan y trefniadau hyn o dan Adran 62 y Mesur;



cyflwyno deiseb i'r CJC yn unol â'r Cynllun Deisebau; darganfod, o'r flaenraglen waith, pa fusnes y dylid ei ystyried gan y CJC;

gweld adroddiadau a phapurau cefndir a ystyriwyd gan y CJC ac unrhyw un o'i Is-bwyllgorau a chofnodi unrhyw benderfyniad a wneir gan y CJC neu ei Is-bwyllgorau, ac eithrio os ydynt yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol;

gwneud sylwadau, canmol a chwyno i'r CJC am unrhyw faterion sy'n gyfrifoldeb i'r CJC. Cwyn yw un lle y mae rhywun yn teimlo bod y CJC wedi methu â gwneud rhywbeth neu wneud rhywbeth yn wael neu y cawsant eu trin yn annheg gan y CJC;

cwyno i'r Ombwdsmon os ydyn nhw'n teimlo eu bod wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd na wnaeth y CJC ddilyn ei weithdrefnau'n iawn. Fodd bynnag, anogir nhw i wneud hyn dim ond ar ôl defnyddio proses gwynion y CJC ei hun;

cwyno i'r Ombwdsmon os oes ganddynt dystiolaeth sydd yn eu barn nhw'n dangos nad yw Aelod neu Aelod cyfetholedig o'r CJC wedi dilyn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau; ac

archwilio cyfrifon y CJC a chyflwyno eu barn i'r archwilydd allanol.

ceisio cael y mater wedi'i gynnwys ar agenda drwy ofyn i Gadeirydd y CJC neu un o'i Is-bwyllgorau i ychwanegu eitem i'r agenda.

**Cyfrifoldebau Dinasyddion**

3.18 Ni ddylai dinasyddion fod yn dreisgar, camdriniol na'n fygythiol tuag at Aelodau na swyddogion (gan gynnwys defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol) a gwneud niwed bwriadol i eiddo ym mherchnogaeth y CJC neu ei swyddogion.

3.19 Dylai dinasyddion nodi os ydynt yn dreisgar, camdriniol neu'n fygythiol, y gellir cymryd camau'n unol â pholisïau'r CJC o dan ei bolisïau ymddygiad afresymol.

***Cwynion yn Erbyn Aelod***

3.20 Dylid cyfeirio cwyn yn erbyn Aelod at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 1 Ffordd Yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ. Rhif ffôn: 0845 601 0987 neu drwy'r wefan yn www.ombwdsmoncymru.org.uk.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn fwriadol wag.

# Adran 4 – Rheolau Gweithdrefnol y CJC

**CYFFREDINOL**

4.1 Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (y "**CJC**") yn gorff corfforedig wedi'i sefydlu gan Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021.

4.2 Mae Aelodau'r CJC yn arweinwyr gweithredol y Cynghorau Cyfansoddol:

4.2.1 Cyngor Sir Ceredigion
4.2.2 Cyngor Sir Powys
("Aelodau Cynghorau") ac

4.2.3 Aelod Bannau Brycheiniog (yn amodol i Reol 4.7 isod) ac
4.2.4 unrhyw Aelod Cyfetholedig
(gyda'i gilydd, y "**CJC**").

4.3 Bydd yr Aelod Bannau Brycheiniog yn cael ei benodi / ei phenodi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (y "**Parc Cenedlaethol**") a rhaid iddynt fod yn un o'r bobl yn y swyddi canlynol:

4.3.1 Cadeirydd y Parc Cenedlaethol;
4.3.2 Is-gadeirydd y Parc Cenedlaethol; neu
4.3.3 Cadeirydd pwyllgor sy'n gyfrifol am faterion cynllunio a allai fod wedi cael ei sefydlu gan y Parc Cenedlaethol.

4.4 Os nad yw Aelod Cyngor yn gallu gweithredu fel Aelod am unrhyw gyfnod, rhaid i'r Cyngor Cyfansoddol y mae'r Aelod Cyngor hwnnw neu honno'n Aelod ohono benodi Aelod arall o'i fwrdd gweithredol i weithredu ar ran yr Aelod Cyngor dros y cyfnod hwnnw. Os nad yw'r Aelod Bannau Brycheiniog yn gallu gweithredu fel Aelod am unrhyw gyfnod, rhaid i'r Parc Cenedlaethol benodi un o'r dalwyr swydd eraill a restrir uchod ym mharagraff 1.2 i weithredu ar ran yr Aelod Bannau Brycheiniog dros y cyfnod hwnnw.

4.5 Bydd darpariaethau yn y rheoliadau'n sefydlu a rheoleiddio'r CJC (y "**Rheoliadau Sefydlu**"), ar gyfer atal Aelodau Cyngor a / neu'r Aelod Bannau Brycheiniog dros dro, yn berthnasol.

4.6 Bydd pob Aelod Cyngor yn gweithredu fel Aelod o'r CJC yng nghyswllt holl swyddogaethau'r CJC.

4.7 Bydd yr Aelod Bannau Brycheiniog yn gweithredu fel Aelod o'r CJC yng nghyswllt y swyddogaeth Cynllunio Datblygu Strategol ac unrhyw swyddogaeth ategol neu gysylltiedig â'r swyddogaeth honno.

4.8 Os nad yw Aelod Cyngor neu'r Aelod Bannau Brycheiniog yn gallu gweithredu am unrhyw gyfnod, rhaid i'r Cyngor neu'r Parc Cenedlaethol y maen nhw'n Aelod ohonynt benodi, yn achos Cyngor, Aelod o'r bwrdd gweithredol neu, yn achos y Parc Cenedlaethol, rhywun mewn swydd berthnasol, i weithredu ar eu rhan dros y cyfnod hwnnw.

4.9 Drwy gytundeb ysgrifenedig, gall y CJC gyfethol un neu fwy o bobl i fod yn Aelodau o'r CJC ("**Aelodau Cyfetholedig**" a phob un yn "**Aelod Cyfetholedig**"). Bydd darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu'n berthnasol i'r Aelodau Cyfetholedig hyn fydd yn gweithredu'n unol â'u penodiad.

4.10 Mae gan Aelodau Cyngor, yr Aelod Bannau Brycheiniog ac unrhyw Aelod Cyfetholedig o'r CJC (gyda'i gilydd, yr "**Aelodau**" a phob "**Aelod**") ddyletswydd i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau (wele Adran 9).

**DIRPRWYO**

4.11 Yn amodol i Reol 4.13 isod, gall y CJC drefnu i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan:

4.11.1 Is-bwyllgor;
4.11.2 Aelod o staff;
4.11.3 Unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig arall;
4.11.3 Unrhyw gyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

4.12 Yn amodol bob tro i Reol 4.13 isod, mae'r CJC yn dirprwyo penderfyniadau gweithredol am gyflawni ei swyddogaethau ac unrhyw beth sydd ei angen i hwyluso neu sy'n ategol i neu'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau'n unol ag Adran 7 y Cynllun Dirprwyo.

**CYFYNGIADAU AR DDIRPRWYO**

4.13 Ni all y CJC ddirprwyo unrhyw un o'r canlynol i unrhyw berson neu Is-bwyllgor arall:

4.13.1 Ei swyddogaeth yn ymwneud â datblygu polisïau o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Swyddogaeth Polisi Trafnidiaeth");
4.13.2 Ei swyddogaeth yn ymwneud â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Gynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (y "Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol");
4.13.3 Y penderfyniad i gytuno ar gyllidebau'r CJC a chyfraniadau'r Cynghorau Cyfansoddol a'r Parc Cenedlaethol;
4.13.4 Y penderfyniad i sefydlu Is-bwyllgorau'r CJC; a

**CYFARFODYDD A THRAFODION BUSNES**

**CADEIRIO CYFARFODYDD**

4.14 Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y CJC, penodi cadeirydd ac is-gadeirydd yw'r busnes cyntaf i gael ei wneud.

4.15 Bydd rôl y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn cylchdroi'n flynyddol ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o'r CJC.

4.16 Rhaid i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd fod yn Aelod Cyngor a chael eu penodi neu gadarnhau gan yr Aelodau Cyngor.

4.17 Gall person a benodir yn gadeirydd neu is-gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw adeg o'r swydd drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Aelod arall.

4.18 Bydd trefniadau yn y Rheoliadau Sefydlu ar gyfer delio â swydd wag y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn cael eu dilyn.

**CYFARFODYDD CYFFREDINOL BLYNYDDOL A CHYFARFODYDD ERAILL**

4.19 Rhaid i'r CJC gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol ar ddyddiad wedi'i benderfynu gan y CJC.

4.20 Gall y CJC gynnal cyfarfodydd eraill ar ddyddiadau wedi eu cytuno gan y CJC. Gall cyfarfod eithriadol o'r CJC gael ei alw ar unrhyw adeg gan berson sydd â hawl i bleidleisio ar fater i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw.

**CWORWM**

4.21 Rhaid i'r Aelodau Cyngor fod yn bresennol ym mhob cyfarfod a rhaid i'r Aelod Bannau Brycheiniog fod yn bresennol:-

4.21.1 mewn cyfarfodydd lle y bwriedir trafod y Cynllun Datblygu Strategol; a

4.21.2 ar gyfer penderfyniadau i newid y drefn bleidleisio'n ymwneud â'r Cynllun Datblygu Strategol.

**PLEIDLEISIO**

4.22 Mae gan bob person sydd â hawl i bleidleisio un bleidlais.

4.23 Ni all nifer yr Aelodau Cyfetholedig sydd â hawl i bleidleisio fod yn fwy na nifer yr Aelodau Cyngor sydd â hawl i bleidleisio.

4.24 Heblaw'r materion a restrir yn Rheolau 4.25 a 4.26 isod, dylai bob pleidlais fod yn unfrydol ac os yw'r bleidlais yn gyfartal ni ddylid pasio'r mater.

4.25 Bydd ariannu penderfyniadau cyllideb yn cael ei benderfynu drwy gytundeb unfrydol yr Aelodau sydd â hawl i bleidleisio. Os na all yr Aelodau ddod i gytundeb, bydd y cyfrannau'n cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru.

4.26 Rhaid i unrhyw newid i'r trefniadau pleidleisio gael ei gytuno'n unfrydol gan yr holl Aelodau sydd â hawl i bleidleisio ar y mater.

4.27 Os yw'r mater yn ymwneud â Swyddogaeth Cynllunio Datblygu Strategol a'r bleidlais yn gyfartal, mae gan y cadeirydd bleidlais fwrw.

4.28 Gall y CJC fabwysiadu gweithdrefn bleidleisio arall ar gyfer unrhyw benderfyniad heblaw'r penderfyniadau ar y gyllideb a'r penderfyniad i newid y drefn bleidleisio ei hun.

**LLEOLIAD CYFARFODYDD**

4.29 Gellir cynnal cyfarfod o'r CJC

4.29.1 mewn lleoliad i'w benderfynu gan y CJC;

4.29.2 drwy gyfrwng o bell; neu

4.29.3 yn rhannol o bell a rhannol mewn lleoliad i'w benderfynu gan y CJC.

4.30 Rhaid i gyfarfodydd y CJC fod yn agored i'r cyhoedd oni bai fod y cyhoedd wedi eu heithrio o dan Reol 4.56 a 4.57 isod;



4.30.1 rhaid eithrio'r cyhoedd o gyfarfodydd lle bo'n debygol, o ystyried natur y busnes sydd i'w drafodi, neu natur y trafodion, y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

4.30.2 gall y cyhoedd gael eu heithrio, drwy benderfyniad, o gyfarfodydd lle bo'n debygol, o ystyried natur y busnes sydd i'w drafodi, neu natur y trafodion, y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. (mae'r termau "gwybodaeth gyfrinachol" a "gwybodaeth eithriedig" yn golygu'r ystyron a roddir yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021)

**RHYBUDD O GYFARFODYDD A GWŶS I FYNYCHU**

4.31 Rhaid i'r CJC roi rhybudd cyhoeddus o gynnal cyfarfod CJC

4.31.1 o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod, neu

4.31.2 os yw'r cyfarfod yn cael ei alw gyda llai o rybudd, pan fydd y cyfarfod yn cael ei alw.

4.32 Rhaid cyhoeddi'r rhybudd yn electronig.

4.33 Rhaid i'r Swyddog Priodol, dim hwyrach na thri diwrnod clir cyn cyfarfod y CJC neu, os yw'r cyfarfod yn cael ei alw gyda llai o rybudd, pan elwir y cyfarfod, anfon gwŷs i fynychu'r cyfarfod i bob Aelod o'r CJC naill ai yn y post neu'n electronig.

4.34 Rhaid i wŷs ddisgrifio'r busnes sydd i'w drafodi yn y cyfarfod ac ni chaniateir trafodi unrhyw fusnes mewn cyfarfod o'r CJC heblaw'r busnes a ddisgrifir yn y wŷs, heblaw yn yr achosion canlynol;

4.34.1 busnes sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Sefydlu, unrhyw ddeddfiad yn Adran 4; neu

4.34.2 busnes a ychwanegwyd i agenda cyfarfod o'r CJC yn unol â'r Rheolau ar ôl anfon y wŷs; neu

4.34.3 busnes sy'n cael ei roi gerbron cyfarfod o'r CJC fel mater o frys yn unol â Rheol 8.9.

4.35 Os yw cyfarfod eithriadol yn cael ei alw gan un o Aelodau'r CJC, rhaid i'r rhybudd ddisgrifio'r busnes dan sylw a bod wedi'i lofnodi gan yr Aelod(au) a alwodd y cyfarfod neu'n nodi caniatâd electronig yr Aelodau hynny.

**Cyfarfodydd Eithriadol**

# Adran 4 – Rheolau Gweithdrefnol y CJC

**Galw Cyfarfodydd Eithriadol**

4.36 Gall y Prif Weithredwr alw cyfarfodydd eithriadol o'r CJC yn ogystal â chyfarfodydd arferol. Gall y rhai a restrir isod ofyn i'r Prif Weithredwr alw cyfarfodydd ychwanegol o'r CJC:

4.36.1 Cadeirydd y CJC;
4.36.2 Y Prif Weithredwr;



4.36.3 Y Swyddog Monitro neu'r Swyddog Adran 151;

**Mynychu o Bell**

4.37 O dan Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gall Aelodau fynychu cyfarfodydd drwy gyfrwng o bell.

4.38 I bwrpas Rheol 4.37 uchod, mae "cyfrwng o bell" yn golygu'r canlynol sef cyfarfod a gynhelir drwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleusterau eraill fel y gall pobl nad ydynt yn yr un lle siarad gyda'i gilydd a chael eu clywed gan ei gilydd (p'un ai yw'r cyfarpar neu'r cyfleusterau'n galluogi'r bobl hynny i weld neu gael eu gweld gan ei gilydd neu beidio)

**Cynigion heb Rybudd**

4.39 Gellir gwneud y cynigion canlynol heb rybudd:

4.39.1 I benodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod lle y gwneir y cynnig;
4.39.2 Yn ymwneud â chywirdeb y cofnodion;
4.39.3 I newid trefn y busnes ar yr agenda;
4.39.4 I gyfeirio rhywbeth at Is-bwyllgor priodol, neu unigolyn, ar gyfer cael ei ystyried neu ailystyried;
4.39.5 I benodi Is-bwyllgor neu Aelod i gyflawni swyddogaeth neu ddyletswydd yn codi o eitem ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod;
4.39.6 I dderbyn adroddiadau gan Is-bwyllgorau neu Swyddogion;
4.39.7 Cynnig terfynu o dan Reol 4.40;
4.39.8 I ohirio un o Reolau Gweithdrefnol penodol y CJC;
4.39.9 I gau allan y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth;

**Rheolau Dadlau**

**Cynigion Terfynu**

4.40.1 I ofyn bod y cwestiwn rŵan yn cael ei ofyn;
4.40.2 I symud ymlaen i'r busnes nesaf
4.40.3 I ohirio dadl; neu
4.40.4 I ohirio cyfarfod.

**Pwynt o Drefn**

4.41 Pwynt o drefn yw cais gan Aelod i'r Swyddog Monitro am gyngor ar bwynt honedig o afreoleidd-dra mewn sut y mae'r cyfarfod yn cael ei redeg. Gall pwynt o drefn ond ymwneud â honiad o dorri Rheolau Gweithdrefnol y CJC neu'r gyfraith. Rhaid i'r Aelod ddweud pa reol neu gyfraith sydd wedi'i thorri a sut.

**Eglurhad Personol**

4.42 Gall Aelod roi eglurhad personol ar unrhyw adeg. Gall eglurhad personol ond ymwneud ag un o'r canlynol:



4.42.1 rhan berthnasol o araith flaenorol gan yr Aelod yn y ddadl bresennol a allai fod wedi cael ei cham-ddeall;

4.42.2 ymateb i honiad o gamymddwyn a wnaed yn erbyn yr Aelod sy'n rhoi'r eglurhad; neu

4.42.3 i ymddiheuro wrth y CJC.

4.43 Bydd pwyntiau o eglurhad personol ond yn cael eu cofnodi yn y cofnodion os yw'r Swyddog Monitro'n ystyried y byddai eu cynnwys yn rhoi gwell eglurder i'r cofnodion.

**Datgan Budd**

4.44 Gall Aelod ar unrhyw adeg ddatgan budd personol o dan y Cod Ymddygiad Aelodau a phan fydd Aelod yn gwneud datganiad bydd hi / fo'n cael ei glywed yn syth ac yn cael gwneud y datganiad heb i neb dorri ar eu traws.

4.45 Rhaid i Aelodau ym mhob mater ystyried a oes ganddynt fudd personol (yn unol â'r ystyr yn y Cod Ymddygiad Aelodau) mewn mater sydd i'w drafod mewn cyfarfod, ac a yw'n ofynnol o dan y Cod Ymddygiad iddynt ddatgelu'r budd hwnnw ac os ydynt yn dod i'r casgliad ei bod yn ofynnol, rhaid iddynt ddatgelu bodolaeth a natur y bydd ar ddechrau'r drafodaeth neu pan ddaw'r budd yn amlwg a phenderfynu a ddylent beidio â bod yn rhan o drafod y mater fel sy'n ofynnol o dan y Cod.

4.46 Rhaid i Aelod sy'n rhaid iddynt o dan y Cod Ymddygiad Aelodau ddatgelu bodolaeth a natur budd o'r fath, gwblhau'r ffurflen angenrheidiol a ddarperir i'r pwrpas hwnnw mewn cyfarfodydd.

**CAEL GWELD YR AGENDA AC ADRODDIADAU CYSYLLTIEDIG**

4.47 Rhaid i'r CJC gyhoeddi copïau o agenda cyfarfod o'r CJC a chopïau o unrhyw adroddiad ar gyfer y cyfarfod

4.47.1 yn electronig, a

4.47.2 o leiaf tri diwrnod clir cyn y cyfarfod, neu, os yw'r cyfarfod yn cael ei alw gyda llai o rybudd, pan elwir y cyfarfod.

4.48 Ni ellir ystyried eitem fusnes mewn cyfarfod o'r CJC oni bai naill ai

4.48.1 bod copi o'r agenda sy'n cynnwys yr eitem (neu gopi o'r eitem) yn cael ei gyhoeddi'n electronig o leiaf tri diwrnod clir cyn y cyfarfod, neu, os yw'r cyfarfod yn cael ei alw gyda llai o rybudd, pan elwir y cyfarfod; neu
4.48.2 oherwydd amgylchiadau arbennig, sy'n rhaid eu disgrifio yn y cofnodion, bod cadeirydd y cyfarfod o'r farn y dylid ystyried yr eitem yn y cyfarfod fel mater o frys.

4.49 Rhaid i berson wedi'i awdurdodi gan y CJC ("y **Swyddog Priodol**") anfon gwŷs i bob cyfarfod at yr holl Aelodau'n unol â'r Rheoliadau Sefydlu.



**COFNODION**

4.50 Rhaid cofnodi enwau'r Aelodau sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r CJC.
4.51 Rhaid cynhyrchu a chofnodi cofnodion o drafodion pob cyfarfod o'r CJC. Rhaid i'r cofnodion gael eu cymeradwyo gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod neu'r person sy'n cadeirio'r cyfarfod addas nesaf i gael ei gynnal, drwy lofnodi'r cofnodion neu eu cymeradwyo'n electronig.

**Llofnodi'r Cofnodion**

4.52 Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir. Yr unig ran o'r cofnodion y gellir ei drafod yw eu cywirdeb.

**Dim Angen Llofnodi Cofnodion Cyfarfod Blaenorol mewn Cyfarfod Eithriadol**

4.53 Yng nghyswllt unrhyw gyfarfod, os yw'r cyfarfod nesaf i'r pwrpas o lofnodi'r cofnodion yn gyfarfod eithriadol[3], yna bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei drin fel cyfarfod addas i'r pwrpas o lofnodi'r cofnodion[4].

**Ffurf y Cofnodion**

4.54 Ar wahân i'r hyn a ganiateir isod, mater i'r Prif Weithredwr fydd ffurf y cofnodion:
4.55 Bydd y cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a diwygiadau yn yr union ffurf a threfn y cawsant eu rhoi gerbron gan y Cadeirydd.

---

[3] cyfarfod sy'n cael ei alw o dan baragraff 3 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
[4] paragraff 41(1) a (2) o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

**Cau Allan y Cyhoedd**

4.56 Gellir ond cau allan y cyhoedd a'r wasg lle bo'n unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth yn Adran 8 y Cyfansoddiad hwn neu Reolau 4.58 a 4.59 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

4.57 Os yw'r cyhoedd wedi eu cau allan o dan Reol 4.56, gall Aelodau er hynny aros yn y cyfarfod (ac eithrio cyfarfodydd cyfrinachol y Pwyllgor Safonau) oni bai bod ganddynt fudd personol neu ragfarnus.

**Aflonyddwch Cyffredinol**

4.58 Os oes aflonyddwch cyffredinol sy'n gwneud busnes trefnus yn amhosib, gall y Cadeirydd ohirio'r cyfarfod am gyn hired ag y gwêl y bo angen.

**Aflonyddwch gan y Cyhoedd**

**Symud Ymaith Aelod o'r Cyhoedd**

4.59 Os yw aelod o'r cyhoedd yn aflonyddu ar drafodion cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r person. Os ydynt yn parhau i aflonyddu, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn eu symud ymaith o'r cyfarfod.

---

**Ffilmio, Recordio Sain a defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd**

4.60 Caniateir ffilmio, recordio sain a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd ac eithrio (a) os yw plant a / neu oedolion bregus yn cymryd rhan yn y drafodaeth drwy gyflwyniad, neu (b) os yw cyfarfod neu rannau o gyfarfod yn cael eu cynnal drwy sesiwn gyfrinachol o dan Adran 8, neu (c) os yw cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu.

**Atal Rheolau Gweithdrefnol y CJC**

4.61 Gellir atal Rheolau Gweithdrefnol y CJC yn unol â Rheol 2.15.

**ARCHWILIO A CHYHOEDDI COFNODION A DOGFENNAU ERAILL AR ÔL CYFARFODYDD**

4.62 Ar ôl cyfarfod o'r CJC rhaid i'r CJC

4.62.1 cyhoeddi:

(a) y cofnodion, neu gopi o gofnodion y cyfarfod;
(b) copi o agenda'r cyfarfod;
(c) copi o unrhyw adroddiadau ar unrhyw eitem oedd yn agored i'r cyhoedd; a
(d) crynodeb o'r trafodion (neu unrhyw ran o'r trafodion) lle bo'i angen er mwyn cael cofnod teg a dealladwy, o ganlyniad i eithrio deunydd eithriedig o'r cofnodion a'r adroddiadau uchod.
(e)

4.62.2 sicrhau bod y dogfennau hynny'n aros yn hygyrch ar ffurf electronig i aelodau'r cyhoedd am gyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod.

**IAITH A CHYFIEITHU**

4.63 Bydd holl gyfarfodydd y CJC a'i Is-bwyllgorau'n cael eu cynnal yn ddwyieithog a gall yr holl gyfranogwyr siarad drwy gyfrwng y Gymraeg a / neu'r Saesneg. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ceredigion.

# ADRAN 5 – IS-BWYLLGORAU

**Cyffredinol**

5.1 Yn amodol i Reol 5.5 isod, gall y CJC drefnu i gyflawni ei swyddogaeth drwy:

5.1.1 Is-bwyllgor;
5.1.2 Aelod o staff;
5.1.3 Unrhyw Gyd-bwyllgor Corfforedig arall;
5.1.4 Unrhyw Gyngor Sir neu Fwrdeistref Sirol yng Nghymru.

**Aelodaeth**

5.2 Gall Is-bwyllgor a benodir gan y CJC gynnwys, neu fod wedi'i gyfansoddi'n llwyr, o bobl nad ydynt yn Aelodau o'r CJC.

5.3 Rhaid i swyddogaethau'r Is-bwyllgor, nifer Aelodau'r Is-bwyllgor a chyfnod swydd pob Aelod, gael eu pennu gan y CJC a gall yr Is-bwyllgor ond ymarfer y swyddogaethau hynny a ddirprwyir iddo gan y CJC.

**Dirprwyo**

5.4 Yn amodol bob tro i Reol 5.5 isod, mae'r CJC yn dirprwyo penderfyniadau gweithredol am gyflawni ei swyddogaethau ac unrhyw beth sydd ei angen i hwyluso neu sy'n ategol i neu'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau'n unol ag Adran 7.

5.5 Ni all y CJC ddirprwyo unrhyw un o'r canlynol i unrhyw berson neu Is-bwyllgor arall:

5.5.1 Ei swyddogaeth yn ymwneud â datblygu polisïau o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Swyddogaeth Polisi Trafnidiaeth");
5.5.2 Ei swyddogaeth yn ymwneud â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Gynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (y "Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol");
5.5.3 Y penderfyniad i gytuno ar gyllidebau'r CJC a chyfraniadau'r Cynghorau Cyfansoddol a'r Parc Cenedlaethol;
5.5.4 Y penderfyniad i sefydlu Is-bwyllgorau'r CJC; a
5.5.5 Penderfyniadau a chyfrifoldebau penodol eraill a nodir yn y Rheoliadau Sefydlu.

**Rheolau sy'n berthnasol i bob Is-bwyllgor**

5.6 Mae'r rheolau canlynol yn berthnasol i bob Is-bwyllgor:

Rheol 4.29 i 4.30 (lleoliad cyfarfodydd)
Rheolau 4.31 i 4.35 (Hysbysiad o Gyfarfodydd a Gwŷs i fynychu)
Rheolau 4.37 i 4.38 (Mynychu o Bell)
Rheol 4.40 (Cynigion Terfynu)
Rheol 4.41 (Pwynt o Drefn)
Rheol 4.42 i 4.43 (Eglurhad Personol)
Rheol 4.44 i 4.46 (Datgan Budd)
Rheolau 4.47 i 4.49 (Cael Gweld yr Agenda ac Adroddiadau Cysylltiedig)
Rheolau 4.50 i 4.52 a 4.54 i 4.55 (Cofnodion)

Rheol 4.60 (Ffilmio, Recordio Sain a defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd)



Rheolau 4.62 (Archwilio a Chyhoeddi Cofnodion a Dogfennau Eraill ar ôl Cyfarfodydd), a
Rheol 4.63 (Iaith a Chyfieithu) – sy'n berthnasol i gyfarfod o Is-bwyllgor yr CJC fel ag i gyfarfod o'r CJC.
Rheol 8.7 (Hawl y Cyhoedd i Fynychu Cyfarfodydd)

**Cworwm**

5.7 Rhaid i o leiaf chwarter holl Aelodau'r Is-bwyllgor fod yn bresennol ym mhob cyfarfod a rhaid i Aelod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fod yn bresennol:

5.7.1 mewn cyfarfodydd lle y bwriedir trafod y Cynllun Datblygu Strategol; a
5.7.2 ar gyfer penderfyniadau i newid y drefn bleidleisio'n ymwneud â'r Cynllun Datblygu Strategol.

**Pleidleisio**

5.8 Mae gan bob person sydd â hawl i bleidleisio un bleidlais.
5.9 Penderfyniad y mwyafrif sy'n penderfynu pob pleidlais.
5.10 Os bydd pleidlais yn gyfartal, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

**Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru)**

5.11 Gall y CJC benodi Is-bwyllgor (a elwir yn Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru) er mwyn:

5.11.1 gwneud argymhellion i'r CJC ar gyfer hybu a gwella lles economaidd yr ardal (y "Swyddogaeth Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol");
5.11.2 gwneud argymhellion i'r CJC ynghlŷn â'r weledigaeth Tyfu / Bargen Dwf;
5.11.3 cadw trosolwg ac adolygu buddsoddiadau a phrosiectau'n ymwneud â'r weledigaeth Tyfu / Bargen Dwf
5.11.4 ymarfer unrhyw swyddogaethau eraill a nodir gan y CJC.

5.12 Disgrifir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru) yn Atodiad A, a gall y CJC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

**Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol**

5.13 Rhaid i'r CJC benodi Is-bwyllgor (sef yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol) i ymarfer y gwaith o ddatblygu polisïau trafnidiaeth o dan adrannau 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 Deddf Trafnidiaeth 2000.

5.14 Disgrifir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn Atodiad B a gall y CJC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

**Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol**



5.15 Rhaid i'r CJC benodi Is-bwyllgor (sef yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol) i ymarfer y swyddogaethau cynllunio strategol neu unrhyw un o swyddogaethau'r CJC sy'n ategol i neu'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny.

5.16 Disgrifir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn Atodiad C a gall y CJC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

5.17 Rhaid i'r CJC sefydlu Is-bwyllgor (sef yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) i:

- 5.17.1 adolygu a chraffu ar faterion ariannol y CJC;
- 5.17.2 gwneud adroddiadau ac argymhellion yn ymwneud â materion ariannol y CJC;
- 5.17.3 adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y CJC;
- 5.17.4 gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CJC ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau hynny;
- 5.17.5 cadw trosolwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol y CJC;
- 5.17.6 adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratoir gan y CJC;
- 5.17.7 ymarfer unrhyw swyddogaethau eraill a nodir gan y CJC.

5.18 Disgrifir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Atodiad D a gall y CJC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

**Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu**

5.19 Rhaid i'r CJC benodi Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu'n unol â'r cylch gorchwyl sydd wedi'i fabwysiadu gan y CJC.

5.20 Disgrifir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Atodiad E a gall y CJC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

**Is-bwyllgor Safonau**

5.21 Rhaid i'r CJC benodi Is-bwyllgor Safonau'n unol â'r cylch gorchwyl sydd wedi'i fabwysiadu gan y CJC.

5.22 Disgrifir Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Safonau yn Atodiad F a gall y CJC ddiwygio'r cylch gorchwyl hwnnw o bryd i'w gilydd.

**Atodiad A**

## Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol (Bargen Dwf Canolbarth Cymru) – Cylch Gorchwyl

### A1. Rhagarweiniad

A1.1 Mae'r Cynghorau Cyfansoddol wedi sefydlu cyd-bwyllgor i gadw trosolwg a chydlynu sut y mae rhwymedigaethau'r Cynghorau'n ymwneud â Bargen Dwf Canolbarth Cymru ("**Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru**") yn cael eu cyflawni.

A1.2 Mae'r CJC wedi penodi Bwrdd Tyfu'r Canolbarth i eistedd o dan y CJC fel yr Is-bwyllgor sy'n gyfrifol am wneud yr argymhellion angenrheidiol i'r CJC ar gyfer hybu a gwella lles economaidd yr ardal, yn ogystal â datblygu argymhellion ar gyfer gweithredu a darparu Bargen Dwf Canolbarth Cymru ar ran y Cynghorau Cyfansoddol (yr "**Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol**").

### A2. Cyfansoddiad yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol

A2.1 Rhaid i gyfansoddiad a swyddogaethau'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol barhau i gael eu llywodraethu gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA3) rhwng y Cynghorau Cyfansoddol, dyddiedig 2 Mawrth 2022.

A2.2 Rhaid ethol Cadeirydd yr Is-bwyllgor o blith Aelodau'r Awdurdodau Cyfansoddol a chylchdroi'r swydd rhwng yr awdurdodau'n flynyddol.

### A3. Argymhellion yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol

A3.1 Bydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn gwneud argymhellion i'r CJC yn ymwneud â'r Swyddogaeth Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol a Bargen Dwf Canolbarth Cymru. Yna gofynnir i'r CJC ystyried yr argymhellion ar gyfer eu cymeradwyo. Os nad yw'r CJC yn cymeradwyo'r argymhellion, gellir eu cyfeirio'n ôl at yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol i'w hailystyried ac yna eu hailgyflwyno i'r CJC.

### A4. Cyfarfodydd

A4.1 Rhaid i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol gyfarfod pob chwarter o leiaf, neu ba mor aml bynnag ag y bydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn penderfynu o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni ei rôl.

A4.2 Gall y CJC wahodd unrhyw drydydd partïon priodol i arsylwi ar gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol ag y gwêl yn briodol o bryd i'w gilydd. Gall y trydydd partïon hyn gynnwys unigolion neu gynrychiolwyr o unrhyw sefydliadau a chwmnïau sector preifat a benderfynir arnynt gan y CJC o bryd i'w gilydd.

A4.3 Bydd gan unrhyw drydydd partïon a wahoddir i un o gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol hawl i gymryd rhan yn y cyfarfod yn unol â phenderfyniad y CJC. Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw drydydd parti sy'n mynychu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol beidio â bod yn bresennol ar gyfer peth neu ran o gyfarfod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol.



A4.4 Gellir cynnal cyfarfod o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn unol â Rheolau 4.29 i 4.30 (Lleoliad) a 4.37 i 4.38 (Cyfarfodydd o Bell).

A4.5 Rhaid cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus a bydd y trefniadau i gyhoeddi a chael gweld dogfennau'r un fath ag ar gyfer cyfarfodydd y CJC ac yn unol ag Adran 4 y Cyfansoddiad.

**A5. Trafodion Cyfarfodydd**

A5.1 Bydd Rheol 5.6 y Cyfansoddiad yn berthnasol i gyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol.

A5.2 Bydd y Cod Ymddygiad Aelodau'n berthnasol i holl Aelodau'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol.

A5.3 Gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir ail-drefnu neu ganslo cyfarfodydd neu drefnu cyfarfodydd ychwanegol.

A5.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi drwy gynhyrchu nodiadau fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar ôl y cyfarfod, ac eithrio unrhyw wybodaeth a eithriwyd neu wybodaeth gyfrinachol. Bydd nodiadau cyfarfodydd fel arfer yn fyr ac yn cynnwys crynodeb o'r drafodaeth, pwyntiau gweithredu ac argymhellion.

A5.5 Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn gorff gwneud penderfyniadau a dylai'r Cadeirydd geisio hwyluso cytundeb drwy gonsensws ar y materion a drafodir. Os na ellir cyrraedd consensws, rhaid i'r Cadeirydd gyflwyno safbwyntiau gwahanol y pwyllgor i'r CJC. A5.6 Bydd angen dilyn y Cod Ymddygiad Aelodau yn Adran 9.

**A6. Cworwm**

A6.1 Rhaid i'r cworwm sydd ei angen ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol fod yn ddau Aelod etholedig o leiaf o'r Cynghorau Cyfansoddol neu'r dirprwyon priodol a benodwyd.

**A7. Pleidleisio**

A7.1 Yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol, bydd un bleidlais yr un gan bob Aelod etholedig neu ddirprwy priodol a benodir ac sy'n bresennol. Bydd penderfyniadau cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd – Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn unol â phleidlais fwyafrifol cyfarfod gyda chworwm.

**A8. Cofnodion**

A8.1 Rhaid cynhyrchu a chofnodi cofnodion o drafodion pob cyfarfod o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd - Datblygu Economaidd Rhanbarthol. Rhaid i'r cofnodion gael eu cymeradwyo gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod neu'r person sy'n cadeirio'r cyfarfod addas nesaf i gael ei gynnal, drwy lofnodi'r cofnodion neu eu cymeradwyo'n electronig.

**Atodiad**

**B**

## Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol – Cylch Gorchwyl

### B1. Rhagarweiniad

B1.1 Mae Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi cyflwyno Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (**Swyddogaethau Trafnidiaeth**) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022 (Rheoliadau Swyddogaethau Trafnidiaeth 2022)

B1.2 Mae Rheoliadau Swyddogaethau Trafnidiaeth 2022 yn newid y cyfrifoldeb am swyddogaethau o dan Adran 108 Deddf Trafnidiaeth 2000 a symud y cyfrifoldeb am ddarparu cynllun trafnidiaeth o'r awdurdodau lleol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a diddymu Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014.

B1.3 Mae'r Cynghorau Cyfansoddol wedi sefydlu cyd-bwyllgor i oruchwylio a chydlynu'r gwaith o gyflawni rhwymedigaethau'r Cynghorau yn ymwneud â Chynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol a elwir yn Trac.

B1.4 Bydd y CJC yn penodi Bwrdd TraCC fel ei Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol i gynghori'r CJC ar ei swyddogaeth Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. . Yr Is-bwyllgor hwn fydd yn gyfrifol am wneud yr argymhellion angenrheidiol i'r CJC ar ddarparu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer y Cynghorau Cyfansoddol. Mae swyddogaethau TraCC yn fwy na swyddogaethau'r CJC a ddisgrifir yn Rheoliadau Swyddogaethau Trafnidiaeth 2022 ac mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno y bydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn parhau i fod â phwerau i wneud penderfyniadau'n ymwneud â holl swyddogaethau TraCC heblaw darparu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

### B2. Cyfansoddiad yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

B2.1 Rhaid i gyfansoddiad a swyddogaethau'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys chwe Aelod, tri o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol (yn cynnwys y ddau Aelod o bob Awdurdod Cyfansoddol ar Fwrdd Rheoli Trafnidiaeth Canolbarth Cymru ("TraCC")).

B2.2 Rhaid ethol Cadeirydd yr Is-bwyllgor o blith Aelodau'r Awdurdodau Cyfansoddol a chylchdroi'r swydd rhwng yr awdurdodau'n flynyddol.

### B3. Argymhellion yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

B3.1 Bydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gwneud argymhellion i'r CJC ar ddatblygu Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Gofynnir i'r CJC wedyn ystyried yr argymhellion hyn. Os nad yw'r CJC yn cymeradwyo'r argymhellion, gellir eu cyfeirio'n ôl at yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol i'w hailystyried ac yna eu hailgyflwyno i'r CJC.

**B4. Cyfarfodydd**

B4.1 Rhaid i'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol gyfarfod pob chwarter o leiaf, neu ba mor aml bynnag ag y bydd yr Is-bwyllgor yn penderfynu o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni ei rôl.

B4.2 Gall yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol wahodd unrhyw drydydd partïon priodol i arsylwi ar gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol ag y gwêl yn briodol o bryd i'w gilydd. Gall y trydydd partïon hyn gynnwys unigolion neu gynrychiolwyr o unrhyw sefydliadau a chwmnïau sector preifat y bydd yr Is-bwyllgor yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.



B4.3 Bydd gan unrhyw drydydd parti a wahoddir i gyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol hawl i gymryd rhan yn y cyfarfod ond dim hawl i bleidleisio ar unrhyw benderfyniad. Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw drydydd parti sy'n mynychu cyfarfod Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol beidio â bod yn bresennol ar gyfer peth neu ran o'r cyfarfod Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol.

B4.4 Gellir cynnal cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â Rheolau 4.29 i 4.30 (Lleoliad) a 4.37 i 4.38 (Cyfarfodydd o Bell).

B4.5 Rhaid cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus a bydd y trefniadau i gyhoeddi a chael gweld dogfennau'r un fath ag ar gyfer cyfarfodydd y CJC ac yn unol ag Adran 4.

**B5. Cworwm**

B5.1 Rhaid i'r cworwm sydd ei angen ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol fod yn ddau Aelod etholedig o leiaf o'r Cynghorau Cyfansoddol neu'r dirprwyon priodol a benodwyd.

**B6. Pleidleisio**

B6.1 Yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd un bleidlais gan bob Aelod etholedig neu ddirprwy priodol sy'n bresennol. Bydd penderfyniadau cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â phleidlais fwyafrifol cyfarfod gyda chworwm.

**B7. Cofnodion**

B7.1 Rhaid cynhyrchu a chofnodi cofnodion o drafodion pob cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Rhaid i'r cofnodion gael eu cymeradwyo gan y person sy'n cadeirio cyfarfod yr Is-bwyllgor neu'r person sy'n cadeirio'r cyfarfod addas nesaf i gael ei gynnal, drwy lofnodi'r cofnodion neu eu cymeradwyo'n electronig.

**B8. Trafodion Cyfarfodydd**

B8.1 Bydd Rheol 5.6 uchod yn berthnasol i gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol.

B8.2 Bydd y Cod Ymddygiad Aelodau'n berthnasol i holl Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol.

B8.3 Gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir ail-drefnu neu ganslo cyfarfodydd neu drefnu cyfarfodydd ychwanegol.
B8.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi drwy gynhyrchu nodiadau fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar ôl y cyfarfod, ac eithrio unrhyw wybodaeth a eithriwyd neu wybodaeth gyfrinachol. Bydd nodiadau cyfarfodydd fel arfer yn fyr ac yn cynnwys crynodeb o'r drafodaeth, pwyntiau gweithredu ac argymhellion.
B8.5 Nid yw'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gorff gwneud penderfyniadau ar gyfer darparu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a dylai'r Cadeirydd geisio hwyluso cytundeb drwy gonsensws ar y materion a drafodir. Os na ellir cyrraedd consensws, rhaid i'r Cadeirydd gyflwyno safbwyntiau gwahanol y pwyllgor i'r CJC.
B8.6 Mae'r Is-bwyllgor Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yn parhau i fod â phwerau i wneud penderfyniadau am holl swyddogaethau TraCC, heblaw darparu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
B8.7 Bydd angen dilyn y Cod Ymddygiad Aelodau yn Adran 9.



C

**Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol – Cylch Gorchwyl**

**C1. Rhagarweiniad**

C1.1 Un o swyddogaethau CJC Canolbarth Cymru yw paratoi Cynllun Datblygu Strategol (SDP) (ac yn unol â hynny, mae Rhan 6 o Ddeddf Gynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 yn berthnasol i CJC y Canolbarth)
C1.2 Mae cynhyrchu SDP yn ddyletswydd statudol a bydd angen ymrwymo adnoddau sylweddol dros gyfnod i'w ddiffinio'n unol â disgwyliadau darparu clir a restrir mewn 'Cytundeb Darparu' wedi'i gytuno gan y CJC a Llywodraeth Cymru.
C1.3 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNPA) yn Aelod o'r CJC ond gyda hawl i bleidleisio dim ond ar bwrpasau Cynllunio Datblygu Strategol.
C1.4 Bydd y CJC yn penodi'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol i wneud yr argymhellion angenrheidiol i'r CJC yn ymwneud â pharatoi, mabwysiadu a gweithredu Cynllun Datblygu Strategol Canolbarth Cymru ar gyfer y Cynghorau Cyfansoddol a BBNPA.
C1.5 Yr SDP fydd y Cynllun Datblygu rhanbarthol cyntaf erioed ar gyfer Canolbarth Cymru ac o dan yr hwn y bydd dal angen paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol (LDP) a / neu 'fân gynlluniau LDP' ar lefel Awdurdod Cynllunio Lleol. Unwaith fydd yr SDP yn ei le, gwneir penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol ar ôl ystyried yr SDP, cynlluniau LDP mabwysiedig / mân gynlluniau LDP a Cymru'r Dyfodol, y Cynllun Cenedlaethol hyd at 2040.

C1.6 Bydd ffocws yr SDP ar y materion, pynciau neu'r llefydd a ystyrir i fod yn allweddol i ddarparu materion ehangach na rhai lleol gan ymateb i'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn y rhanbarth. Bydd yn trafod materion cynllunio strategol a 'chreu lle' fel y prif ganolfannau twf economaidd, dyraniadau tai mawr (gan gynnwys aneddiadau newydd lle bo hynny'n briodol) ac ardaloedd i'w gwarchod.

**C2. Cyfansoddiad yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol**

C2.1 Bydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn cynnwys wyth Aelod, tri o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol a dau o'r BBNPA.

C2.2 Rhaid ethol Cadeirydd yr Is-bwyllgor o blith Aelodau'r Awdurdodau Cyfansoddol yn flynyddol.

**C3. Argymhellion yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol**

C3.1 Bydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn gwneud argymhellion i'r CJC yn ymwneud â pharatoi a datblygu'r Cynllun Datblygu Strategol ac ar ei weithredu, monitro a'i adolygu yn y dyfodol. Gofynnir i'r CJC wedyn ystyried yr argymhellion hyn. Os nad yw'r CJC yn cymeradwyo'r argymhellion, gall y CJC gyfeirio materion yn ôl at yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol ar gyfer eu hailystyried ac yna eu hailgyflwyno i'r CJC.

**C4. Cyfarfodydd**

C4.1 Rhaid i'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol gyfarfod pob chwarter o leiaf, neu ba mor aml bynnag ag y bydd yr Is-bwyllgor yn penderfynu o bryd i'w gilydd er mwyn cyflawni ei rôl.

C4.2 Gall yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol wahodd trydydd partïon priodol i fynychu ac arsylwi ar gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol fel y gwêl yn briodol o bryd i'w gilydd.



Gall y trydydd partïon hyn gynnwys unigolion neu gynrychiolwyr o unrhyw sefydliadau a chwmnïau sector preifat a benderfynir gan yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol o bryd i'w gilydd.

C4.3 Bydd gan unrhyw drydydd parti a wahoddir i fynychu ac arsylwi ar gyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol hawl i gymryd rhan yn y cyfarfod ond dim hawl i bleidleisio ar unrhyw benderfyniad. Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw drydydd parti sy'n mynychu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol beidio â bod yn bresennol ar gyfer peth neu ran o unrhyw gyfarfod.

C4.4 Gellir cynnal cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn unol â Rheolau 4.29 i 4.30 (Lleoliad) a 4.37 i 4.38 (Cyfarfodydd o Bell).

C4.5 Rhaid cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus a bydd y trefniadau i gyhoeddi a chael gweld dogfennau'r un fath ag ar gyfer cyfarfodydd y CJC ac yn unol ag Adran 4.

**C5. Cworwm**

C5.1 Rhaid i'r cworwm sydd ei angen ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol fod yn un Aelod o leiaf o bob un o'r Cynghorau Cyfansoddol a'r BBNPA.

**C6. Pleidleisio**

C6.1 Yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol, bydd un bleidlais yr un gan bob Aelod a benodwyd ac sy'n bresennol. Bydd penderfyniadau cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Strategol yn unol â phleidlais fwyafrifol cyfarfod gyda chworwm.

**C7. Cofnodion**

C7.1 Rhaid cynhyrchu a chofnodi cofnodion trafodion pob cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol. Rhaid i'r cofnodion gael eu hystyried a'u cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor.

**C8. Trafodion Cyfarfodydd**

C8.1 Bydd Rheol 5.6 uchod yn berthnasol i gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol.

C8.2 Bydd y Cod Ymddygiad Aelodau'n berthnasol i holl Aelodau'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol.

C8.3 Gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir ail-drefnu neu ganslo cyfarfodydd neu drefnu cyfarfodydd ychwanegol.

C8.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi drwy gynhyrchu nodiadau fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar ôl y cyfarfod, ac eithrio unrhyw wybodaeth eithriedig neu gyfrinachol. Bydd nodiadau cyfarfodydd fel arfer yn fyr ac yn cynnwys crynodeb o'r drafodaeth, pwyntiau gweithredu ac argymhellion.

C8.5 Nid yw'r Is-bwyllgor Cynllunio Datblygu Strategol yn gorff gwneud penderfyniadau a dylai'r Cadeirydd geisio hwyluso cytundeb drwy gonsensws ar y materion a drafodir. Os na ellir cyrraedd consensws, rhaid i'r Cadeirydd gyflwyno safbwyntiau gwahanol y pwyllgor i'r CJC.



**D**

**Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl**

**D1. Aelodaeth**

D1.1 Bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel a ganlyn:

D1.1.1 Un Aelod lleyg o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob un o'r Cynghorau Cyfansoddol;

D1.1.2 Dau Gynghorydd o Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob un o'r Cynghorau Cyfansoddol;

D1.1.3 Os yw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n ystyried materion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Strategol, rhaid i'r Is-bwyllgor cynnwys Aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio a Chraffu Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

D1.1.4 Rhaid i draean o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys Aelodau lleyg a rhaid i ddau draean o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys Aelodau o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd unrhyw beth a wneir gan yr Is-bwyllgor yn annilys os torrir unrhyw un o'r gofynion aelodaeth hyn.

D1.1.5 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael eu penodi gan yr Is-bwyllgor yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y CJC a rhaid i'r Cadeirydd fod yn Aelod lleyg a rhaid cylchdroi'r swydd yn flynyddol rhwng yr Awdurdodau.

D1.1.6 Gellir symud Cadeirydd a / neu Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymaith o'u swydd gan gynnig i symud ymaith a roddir ar yr agenda.

**D2. Cwmpas**

Cymeradwyo datganiad cyfrifon, incwm a gwariant a mantolen neu gofnod derbyniadau a thaliadau (fel bo'r achos) y CJC.

Sicrhau bod y strategaeth rheoli risg yn tywys y rhaglen o waith mewnol ac allanol, rhoi sylw i'r mesurau rheoli a materion risg sy'n cael eu hadnabod.

Cadw trosolwg ar y gwaith o gynhyrchu'r datganiad llywodraethu blynyddol, argymell ei fabwysiadu i'r CJC a sicrhau y cymerir camau priodol i roi sylw i'r materion a godir.

Ystyried a chymeradwyo'r farn archwilio flynyddol am y trefniadau rheolaeth fewnol, a lefel y sicrwydd a roddir i'r trefniadau llywodraethu corfforaethol.

Cymeradwyo'r cynllun archwilio blynyddol gan sicrhau ei fod yn cynnwys popeth priodol ac angenrheidiol, gyda phwyslais cryf ar reoli risg a sicrhau adnoddau i weithredu'r cynllun.

Derbyn ac adolygu adroddiadau archwilio mewnol a sicrhau bod swyddogion yn ymateb yn brydlon i'r canfyddiadau. Lle bo angen, gwneud argymhellion i bwyllgorau a dalwyr portffolio eraill i sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n cael eu gweithredu.

Ystyried a chymeradwyo'r llythyr blynyddol, y cynllun rheoleiddio ac adroddiadau penodol fel y cytunwyd.

Lle bo angen, sicrhau bod swyddogion yn cymryd camau i roi sylw i'r materion a godwyd, a lle bo angen gwneud argymhellion i bwyllgorau a dalwyr portffolio eraill i roi sylw i ganfyddiadau a sicrhau casgliadau clir.

Gwneud sylw ar gwmpas a manylder y gwaith archwilio allanol i sicrhau gwerth am arian.

Asesu a chymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol, y farn archwilio allanol a sylwadau rheolwyr ar ganfyddiadau archwiliadau blynyddol.

Hyrwyddo perthynas effeithiol rhwng archwilio allanol a mewnol, asiantaethau arolygu a chyrff perthnasol eraill i hyrwyddo a sicrhau gwerth gorau gan archwiliadau ac arolygiadau.

Monitro adroddiadau rheoli'r Trysorlys yn rheolaidd.

**Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Adran 81) fel y diwygiwyd hwnnw gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Adran 115) a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru 2021.**

Adolygu a chraffu ar faterion ariannol y CJC.

Gwneud adroddiadau ac argymhellion yn ymwneud â materion ariannol y CJC.

Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol y CJC.

Gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r CJC ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r trefniadau hynny.

Adolygu ac asesu pa mor effeithiol y mae'r CJC yn delio â chwynion.

Gwneud adroddiadau ac argymhellion ynghylch pa mor effeithiol y mae'r CJC yn delio â chwynion.

Cadw trosolwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol y CJC; ac Adolygu unrhyw ddatganiadau ariannol a baratowyd gan y CJC.

**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Adran 91-95)**

Dyletswydd i adolygu adroddiad hunanasesu perfformiad drafft y CJC ac efallai gwneud argymhellion i newid y casgliadau neu unrhyw beth wedi'i gynnwys yn y drafft.

Dyletswydd i adolygu ymateb drafft y CJC i asesiad perfformiad y panel ac efallai gwneud argymhellion i newid y datganiadau a wnaed.

Dyletswydd i ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dilyn arolygiad arbennig.

Dyletswydd i adolygu ymateb drafft y CJC i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac efallai gwneud argymhellion i newid y datganiad a wnaed.

D3. Gall yr Is-bwyllgor wneud adroddiadau a / neu argymhellion i'r CJC yng nghyswllt cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r CJC.

**D4 Rhaglen Waith**

D4.1 Bydd y Cadeirydd, drwy ymgynghori â'r Is-bwyllgor, yn penderfynu ar y rhaglen waith.

**D5. Cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

D5.1 Rhaid i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod unwaith y flwyddyn o leiaf.

D5.2 Rhaid i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd gyfarfod os oes traean o leiaf o Aelodau'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n gofyn am gyfarfod drwy gyflwyno, yn ysgrifenedig i'r Cadeirydd, un rhybudd neu fwy.

D5.3 I bwrpas Aelodau neu swyddogion y CJC neu swyddogion y Cynghorau Cyfansoddol sy'n mynychu'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n unig, yn unol ag Adran 83(6) y Mesur, nid oes raid i berson ateb unrhyw gwestiwn y byddai gan y person hawl i wrthod ei ateb mewn achos yn, neu i bwrpas achos mewn, llys yng Nghymru a Lloegr.

**D6. Trafodion Cyfarfodydd**

D6.1 Bydd Rheol 5.6 yn berthnasol i gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

D6.2 Bydd y Cod Ymddygiad Aelodau'n berthnasol i holl Aelodau'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

D6.3 Gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir ail-drefnu neu ganslo cyfarfodydd neu drefnu cyfarfodydd ychwanegol.

D6.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi drwy gynhyrchu nodiadau fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar ôl y cyfarfod, ac eithrio unrhyw wybodaeth eithriedig neu gyfrinachol. Bydd nodiadau cyfarfodydd fel arfer yn fyr ac yn cynnwys crynodeb o'r drafodaeth, pwyntiau gweithredu ac argymhellion.

D6.5 Nid yw'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n gorff gwneud penderfyniadau a dylai'r Cadeirydd geisio hwyluso cytundeb drwy gonsensws ar y materion a drafodir.

D6.6 Bydd angen dilyn y Cod Ymddygiad Aelodau yn Adran 9.

**Atodiad E**

**Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu – Cylch Gorchwyl**

**CYLCH GORCHWYL IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ("OSSC") Y CJC**

**E1. Aelodaeth**

E1.1 Yn amodol i 1.3 isod, rhaid i'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu gynnwys deg Aelod i gyd, pump o bob un o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol y Cynghorau Cyfansoddol, i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol.

E1.2 Nid yw Aelodau gweithredol y Cynghorau Cyfansoddol yn cael bod yn Aelodau o'r OSSC.

E1.3 Os yw'r OSSC yn ystyried y Swyddogaeth Cynllunio Datblygu Strategol ac unrhyw swyddogaeth sy'n ategol i neu'n gysylltiedig â'r swyddogaeth honno, rhaid i'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu gynnwys 11 o Aelodau i gyd, pump o bob un o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol y Cynghorau Cyfansoddol, i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd ag un cynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

E1.4 Caniateir dau ddirprwy enwebedig ar gyfer y cynrychiolwyr a restrir uchod o'r Cynghorau Cyfansoddol a chaniateir un dirprwy ar gyfer cynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar yr amod nad yw'r dirprwyon yn rhan o, nac ychwaith wedi mynychu cyfarfodydd y CJC neu un o Is-bwyllgorau eraill y CJC.

E1.5 Gall Cyngor Cyfansoddol anfon dirprwy o bwyllgor craffu perthnasol eu Cyngor o'r un grŵp gwleidyddol os nad ydynt yn gallu mynychu ond ni all y person fod yn Aelod o Fwrdd Gweithredol y Cyngor Cyfansoddol. Bydd y dirprwy'n gallu pleidleisio.

**E2. Pwrpas**

E2.1 Pwrpas yr Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd:

E2.1.1 Cyflawni'r swyddogaeth trosolwg a chraffu ar gyfer y CJC ar ran y Cynghorau Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lle bo'n briodol, er mwyn:

(a) adolygu a / neu graffu penderfyniadau a wneir neu gamau eraill a gymerir yng nghyswllt cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r CJC;
(b) gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r CJC neu ei swyddogion gweithredol ar gyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau hynny;
(c) ymarfer unrhyw swyddogaethau eraill y gallai'r CJC benderfynu arnynt.

E2.1.2 Datblygu Blaenraglen Waith flynyddol, yn adlewyrchu'r swyddogaethau o dan gymal 2.1.1 uchod.

E2.1.3 Cael sicrwydd ac ystyried a yw'r CJC yn datblygu'n unol â'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru.



**E3. Cadeirydd**

E3.1 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr OSSC yn cael eu hethol gan yr OSSC.

E3.2 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr OSSC yn cael eu hethol gan yr OSSC yn ei gyfarfod cyntaf ac yna bob blwyddyn galendr.

E3.3 Bydd swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cylchdroi rhwng y Cynghorau Cyfansoddol yn flynyddol.

E3.4 Ethol Cadeirydd – Bydd yr OSSC yn ethol Cadeirydd o blith Aelodau enwebedig y pwyllgor. Ni fydd Aelodau dirprwyol yn gymwys i'w hethol yn Gadeirydd.

E3.5 Ethol Is-gadeirydd – Bydd yr OSSC yn ethol Is-gadeirydd o blith Aelodau enwebedig y pwyllgor. Ni fydd Aelodau dirprwyol yn gymwys i'w hethol yn Is-gadeirydd.

**E4. Pleidleisio**

E4.1 Bydd gan bob Aelod o'r OSSC un bleidlais. Bydd penderfyniadau'r OSSC yn seiliedig ar bleidlais fwyafrifol syml.

E4.2 Yn achos pleidlais gyfartal, bydd gan Gadeirydd yr OSSC bleidlais fwrw.

**E5. Gwrthdaro Budd**

E5.1 Rhaid i Aelodau'r OSSC ddatgan unrhyw fudd naill ai cyn neu yn ystod cyfarfodydd yr OSSC (a gadael y cyfarfod os oes angen) yn unol â'r Cod Ymddygiad neu fel y bo'n gyfreithiol ofynnol.

**E6. Trafodion Cyfarfodydd**

E6.1 Bydd Rheol 5.6 uchod yn berthnasol i gyfarfodydd yr OSSC.

E6.2 Bydd y Cod Ymddygiad Aelodau'n berthnasol i holl Aelodau'r OSSC.

E6.3 Gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir ail-drefnu neu ganslo cyfarfodydd neu drefnu cyfarfodydd ychwanegol.

E6.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei gofnodi drwy gynhyrchu nodiadau fydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar ôl y cyfarfod, ac eithrio unrhyw wybodaeth eithriedig neu gyfrinachol. Bydd nodiadau cyfarfodydd fel arfer yn fyr ac yn cynnwys crynodeb o'r drafodaeth, pwyntiau gweithredu ac argymhellion.

E6.5 Nid yw'r OSSC yn gorff gwneud penderfyniadau a dylai'r Cadeirydd geisio hwyluso cytundeb drwy gonsensws ar y materion a drafodir. Os na ellir cyrraedd consensws, rhaid i'r Cadeirydd gyflwyno safbwyntiau gwahanol y pwyllgor i'r CJC.

E6.6 Bydd angen dilyn y Cod Ymddygiad Aelodau yn Adran 9.

## ADRAN 5 – IS-BWYLLGORAU

**E7. Cworwm**

E7.1 Ni fydd y cworwm ar gyfer y cyfarfodydd yn llai na phedwar Aelod a rhaid i hyn gynnwys o leiaf dau Aelod o bob un o'r Cynghorau Cyfansoddol, ond os yw'r OSSC yn ystyried y Swyddogaeth Cynllunio Datblygu Strategol ac unrhyw swyddogaeth sy'n ategol i neu'n gysylltiedig â'r swyddogaeth honno, rhaid i'r cworwm gynnwys cynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**E8. Pa mor aml y dylid cyfarfod**

E8.1 Rhaid i'r OSSC gyfarfod pob chwarter gan ystyried cyfarfodydd y CJC. Gall y Cadeirydd alw cyfarfodydd ychwanegol drwy roi rhybudd o 7 diwrnod llawn o leiaf.

Adran 5 – Tudalen 14

**E9. Is-grwpiau**

E9.1 Drwy gytundeb, gall yr OSSC greu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

**E10. Adolygu**

E10.1 Rhaid adolygu Cylch Gorchwyl yr OSSC yn flynyddol.

**E11. Galw i Mewn**

E11.1 Pan fydd y CJC yn gwneud penderfyniad, rhaid i'r Swyddog Monitro gylchredeg crynodeb o'r penderfyniad (fel arfer o fewn deuddydd i wneud y penderfyniad a, lle bo'n bosib, yn electronig) i holl Aelodau'r CJC ac Aelodau'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

E11.2 Bydd y rhybudd yn cynnwys crynodeb o'r penderfyniad yn nodi dyddiad ei gyhoeddi ac y daw'r penderfyniad i rym, ac y gellir yna ei weithredu, pan ddaw pum diwrnod clir (y "cyfnod galw i mewn") ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad i ben, oni bai fod yr Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, neu'r nifer angenrheidiol o Aelodau o'r Is-bwyllgor hwnnw (wele baragraff 12.3 isod) yn gwrthwynebu iddo'n ysgrifenedig ac yn ei alw i mewn.

E11.3 Yn ystod y cyfnod Galw i Mewn, rhaid i'r Swyddog Monitro alw penderfyniad i mewn i gael ei graffu gan yr Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu os gwneir cais yn y ffurf benodedig ("y Cais Galw i Mewn"[5]) gan dri Aelod o Bwyllgor Craffu AR YR AMOD bod y Swyddog Monitro a / neu'r Prif Swyddog Cyllid yn fodlon bod yr amodau canlynol yn cael eu cwrdd:

E11.3.1 bod y penderfyniad neu'r gweithredu'n groes i'r fframwaith polisi neu'r gyllideb neu'n disgyn y tu allan i swyddogaethau'r CJC; neu

E11.3.2 nid oedd y CJC wedi dilyn y gweithdrefnau cytunedig neu heb ymgynghori (lle'r oedd angen) cyn gwneud ei benderfyniad; neu

[5] Wele Atodiad 1 i'r Adran hon.

E11.3.3 nid oedd y CJC wedi dilyn, neu heb ystyried, unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol, yn cynnwys rheoliadau neu ganllawiau statudol perthnasol i weithredu'r CJC, neu ganllawiau eraill wedi eu mabwysiadu gan y CJC.

E11.4 Os yw'r Swyddog Monitro a / neu'r Prif Swyddog Cyllid yn fodlon bod un neu fwy o'r amodau yn Rheol 12.3 uchod wedi cael eu cwrdd, rhaid iddynt gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig yn egluro'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn a bydd y Swyddog Monitro yna'n trefnu i gyflwyno "Rhybudd Galw i Mewn"[6] yn unol â Rheol 12.5 isod.

E11.5 Rhaid i Rybudd Galw i Mewn gynnwys y canlynol:

E11.5.1 manylion yr amod a ddisgrifir yn rheol 12.3 uchod ac y dibynnir arno;
E11.5.2 y rhesymau dros gredu bod un neu fwy o'r amodau wedi cael eu cwrdd.

E11.6 Bydd y Swyddog Monitro'n galw cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwnnw ar ba bynnag ddyddiad y bydd yn penderfynu, lle bo'n bosib ar ôl trafod gyda chadeirydd neu is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwnnw, ac fel arfer o fewn 10 diwrnod clir i dderbyn y Cais Galw i Mewn (y "Cyfnod Craffu") (dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n ystyried ymestyn yr amser hwn ac ni all yr estyniad, o dan unrhyw amgylchiadau, fod yn fwy na 5 diwrnod clir arall).

E11.7 Ar ôl ystyried y penderfyniad, os yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n parhau i boeni am y penderfyniad, gall y Pwyllgor ei gyfeirio'n ôl at y CJC i gael ei ailystyried, gan nodi natur ei bryderon yn ysgrifenedig. Os yw'r penderfyniad yn cael ei gyfeirio'n ôl at y CJC, rhaid i'r CJC yna ailystyried y penderfyniad o fewn 10 diwrnod clir i ddyddiad ei gyfeirio. Rhaid i'r CJC ddewis diwygio'r penderfyniad neu beidio cyn dod i benderfyniad terfynol a'i weithredu. Ni ellir galw i mewn y penderfyniad terfynol hwn.

E11.8 Os nad yw'r Pwyllgor Craffu'n cyfarfod o fewn y Cyfnod Craffu, bydd y penderfyniad yn dod i rym ac yn cael ei weithredu'r diwrnod nesaf ar ôl i'r Cyfnod Craffu ddod i ben (wedi'i ymestyn o dan Reol 7.35.6, fel bo'r achos).

E11.9 Os nad yw'r Pwyllgor Craffu, yn dilyn gwrthwynebiad i'r penderfyniad, yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r CJC, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Craffu.

E11.10 I sicrhau nad yw'r drefn galw i mewn yn cael ei chamddefnyddio, neu'n achosi oedi afresymol, rhoddir cyfyngiadau penodol ar ei defnyddio. Y rhain yw:

[6] Wele Atodiad 2 i'r Adran hon

E11.10.1 gall y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ond galw i mewn pump o benderfyniadau mewn blwyddyn;

E11.10.2 unwaith fydd Aelod (ac eithrio cadeirydd y Pwyllgor Craffu) wedi llofnodi Cais Galw i Mewn, ni all wneud hynny eto am gyfnod o chwe mis.

E11.10.3 gellir ond galw i mewn penderfyniadau ar wariant neu leihad mewn gwasanaeth dros y gwerth trothwy ar gyfer tendrau'n unol ag Adran 17 y Cyfansoddiad hwn.

E11.10.4 nid yw'r penderfyniad sy'n cael ei alw i mewn, neu fwy neu lai'r un penderfyniad, wedi'i alw i mewn yn y chwe mis blaenorol.

E11.11 gall y Swyddog Monitro a / neu'r Prif Swyddog Cyllid roi feto ar unrhyw gais galw i mewn os yw'n disgyn y tu allan i gylch gwaith y cynllun hwn.

E11.12 Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, rhaid i holl Aelodau Pwyllgor Craffu sy'n gofyn am i fater gael ei alw i mewn fynychu'r cyfarfod fydd yn ystyried y mater.

E11.13 I osgoi amheuaeth, bydd Galwad i Mewn yn parhau i fod yn ddilys hyd yn oed os na fydd un neu fwy o'r Aelodau a lofnododd y Cais Galw i Mewn yn mynychu'r Cyfarfod Craffu fydd yn trafod y mater wedi'i alw i mewn.

**E12. Eithriadau i Alw i Mewn**

E12.1 Ni fydd y weithdrefn galw i mewn yng nghymal 12 uchod yn berthnasol os yw'r penderfyniad sy'n cael ei wneud yn un brys. Bydd penderfyniad yn frys os:

E12.1.1 byddai unrhyw oedi oherwydd y broses galw i mewn yn gwneud niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau cyhoeddus eraill; a



E12.1.2 yn amodol i gymal 13.3 isod, mae'r Prif Weithredwr a / neu'r Swyddog Monitro a / neu'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau'n ysgrifenedig pam y gallai unrhyw oedi oherwydd y broses galw i mewn wneud niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau'r cyhoedd; a

E12.1.3 mae cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cytuno'n ysgrifenedig y dylid trin y penderfyniad fel mater o frys. Yn absenoldeb cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gall yr is-gadeirydd gytuno y dylid trin y penderfyniad fel mater o frys; a

E12.1.4 rhaid i gofnod y penderfyniad, a'r rhybudd a gyhoeddir, nodi bod y penderfyniad yn un brys a bod natur frys y mater wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr a / neu'r Swyddog Monitro a / neu'r Prif Swyddog Cyllid a gan gadeirydd neu is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

E12.2 Gellir gweithredu penderfyniadau a wneir fel mater o frys yn syth ond rhaid eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghyd â'r rhesymau dros natur frys y mater, a rhaid i'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu gynnwys y cadarnhad ysgrifenedig yn unol â chymal E12.1.2 uchod.

**E13. Chwip y Blaid**

E13.1 O dan Adran 78(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chaiff Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu bleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw os yw'r Aelod, cyn y cyfarfod, wedi cael chwip y blaid yn ymwneud â'r cwestiwn (a elwir yn chwip waharddedig y blaid). E13.2 Rhoddir y diffiniad statudol o chwip y blaid ym mharagraff 14.6.

E13.3 Rhaid diystyru unrhyw bleidlais sy'n groes i'r rheol a nodir ym mharagraff 14.1.

E13.4 Mater i'r person sy'n cadeirio'r cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yw penderfynu a yw Aelod o'r Pwyllgor wedi cael chwip waharddedig y blaid ar gyfer y cyfarfod.

E13.5 Ym mhob cyfarfod o Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, rhaid i bob Aelod ddatgan unrhyw chwip waharddedig y blaid a roddwyd i'r Aelod ar gyfer y cyfarfod a rhaid i gofnodion y cyfarfod gofnodi pob datganiad o'r fath. E13.6 Mae'r diffiniad o chwip y blaid yn Adran 81(10) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel a ganlyn: "mae chwip y blaid yn golygu cyfarwyddyd (sut bynnag y mynegir hynny) sydd:-

(a) yn cael ei roi ar ran plaid wleidyddol mewn Awdurdod Cyfansoddol;
(b) yn cael ei roi i berson (P) sydd:- (i) yn Aelod o'r blaid wleidyddol, a (ii) yn Aelod o Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r CJC;
(c) yn gyfarwyddyd o ran sut y dylai P bleidleisio ar gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y Pwyllgor; a
(d) os nad yw P yn cydymffurfio, mae'n fwy tebygol y bydd y blaid wleidyddol sy'n rhoi'r cyfarwyddyd yn cymryd camau disgyblu yn erbyn P;

mae "plaid wleidyddol" yn golygu grŵp o Aelodau o Awdurdod Cyfansoddol sy'n blaid wleidyddol i bwrpas Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989."



**Atodiad F**

**Is-bwyllgor Safonau – Cylch Gorchwyl**

**Cyfansoddiad**

**F1. Aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau**

F1.1 Mae'r Pwyllgor Safonau'n cynnwys 7 Aelod. Mae ei Aelodaeth yn cynnwys:

Aelodau 'Annibynnol' (Lleyg) o Bwyllgor Safonau pob Cyngor Cyfansoddol.

# ADRAN 5 – IS-BWYLLGORAU

F1.1.1

Nid yw'r personau canlynol yn gymwys i fod yn Aelodau Annibynnol (Lleyg) o'r Pwyllgor Safonau:

(a) Person sy'n Gynghorydd neu'n Swyddog yn y Cynghorau Cyfansoddol neu'n gymar neu'n bartner sifil i Gynghorydd neu Swyddog;
(b) Person sydd wedi bod ond heb fod bellach yn Gynghorydd neu Swyddog yn y Cynghorau Cyfansoddol;
(c) Person sy'n Aelod neu'n swyddog, neu'n gymar neu'n bartner sifil i Aelod neu swyddog, mewn:

Unrhyw Gyngor Sir arall;
Unrhyw Gyngor Bwrdeistref Sirol;
Unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol;
Unrhyw Awdurdod Tân;
Unrhyw Gyngor Cymuned.

(d) Am gyfnod o 12 mis gan ddechrau ar y dyddiad y peidiodd y person hwnnw neu honno â bod yn Aelod neu swyddog o unrhyw un o'r cyrff a restrir isod mwyach, person sydd wedi bod ond nad yw mwyach yn Aelod neu'n swyddog mewn:

Unrhyw Gyngor Sir arall;
Unrhyw Gyngor Bwrdeistref Sirol arall;
Awdurdod Parc Cenedlaethol;
Awdurdod Tân.

F1.1.2 1 Cynghorydd o Bwyllgor Safonau pob Cyngor Cyfansoddol (nid Aelod o Gabinet unrhyw Gyngor Cyfansoddol) a benodwyd gan y Cyngor Cyfansoddol yn eu Cyfarfodydd Blynyddol yn dilyn etholiadau llywodraeth leol arferol y Cyngor Sir, neu mewn cyfarfod arferol os bydd swydd wag yn codi.

F1.1.3 1 Aelod o Bwyllgor Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.



**F2 Cyfnod mewn Swydd**

F2.1 Penodir Aelodau Annibynnol (Lleyg) am gyfnod o ddim llai na phedair a dim mwy na chwe blynedd a gellir eu hail-benodi am gyfnod pellach dilynol o ddim mwy na phedair blynedd.

F2.2 Ni fydd cyfnod swydd Cynghorwyr Cynghorau Cyfansoddol sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn fwy na phum mlynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad, pa un bynnag sydd fyrraf. Gellir eu hail-benodi am un cyfnod pellach dilynol. Bydd Cynghorydd yn peidio â bod yn Aelod o'r Pwyllgor Safonau unwaith y bydd yn peidio â bod yn Gynghorydd ar Gyngor Cyfansoddol.

**F3 Cyfarfodydd**

F3.1 Rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod unwaith y flwyddyn o leiaf.

**F4 Cworwm mewn Pwyllgor Safonau**

F4.1 Bydd gan gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau gworwm dim ond:

F4.1.1 pan fydd o leiaf 3 Aelod, gan gynnwys y Cadeirydd, yn bresennol; a
F4.1.2 os yw o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol (Lleyg).

**F5 Pleidleisio**

F5.1 Bydd gan bob Aelod, gan gynnwys rhai Annibynnol (Lleyg) hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

F5.2 Bydd cwestiwn sydd i'w benderfynu gan y Pwyllgor Safonau'n cael ei benderfynu gan bleidlais fwyafrifol yr Aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod ac sy'n gymwys i bleidleisio.

F5.3 Os bydd y bleidlais yn gyfartal, bydd gan y person sy'n llywyddu mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

**F6. Cadeirio'r Pwyllgor**

F6.1 Dim ond Aelod Annibynnol (Lleyg) o'r Pwyllgor Safonau sy'n gallu bod yn Gadeirydd neu Is-gadeirydd.

F6.2 Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau, bydd Is-gadeirydd y Pwyllgor – os yw'n bresennol – yn llywyddu.

F6.3 Os yw Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau'n absennol o gyfarfod, bydd Aelod annibynnol a ddewisir gan y Pwyllgor Safonau'n llywyddu.

F6.4 Yn amodol i baragraffau F6.1 ac F6.5, bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hethol gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ba gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r canlynol:

(i) dim llai na phedair blynedd a dim mwy na chwech; neu
(ii) nes y daw cyfnod swydd yr Aelod Annibynnol i ben.

F6.5 Gellir ail-ethol Cadeirydd neu Is-gadeirydd yn dilyn eu hail-benodi fel Aelod o'r Pwyllgor, fel bo'r achos.



**F7. Rôl a Swyddogaeth**

F7.1 Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

F7.1.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau;
F7.1.2 cynorthwyo Aelodau i ufuddhau i'r Cod Ymddygiad Aelodau;
F7.1.3 cynghori'r CJC ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;
F7.1.4 monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;
F7.1.5 cynghori ar hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau;
F7.1.6 caniatáu goddefeb i Aelodau rhag gofynion yn ymwneud â buddiannau a nodir yn y Cod Ymddygiad Aelodau;
F7.1.7 delio ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
F7.1.8 cadw trosolwg ar drefn chwythu'r chwiban y CJC;
F7.1.9 rhoi cyngor i Aelodau unigol ar faterion fel ymdrin â budd personol ac ar faterion ymddygiad yn gyffredinol;
F7.1.10 penderfynu ar y camau priodol i'w cymryd ar faterion a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
F7.1.11 cadw trosolwg ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau a Swyddogion.
F7.1.12 cadw trosolwg ar reolau a phrotocolau'r CJC ar atebolrwydd Aelodau.
F7.1.13 cadw trosolwg ar bresenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd perthnasol;
F7.1.14 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor Safonau'n cyflwyno adroddiad blynyddol i'r CJC yn nodi'r canlynol:

(a) sut y mae swyddogaethau'r Pwyllgor wedi cael eu cyflawni;
(b) beth a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a nodir ym Mharagraffau 1.12.1 i 1.12.5 uchod;
(c) adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan yr Ombwdsmon;
(d) camau a gymrodd y Pwyllgor ar ôl ystyried unrhyw adroddiadau ac argymhellion o'r fath;
(e) rhybuddion a roddwyd i'r Pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru.
(f) unrhyw faterion eraill y gallai'r Pwyllgor fod eisiau tynnu sylw'r CJC atynt yn ymwneud â swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

**F8. Rheolau Gweithdrefnol a Rheolau Dadlau**

F8.1 Bydd Rheol 5.6 uchod yn berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau.
F8.2 Wrth ystyried ymddygiad Aelodau unigol, bydd y gweithdrefnau a ddisgrifir yn Adran 9 yn berthnasol.

## Adran 6 - Swyddogion

**Staffio**

6.1 Bydd y CJC yn gwneud y trefniadau staffio angenrheidiol er mwyn gallu cyflawni ei swyddogaethau'n iawn. Mae darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu'n berthnasol i drefniadau staffio'r CJC.

**Dyletswydd i Benodi Prif Swyddog Gweithredol**

6.2 Bydd y CJC yn penodi Prif Swyddog Gweithredol dros ba bynnag gyfnod ag y gwêl yn briodol.

6.3 Rhaid i'r Prif Swyddog Gweithredol:

6.3.1 Adolygu'n gyson o sut y mae'r CJC yn ymarfer ei wahanol swyddogaethau, trefniadau'r CJC a materion staffio, a

6.3.2 Lle bo'n briodol gwneud hynny, adrodd i'r CJC yn cyflwyno cynigion y Prif Weithredwr ar gyfer unrhyw un o'r materion hynny.

6.4 Bydd darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu, yn ymwneud â chyflogi Prif Swyddog Gweithredol yn uniongyrchol, yn berthnasol.

**Dyletswydd i Benodi Prif Swyddog Cyllid a Swyddogaethau Adrodd**

6.5 Bydd y CJC yn penodi Prif Swyddog Cyllid o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 dros ba bynnag gyfnod ag y gwêl yn briodol.

6.6 Bydd gan Brif Swyddog Cyllid y CJC yr un dyletswyddau a rhwymedigaethau'n ymwneud â'r CJC â Phrif Swyddog Cyllid awdurdod lleol dros eu hawdurdod nhw ynghyd â dyletswydd i adrodd yn unol ag Adran 114 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Dynodi ac Adroddiadau gan Swyddog Monitro**

6.7 Rhaid i'r CJC ddynodi Swyddog Monitro o dan adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ar gyfer pa bynnag gyfnod ag y gwêl yn briodol, ond ni fydd yr un unigolyn â Phrif Swyddog Gweithredol neu Brif Swyddog Cyllid y CJC.

6.8 Bydd gan Swyddog Monitro'r CJC yr un dyletswyddau a rhwymedigaethau'n ymwneud â'r CJC â Swyddog Monitro awdurdod lleol dros eu hawdurdod nhw ynghyd â'r swyddogaethau o gefnogi a chynghori cyfarfodydd y CJC a'i Is-bwyllgorau ac Aelodau'n unol â Rheoliad 8 Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

Mae’r dudalen hon wedi’i gadael yn fwriadol wag.

## Adran 7 – Cynllun Dirprwyo

**Cyffredinol**

7.1 Yn amodol i Reol 7.3 isod, gall y CJC drefnu i gyflawni ei swyddogaeth drwy:

- 7.1.1 Is-bwyllgor;
- 7.1.2 Aelod o staff;
- 7.1.3 Unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig arall;
- 7.1.4 Unrhyw gyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

**Dirprwyo**

7.2 Yn amodol bob tro i Reol 7.3 isod, mae'r CJC yn dirprwyo penderfyniadau gweithredol am gyflawni ei swyddogaethau ac unrhyw beth sydd ei angen i hwyluso neu sy'n ategol i neu'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau o dan Reol 7.4.

7.3 Ni all y CJC ddirprwyo unrhyw un o'r isod i unrhyw berson neu Is-bwyllgor arall:

- 7.3.1 Ei swyddogaeth yn ymwneud â datblygu polisïau o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Trafnidiaeth 2000 ("Swyddogaeth Polisi Trafnidiaeth");
- 7.3.2 Ei swyddogaeth yn ymwneud â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol o dan ddarpariaethau perthnasol Deddf Gynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (y "Swyddogaeth Cynllun Datblygu Strategol");
- 7.3.3 Y penderfyniad i gytuno ar gyllidebau'r CJC a chyfraniadau'r Cynghorau Cyfansoddol a'r Parc Cenedlaethol;
- 7.3.4 Y penderfyniad i sefydlu Is-bwyllgorau'r CJC; a
- 7.3.5 Penderfyniadau a chyfrifoldebau penodol eraill a nodir yn y Rheoliadau Sefydlu.

7.4 Rhaid i bob penderfyniad gael ei wneud gan y CJC ac eithrio:

| Penderfyniad: | Dirprwyo i: |
|---|---|
| Penderfyniadau a fyddai'n achosi gwariant hyd at uchafswm cyfunol o £50,000 os yw hyn:<br><br>a) O fewn cyllideb gymeradwy'r CJC am y flwyddyn ariannol honno; a<br><br>b) Yn unol â Rheolau'r CJC. | Prif Swyddog Gweithredol y CJC<br><br>Gall Prif Swyddog Gweithredol y CJC hefyd ddirprwyo'r penderfyniad hwn i un o swyddogion eraill y CJC neu un o swyddogion y Cynghorau Cyfansoddol |
| Penderfyniadau'n ymwneud â rheoli, dyrannu, cyfeiriad a goruchwylio adnoddau staff sydd ar gael i'r CJC os yw hyn:<br><br>a) Yn unol â'r trefniadau staffio a roddwyd yn eu lle gyda chyflogwyr unrhyw staff sydd ar gael i'r CJC; a | Prif Swyddog Gweithredol y CJC<br><br>Gall Prif Swyddog Gweithredol y CJC hefyd ddirprwyo'r penderfyniad hwn i un o swyddogion eraill y CJC neu un o swyddogion y Cynghorau Cyfansoddol |

# Adran 7 – Cynllun Dirprwyo

| | |
|---|---|
| b) Yn unol â Rheolau'r CJC | |
| Penodi (a thelerau penodi) unrhyw berson unigol fel ymgynghorydd lle nad yw gwerth y penodiad yn fwy na £50,000 mewn unrhyw gyfnod cyfrifyddu | Prif Swyddog Gweithredol y CJC<br><br>Gall Prif Swyddog Gweithredol y CJC hefyd ddirprwyo'r penderfyniad hwn i un o swyddogion eraill y CJC neu un o swyddogion y Cynghorau Cyfansoddol |

**COFNODION**

8.1 Bydd y CJC yn gwneud trefniadau i ofalu am, gwarchod a rheoli cofnodion y CJC yn briodol.

8.2 Mae darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu'n ymwneud â pharatoi, cadw, cyhoeddi a hwyluso mynediad at ddogfennau a chofnodion gan y CJC.

**Cwmpas**

8.3 Mae'r Rheolau hyn yn berthnasol i holl gyfarfodydd CJC a'i Is-bwyllgorau.

8.4 Y Swyddog Monitro fydd y swyddog priodol i bwrpas yr holl ddarpariaethau statudol a rheoleiddio'n ymwneud ag adnabod, rhestru a sicrhau bod papurau cefndir unrhyw adroddiad ar gael, os yw adroddiad o'r fath o fewn cwmpas y Rheolau hyn.

8.5 Bydd y Swyddog Monitro'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 o ran y data a'r wybodaeth sydd o fewn cwmpas y Deddfau hynny ac sy'n ymddangos mewn agendâu, adroddiadau a chofnodion y mae'r Rheolau hyn yn berthnasol iddynt.

**Hawliau Ychwanegol i Wybodaeth**

8.6 Nid yw'r Rheolau hyn yn effeithio ar unrhyw hawliau penodol pellach i wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn rhannau eraill o'r Cyfansoddiad hwn neu'r gyfraith.

**Hawliau i Fynychu Cyfarfodydd**

8.7 Gall aelodau'r cyhoedd a'r wasg fynychu pob cyfarfod, dim ond yn amodol i'r eithriadau o dan Reol 8.17. Ar wahân i gyfarfodydd neu rannau o gyfarfodydd a gynhelir mewn sesiwn gyfrinachol o dan Reol 8.17, caniateir ffilmio, recordio sain a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd cyn belled nad yw hynny'n aflonyddu ar gynnal y cyfarfod a chyn belled nad yw plant a / neu oedolion bregus yn cymryd rhan yn y trafodaethau drwy gyflwyniad. Mae'r hawl i fynychu cyfarfodydd yn amodol i hawl y CJC i eithrio pobl os ydynt yn ymddwyn yn afreolus neu'n camymddwyn yn y cyfarfod.

**Rhybuddion Cyfarfodydd**

8.8 Oni bai fod cyfarfod yn cael ei alw ar fyr rybudd yn unol â Rheol 8.9, rhaid i'r CJC roi o leiaf 3 diwrnod clir o rybudd o gyfarfod ar ei wefan.

8.9 Os yw'r Swyddog Monitro'n ystyried bod mater yn un mor annisgwyl a brys fel bod yn rhaid gwneud penderfyniad ac nad yw'n bosib rhoi tri diwrnod clir o rybudd o ddyddiad y cyfarfod fydd yn gwneud y penderfyniad, yna gyda chytundeb Cadeirydd y cyfarfod, gall y Swyddog Monitro alw cyfarfod ar fyr rybudd, yn amodol i sicrhau bod yr agenda a'r adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar yr un diwrnod ag y maen nhw ar gael i'r Aelodau.

**Cael Gweld Agenda ac Adroddiadau Cyn y Cyfarfod**

8.10 Bydd y CJC yn sicrhau bod copïau o'r agenda a'r adroddiadau ar gael i'r cyhoedd gael eu harchwilio ar ei wefan o leiaf 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod.

Os ychwanegir eitem i'r agenda nes ymlaen, neu os paratoir adroddiadau ar ôl anfon y wŷs, bydd y Swyddog Monitro'n sicrhau bod pob agenda neu adroddiad diwygiedig ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'r agenda neu adroddiad wedi eu cwblhau a'u hanfon i'r Aelodau.

**Cyflenwi Copïau**

8.11 Bydd y CJC yn cyhoeddi ar ei wefan:

8.11.1 unrhyw agenda;

8.11.2 unrhyw adroddiad cysylltiedig ag agenda sydd ddim yn eithriedig o dan Reol 8.27 isod

8.11.3 os gwêl y Swyddog Monitro'n briodol, copïau o unrhyw ddogfennau eraill a gyflenwir i'r Aelodau mewn cysylltiad â phenderfyniad

8.11.4 os nad yw aelod o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad i ddogfennau a gyhoeddwyd ar y wefan, bydd y dogfennau hyn ar gael i'w harchwilio neu drwy anfon atynt gopïau drwy dalu tâl am bostio ac unrhyw gostau argraffu a thrin arall.

**Cael Gweld Cofnodion ayyb ar ôl y Cyfarfod**

8.12 Bydd y CJC yn sicrhau bod copïau electronig neu gopïau caled o'r canlynol ar gael am gyfnod o chwe blynedd o leiaf ar ôl dyddiad y cyfarfod:

8.12.1 cofnodion y cyfarfod neu gofnod o benderfyniadau a wnaed gan y CJC a'i Is-bwyllgorau, ac eithrio unrhyw ran o gofnodion trafodion y cyfarfod nad oedd yn agored i'r cyhoedd oherwydd bod gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn cael ei hystyried;

8.12.2 crynodeb o unrhyw drafodion heb yn agored i'r cyhoedd, lle na fyddai'r cofnodion oedd ar gael i'w harchwilio'n darparu cofnod rhesymol deg a chydlynus;

8.12.3 agenda'r cyfarfod; a

8.12.4 adroddiadau ar eitemau pan oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

**Papurau Cefndir**

**Rhestr o'r Papurau Cefndir**

8.13 Bydd y swyddog sy'n paratoi'r adroddiad yn cynnwys rhestr ym mhob adroddiad o'r dogfennau hynny (y papurau cefndir) yn ymwneud â phwnc trafod yr adroddiad sydd yn ei barn hi / farn o:

8.13.1 yn datgelu unrhyw ffeithiau neu faterion y mae'r adroddiad neu ran bwysig o'r adroddiad yn seiliedig arnynt; a

8.13.2 y dibynnwyd arnynt i raddau helaeth wrth baratoi'r adroddiad

ond heb gynnwys gwaith wedi'i gyhoeddi neu sy'n datgelu gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol yn ôl y diffiniad yn Rheol 8.17 i 8.19.

**Cadw Papurau Cefndir**

8.14 Bydd unrhyw bapurau cefndir a gyhoeddir ar y wefan yn parhau i fod ar gael yn electronig i aelodau'r cyhoedd am gyfnod o chwe blynedd.

8.15 Os nad yw'n rhesymol ymarferol cyhoeddi papur cefndir ar y wefan, bydd y papurau hynny'n cêl eu cadw ac ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am gyfnod o chwe blynedd gan ddechrau gyda'r dyddiad pryd y gwnaed y penderfyniad y mae'r papurau cefndir yn ymwneud â fo.

**Cau Allan y Cyhoedd o Gyfarfodydd**

**Gwybodaeth Gyfrinachol – Gofyniad i Gau Allan y Cyhoedd**

8.16 Rhaid cau allan y cyhoedd o'r rhannau hynny o gyfarfodydd lle bo'n debygol, o ystyried natur y busnes sydd i'w drafodi, neu natur y trafodion, y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

**Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Gau Allan y Cyhoedd**

8.17 Rhaid cau allan y cyhoedd o'r rhannau hynny o gyfarfodydd lle bo'n debygol, o ystyried natur y busnes sydd i'w drafodi, neu natur y trafodion, y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

8.18 Os yw cyfarfod yn penderfynu ar hawliau neu rwymedigaethau sifil rhywun, neu'n effeithio'n niweidiol ar eu heiddo, mae erthygl 6 Deddf Hawliau Dynol 1998 yn sefydlu rhagdybiaeth y cynhelir y cyfarfod yn gyhoeddus, oni bai fod angen gwrandawiad preifat am un o'r rhesymau a nodir yn erthygl 6. Rhoddir sylw dyledus i ddymuniadau'r unigolyn os dewisir cynnal y gwrandawiad yn breifat os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.

**Ystyr Gwybodaeth Gyfrinachol**

8.19 Gwybodaeth gyfrinachol yw gwybodaeth wedi'i rhoi i'r CJC gan un o Adrannau'r Llywodraeth (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus, neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus drwy Orchymyn Llys.

**Ystyr Gwybodaeth Eithriedig**

8.20 Gwybodaeth eithriedig yw gwybodaeth sy'n dod o dan yr wyth categori canlynol (yn amodol i unrhyw amod):

| Categori Rhif | Categori Gwybodaeth Eithriedig | Amod |
|---|---|---|

## Adran 8 – Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Gwybodaeth am unrhyw unigolyn.[7] | Prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (wele isod). |

| Categori Rhif | Categori Gwybodaeth Eithriedig | Amod |
|---|---|---|
| 2. | Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.[8] | Prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (wele isod). |
| 3. | Gwybodaeth am faterion ariannol neu fusnes person (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth).[9] | Nid yw gwybodaeth sy'n dod o dan baragraff 14 wedi'i heithrio yn rhinwedd y paragraff hwnnw os oes angen ei chofrestru o dan:<br>Deddf Cwmnïau 1985;<br>Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974;<br>Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1992;<br>Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 - 1978;<br>Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986; neu<br>Deddf Elusennau 1993.<br><br>Prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (wele isod). |
| 4. | Gwybodaeth am unrhyw drafodaethau ymgynghori neu negodi, neu drafodaethau ymgynghori neu negodi sy'n cael eu hystyried, yng nghyswllt unrhyw fater cysylltiadau llafur yn codi rhwng yr awdurdod neu Weinidog o'r Goron a staff, neu ddalwyr swydd o dan, yr awdurdod.[10] | Prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (wele isod). |

[7] Paragraff 12 o Atodlen 12A – Deddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd)



[8] Paragraff 13 o Atodlen 12A – Deddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd)
[9] Paragraffau 14 ac 19 o Atodlen 12A – Deddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd)
[10] Paragraff 15 o Atodlen 12A – Deddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd)

| | | |
|---|---|---|
| 5. | Gwybodaeth y gellid hawlio braint broffesiynol gyfreithiol yn ei chylch mewn achos cyfreithiol.[11] | |
| 6. | Gwybodaeth sy'n datgelu bod yr awdurdod yn cynnig:[6] rhoi o dan unrhyw ddeddfiad rybudd o dan neu yn rhinwedd yr hwn y byddai gofynion yn cael eu cyflwyno i berson; neu | Prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (wele isod). |

| Categori Rhif | Categori Gwybodaeth Eithriedig | Amod |
|---|---|---|
| | Gwneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad. | |
| 7. | Gwybodaeth am unrhyw weithredu sydd wedi neu y bwriedir ei gyflawni yng nghyswllt atal, ymchwilio i neu erlyn trosedd.[7] | Prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (wele isod). |
| 8. | Yng nghyswllt cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau neu Is-bwyllgor y Pwyllgor Safonau, sy'n cael ei alw i ystyried mater y cyfeiriwyd ato dan ddarpariaethau adran 70(4) neu (5) neu 71(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:<br>Gwybodaeth sy'n destun unrhyw rwymedigaethau cyfrinachedd.<br>Gwybodaeth yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â materion o ddiogelwch cenedlaethol.<br>Trafodaethau Pwyllgor Safonau neu Is-bwyllgor | Prawf budd y cyhoedd yn berthnasol (wele isod). |

[11] Paragraff 16 o Atodlen 12A – Deddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd)

[6] Paragraff 17 o Atodlen 12A – Deddf Llywodraeth Leol 1972 (diwygiwyd)

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Safonau a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000 wrth gyrraedd unrhyw ganfyddiad ar fater y cyfeiriwyd ato.[8] | |

**Prawf Budd y Cyhoedd**

8.21 Mae gwybodaeth sydd:

8.21.1 yn dod o fewn unrhyw gategorïau rhifau 1-4, 6, 7 ac 8 y tabl yn Rheol 8.20 uchod; a

8.21.2 sydd ddim yn cael ei hatal rhag cael ei heithrio oherwydd yr "amodau" yn y tabl yn Rheol 8.20 uchod,

[7] Paragraff 18 Atodlen 12A – Deddf Llywodraeth Leol 1972 (wedi'i diwygio)

[8] Deddf Llywodraeth Leol 1972 wedi'i diwygio gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) a Phwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2007



yn Wybodaeth Eithriedig os a chyn belled, yn unol â holl amgylchiadau'r achos, â bod budd y cyhoedd dros gadw'r eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd dros ddatgelu'r wybodaeth.

**Asesu Budd y Cyhoedd**

8.22 Y man cychwyn yw bod budd cyffredinol i'r cyhoedd mewn rhyddhau a rhaid i'r awdurdod cyhoeddus benderfynu mewn unrhyw achos neilltuol a fyddai datgelu neu ddal y wybodaeth yn ôl o fudd gwell i'r cyhoedd neu beidio.

8.23 Mae gwahaniaeth rhwng budd y cyhoedd a'r hyn sydd ond o ddiddordeb i'r cyhoedd.

8.24 Nid oes diffiniad cyfreithiol o beth yw budd y cyhoedd ond mae'r canlynol wedi'i adnabod fel rhai o'r ystyriaethau perthnasol:

8.24.1 gwella dealltwriaeth o, a chyfranogi mewn trafod, materion y dydd;

8.24.2 hwyluso tryloywder ac atebolrwydd a gwella'r broses o graffu penderfyniadau a wneir gan y CJC;

8.24.3 hwyluso tryloywder ac atebolrwydd wrth wario arian cyhoeddus;

8.24.4 helpu unigolion i ddeall penderfyniadau'r CJC sy'n effeithio ar eu bywydau;

8.24.5 datgelu gwybodaeth sy'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd neu'n peryglu'r amgylchedd;
8.24.6 cyfrannu at weinyddu cyfiawnder a gorfodi'r gyfraith, neu atal neu ganfod trosedd, neu ddal neu erlyn troseddwyr;
8.24.7 gwarchod y cyhoedd rhag nwyddau anniogel neu fasnachwyr neu arferion diegwyddor.

8.25 Wrth wneud asesiad o'r fath, dylid ystyried y ffactorau canlynol i fod yn amherthnasol:

8.25.1 achosi embaras posib i'r CJC neu ei swyddogion neu swyddogion Cyngor Cyfansoddol;
8.25.2 colli hyder posib yn y CJC neu gorff cyhoeddus arall; 8.25.3 swydd uchel unrhyw un sy'n ymwneud â'r pwnc dan sylw;
8.25.4 y risg y gallai'r cyhoedd gamddehongli'r wybodaeth.

8.26 Gellir ystyried a fyddai datgelu'n mynd yn groes i unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd, neu hawliau unigolyn o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 neu Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**Atal y Cyhoedd Rhag Cael Gweld Adroddiadau**

8.27 Os gwêl y Swyddog Monitro'n addas, gall y CJC atal y cyhoedd rhag gweld adroddiadau sydd, yn ei farn ef / hi, yn ymwneud ag eitemau pryd na fyddai, o dan Reol 8.20, y cyfarfod yn debygol o fod yn agored i'r cyhoedd. Bydd yr adroddiadau hyn wedi eu marcio "Nid i'w Cyhoeddi" ynghyd â chategori'r wybodaeth sy'n debygol o gael ei datgelu a, lle bo'n berthnasol, pam y credir er budd y cyhoedd na ddylid datgelu'r wybodaeth.



Ar ôl y cyfarfod bydd cael gweld yr adroddiad yn amodol i Reol 8.20.

**Y Blaenraglenni Gwaith**

**Cyfnod y Blaenraglenni Gwaith**

8.28 Bydd y Blaenraglenni Gwaith yn cael eu paratoi gan y Swyddog Monitro ar gyfer cyfnod o 4 mis.

**Cynnwys y Blaenraglenni Gwaith**

8.29 Bydd y Blaenraglenni Gwaith yn cynnwys materion y mae'r CJC a'i Is-bwyllgorau'n debygol o'u hystyried. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am:
8.29.1 yr amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau'n rhan o swyddogaethau'r CJC;

8.29.2 yr amserlen ar gyfer ystyried unrhyw gynlluniau sy'n gyfrifoldeb gan y CJC;

8.29.3 unrhyw faterion unigol y mae'r CJC yn debygol o ymgynghori arnynt cyn gwneud penderfyniad, a'r amserlen ar gyfer ymgynghori a phenderfynu;

8.29.4 rhaglenni gwaith yr Is-bwyllgorau.

8.30 Bydd y Blaenraglenni Gwaith yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r cyfnod dan sylw.

**Ymgynghori ar Gynigion i'w Hystyried gan y Cabinet**

8.31 Bydd pob eitem ym Mlaenraglen Waith y CJC yn cynnwys manylion am yr ymgynghori (os bwriedir gwneud) fydd yn digwydd cyn gwneud penderfyniad.

**Cofnod o Benderfyniadau**

**Y Cofnod o Benderfyniad**

8.32 Bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei wneud o bob penderfyniad gan y CJC a'i Is-bwyllgorau.

8.33 Bydd y cofnod penderfyniad yn cynnwys datganiad, ar gyfer pob penderfyniad, ar:

8.33.1 Y penderfyniad a wnaed;

8.33.2 Dyddiad gwneud y penderfyniad;

8.33.3 Rhesymau dros y penderfyniad;

8.33.4 Unrhyw fudd personol wedi'i ddatgan;

8.33.5 Unrhyw oddefeb i siarad wedi'i ganiatáu gan yr Is-bwyllgor Safonau;

8.33.6 Unrhyw ymgynghori a wnaed cyn y penderfyniad;

8.33.7 Cofnod o enw neu enwau aelodau'r corff penderfynu a fynychodd y cyfarfod ac unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**Paratoi'r Cofnod o Benderfyniad**



8.34 Bydd y Swyddog Monitro a'i gynrychiolydd ef / hi'n mynychu unrhyw gyfarfod o'r CJC neu ei Is-bwyllgorau, a chyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod, yn cynhyrchu cofnod penderfyniad.

8.35 Os yw'r brys i weithredu'r penderfyniad yn gwneud cydymffurfio ag Adran 5, Atodiad E, Paragraff E11 yn anymarferol, gellir gweithredu'r penderfyniad ar yr amod y cydymffurfiwyd â darpariaethau Adran 5, Atodiad E, Paragraff E12 (eithriad Galw i Mewn ar gyfer mater brys).

**Mynediad Aelodau at Ddogfennau**

## Adran 8 – Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth

**Hawl i Gael Gweld**

8.36 Yn amodol i Reolau 8.37 – 8.38 isod, bydd gan Aelodau hawl i gael gweld unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu dan reolaeth y CJC neu ei Is-bwyllgorau ac sy'n cynnwys deunydd yn ymwneud ag:

8.36.1 unrhyw fusnes wedi'i drafod mewn cyfarfod o'r CJC neu ei Is-bwyllgorau; neu

**Cyfyngiadau ar Hawliau**

8.37 Ni fydd gan Aelodau hawl i weld unrhyw ran o ddogfen sy'n cynnwys cyngor gan gynghorwr gwleidyddol neu gynorthwyydd gwleidyddol oni bai fod y wybodaeth yn berthnasol i gam gweithredu neu benderfyniad sy'n cael ei adolygu neu graffu neu i unrhyw adolygiad mewn rhaglen waith gan yr Is-bwyllgor Craffu

8.38 Ni fydd gan Aelod hawl i weld unrhyw ddogfen os byddai hynny'n mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol fel Deddf Diogelu Data 1998, hawliau unrhyw berson o ran cyfrinachedd, neu fuddiannau masnachol, unrhyw un o ddarpariaethau'r Cyfansoddiad hwn neu unrhyw bolisi, rheol neu weithdrefn Cyngor neu Lywodraeth.

**Natur yr Hawliau**

8.39 Mae hawliau Aelodau o dan Reol 8.36 yn ychwanegol i unrhyw hawl arall a allai fod ganddynt, gan gynnwys:

8.39.1 hawl cyfraith gyffredin i archwilio dogfennau lle bo angen gwneud hyn i Aelod gyflawni ei d(d)yletswyddau. Dylai unrhyw Aelod yn honni 'angen gwybod' yn ymwneud â dogfennau na fyddai ar gael fel arall o dan y Rheolau hyn ofyn amdanynt i'r Swyddog Monitro'n unig ac nid i swyddogion unigol a dylai hyn ystyried pa mor rhesymol yw cais unigol ac unrhyw geisiadau cronnus a'r effaith ar amser y Swyddog.

8.39.2 hawliau statudol sydd gan unrhyw berson o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2005.

8.39.3 hawl Aelodau, o dan Adran 228 Deddf Llywodraeth Leol 1972, i archwilio cyfrifon y CJC ac unrhyw un o swyddogion priodol y CJC.



8.40 Wrth ymarfer hawliau i gael gweld gwybodaeth, rhaid i Aelodau ystyried unrhyw ganllawiau a gawsant gan y Swyddog Monitro.

**Gwybodaeth a Roddir yn Gyfrinachol**

## Adran 8 – Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth

**Datgelu**

8.41 Bydd Gwybodaeth Eithriedig neu Gyfrinachol a roddwyd i Aelod yn unol â Rheol 14.37 yn aros yn eithriedig neu gyfrinachol.

8.42 O dan Ran 2, paragraff 5 y Cod Ymddygiad Aelodau, nid yw Aelodau'n cael datgelu gwybodaeth a gawsant yn gyfrinachol heb ganiatâd penodol person wedi'i awdurdodi i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod hynny'n ofynnol o dan y gyfraith.

8.43 Ni fydd Aelodau'n gwneud Gwybodaeth Gyfrinachol neu Eithriedig yn gyhoeddus heb ganiatâd yr Awdurdod na'n datgelu gwybodaeth a gawsant yn gyfrinachol i neb heblaw Aelod neu swyddog sydd â hawl i gael gwybod oni bai yr awdurdodir hynny'n gyfreithiol.

Mae’r dudalen hon wedi’i gadael yn fwriadol wag.

# Adran 9 – Cod Ymddygiad

**COD YMDDYGIAD**

9.1 Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001, sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer llywodraethu ymddygiad Aelodau Awdurdodau Cyfansoddol yng Nghymru, yn berthnasol i holl Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig y CJC.

9.2 Mae Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) (Cymru) 2011 yn berthnasol i swyddog cyd-bwyllgor corfforedig yr un fath ag i weithiwr Awdurdod Cyfansoddol.

9.3 Mae Atodiad A (isod) yn nodi testun y Cod Ymddygiad Enghreifftiol a ragnodir gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008, fel y diwygiwyd hwnnw.

**Ymddygiad Aelodau – Yr Egwyddorion[12]**

**ANHUNANOLDEB**

9.4 Rhaid i Aelodau ymddwyn er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent byth ddefnyddio eu swydd fel Aelodau i ennill mantais amhriodol iddynt eu hunain nac i ennill mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

**GONESTRWYDD**

9.5 Rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n gwarchod budd y cyhoedd.

**DIDWYLLEDD A PHRIODOLDEB**

9.6 Ni ddylai Aelodau roi eu hunain mewn sefyllfa os gallai eu didwylledd gael ei gwestiynu gan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i Aelodau osgoi bob amser unrhyw ymddygiad a allai awgrymu hynny.

**DYLETSWYDD I UFUDDHAU I'R GYFRAITH**

9.7 Rhaid i Aelodau ymddwyn drwy ufuddhau i'r gyfraith a phob amser yn unol â'r ffydd y mae'r cyhoedd wedi'i roi ynddynt.

**STIWARDIAETH**

9.8 Wrth gyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau, rhaid i Aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon a doeth.

**PENDERFYNIADAU GWRTHRYCHOL**

9.9 Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud apwyntiadau, dyfarnu contractau neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a manteision, rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau ar sail haeddiant. Er bod yn rhaid i Aelodau ystyried cyngor proffesiynol swyddogion ac ystyried barn eraill, gan gynnwys eu

[12] Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 – Offeryn Statudol 2276

grwpiau gwleidyddol, yn gwbl briodol, mae ganddynt gyfrifoldeb i benderfynu pa farn i'w llunio a, lle bo'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

**CYDRADDOLDEB A PHARCH**

9.10 Rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan dalu sylw dyledus i fod angen hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pawb, beth bynnag yw eu rhywedd, hil, anabledd, tueddiad rhywiol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth o eraill.

---

**BOD YN AGORED**

9.11 Rhaid i Aelodau fod mor agored â phosib ynghylch eu holl weithredoedd a rhai eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgelu gwybodaeth wedi'i gyfyngu i fod ond yn unol â'r gyfraith.

**ATEBOLRWYDD**

9.12 Mae Aelodau'n atebol i'w hetholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd a'r ffordd y maen nhw'n cyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i gyflwyno eu hunain ar gyfer unrhyw graffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau.

**ARWEINYDDIAETH**

9.13 Rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arwain a thrwy esiampl er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu bod swyddogion statudol yr awdurdod, a'i staff eraill, yn ddiduedd a didwyll.

**Protocol – Safon Ymddygiad sy'n Ddisgwyliedig gan Aelodau**

9.14 Mae'r protocol hwn yn nodi'r safonau ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan Aelodau'r CJC wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Cod Ymddygiad Aelodau. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hyn ond heb dynnu i ffwrdd ohonynt.

Disgwylir i Aelodau:

**YMDDYGIAD CYHOEDDUS**

9.15.1 dangos parch at ei gilydd;
9.15.2 peidio â gwneud sylwadau camdriniol personol amdan ei gilydd;
9.15.3 peidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus amdan ei gilydd;
9.15.4 peidio â gwneud honiadau maleisus yn erbyn ei gilydd;
9.15.5 peidio â chyhoeddi na lledu gwybodaeth ffug amdan ei gilydd;
9.15.6 dangos parch at amrywiaeth a chydraddoldeb;

**YMDDYGIAD MEWN CYFARFODYDD**

9.16.1 ymddwyn gydag urddas;
9.16.2 dangos parch at y Cadeirydd ac ufuddhau i benderfyniadau'r Cadeirydd;
9.16.3 peidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol na sylwadau a allai ragfarnu unrhyw ran o gymdeithas;

**CYFRINACHEDD**

9.17.1 cadw papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill yn gyfrinachol
9.17.2 peidio â rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd;
9.17.3 peidio â defnyddio gwybodaeth gyfrinachol heblaw i'r pwrpas bwriedig;



**Gweithdrefn ar gyfer Delio â Honiadau yn erbyn Aelodau ac a gyfeiriwyd at yr Is-bwyllgor Safonau**

9.18 Mae'r weithdrefn ar gyfer delio â honiadau yn erbyn Aelodau wedi'i chyflwyno yn Atodiad B.

**Rhoddion a Lletygarwch i Aelodau**

9.19 Rhoddir y Protocol ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch yn Atodiad C isod.

**ATODIAD A**

**Deddf Llywodraeth Leol 2000**
**Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig gyda hawliau pleidleisio**

Mabwysiadwyd gan y CJC mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2022.

## Y COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL

## RHAN 1
## DEHONGLIAD

**A1.**
(1) Yn y cod hwn

mae “aelod cyfetholedig” yn golygu person wedi’i benodi’n Aelod Cyfetholedig gan y CJC

mae “cyfarfod” yn golygu unrhyw gyfarfod -

(a) o’r CJC,
(b) o unrhyw Is-bwyllgor o’r CJC, neu
(c) lle y mae Aelodau neu swyddogion y CJC yn bresennol,

ac yn cynnwys amgylchiadau lle y mae Aelod neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun wrth ymarfer un o swyddogaethau’r CJC;

mae “aelod” yn cynnwys, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall, aelod cyfetholedig;

mae “cymdeithas gofrestredig” yn golygu cymdeithas, heblaw cymdeithas wedi’i chofrestru fel undeb gredyd, sydd -

(a) yn gymdeithas gofrestredig yn yr ystyr a roddir gan adran 1(1) Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Buddiannau Cymunedol 2014; neu
(b) yn gymdeithas gofrestredig neu a ystyrir i fod yn gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969;

mae “cofrestr buddiannau’r aelodau” yn golygu’r gofrestr a sefydlwyd ac sy’n cael ei chynnal o dan adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000;

mae “awdurdod perthnasol” yn golygu -

(a) cyngor sir,
(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,
(d) awdurdod tân ac achub wedi'i gyfansoddi gan gynllun o dan adran 2 Deddf Gwasanaethau Tan ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 y Ddeddf honno'n berthnasol iddo,



(e) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995;
(f) cyd-bwyllgor corfforedig arall

mae “chi” yn golygu chi fel Aelod neu Aelod cyfetholedig o'r CJC; ac

mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (“y CJC”) (“eich awdurdod”) yn golygu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yr ydych yn Aelod neu'n Aelod cyfetholedig ohono.

**RHAN 2**
**DARPARIAETHAU CYFFREDINOL**

**A2.** (1) Heblaw lle y mae paragraff 3(a) yn berthnasol, rhaid i chi gadw at y Cod Ymddygiad hwn

(a) pryd bynnag y byddwch yn cyflawni busnes, neu'n bresennol yn un o gyfarfodydd, y CJC;
(b) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff o weithredu yn rôl yr Aelod y cawsoch eich ethol neu benodi iddi;
(c) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff o weithredu fel cynrychiolydd y CJC; neu
(d) bob amser ac mewn unrhyw gapasiti'n ymwneud ag ymddygiad a ddisgrifir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ochr yn ochr â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yng nghyswllt Cymru.

**A3**. Os cawsoch eich ethol, penodi neu enwebu gan y CJC i wasanaethu -

(a) ar gorff arall, rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod neu gorff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad y corff arall hwnnw; neu
(b) ar unrhyw gorff arall sydd heb gôd ymddygiad ar gyfer ei aelodau, rhaid i chi, wrth weithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad hwn ar wahân a chyn belled nad yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill y gallai'r corff arall orfod cwrdd â nhw.

**A4.** Rhaid i chi

(a) cyflawni eich dyletswyddau a chyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai fod gan bawb gyfle cyfartal, beth bynnag yw eu rhywedd, hil, anabledd, tueddiad rhywiol, oed neu grefydd;
(b) dangos parch at, a bod yn ystyriol o eraill;
(c) peidio ag ymddwyn i fwlio na harasio neb; a

(d) peidio â gwneud unrhyw beth sy'n amharu neu sy'n debygol o amharu ar reidrwydd y rhai sy'n gweithio i neu ar ran y CJC i fod yn ddiduedd. .

**A5.** Ni ddylech

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth a ddylai gael ei hystyried yn rhesymol i fod yn gyfrinachol, heb ganiatâd penodol



gan berson wedi'i awdurdodi i roi caniatâd o'r fath, oni bai fod hynny'n ofynnol o dan y gyfraith;

(b) atal unrhyw un rhag cael gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw neu honno hawl i'w chael yn gyfreithiol.

**A6.** (1) Rhaid i chi

(a) peidio ag ymddwyn mewn ffordd a allai'n rhesymol gael ei ystyried i fod yn dwyn anfri ar eich swydd neu ar y CJC;

(b) adrodd, p'un ai drwy ddilyn trefn adrodd gyfrinachol y CJC neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, unrhyw ymddygiad gan Aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio i neu ar ran y CJC, os credwch yn rhesymol ei fod neu'n debygol o fod yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol (sydd i bwrpas y paragraff hwn ddim yn cynnwys troseddau neu ymddygiad a allai gael ei gosbi gan gosb benodedig);

(c) adrodd i swyddog monitro'r CJC unrhyw ymddygiad gan Aelod arall y credwch yn rhesymol sy'n torri'r Cod Ymddygiad hwn;

(d) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn Aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i, neu ar ran y CJC .

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro'r CJC, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yng nghyswllt ymchwiliad a wnaed yn unol â'u pwerau statudol.

**A7.** Ni ddylech

(a) yn eich capasiti swyddogol na fel arall, ddefnyddio na cheisio defnyddio eich swydd yn amhriodol i ennill neu sicrhau mantais ichi eich hun neu i unrhyw berson arall, na chreu neu osgoi anfantais ichi eich hun neu unrhyw berson arall;

(b) defnyddio nac awdurdodi eraill i ddefnyddio adnoddau'r CJC -

(i) yn annoeth;
(ii) yn groes i ofynion y CJC;
(iii) yn anghyfreithlon;
(iv) heblaw mewn ffordd a ellid ystyried sy'n hwyluso neu'n gydnaws â chyflawni swyddogaethau'r CJC neu'r swydd y cawsoch eich ethol neu benodi iddi;
(v) yn amhriodol at bwrpasau gwleidyddol;

na

(vi) yn amhriodol at bwrpasau preifat.

**A8**. Rhaid i chi

(a) wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu gyrraedd penderfyniadau'n ymwneud â busnes y CJC, gwneud hynny ar sail haeddiannau'r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd ar ôl ystyried unrhyw gyngor perthnasol a roddwyd gan swyddogion y CJC, yn enwedig gan -

(i) Prif Weithredwr y CJC;



(ii) Swyddog Adran 151 y CJC;
(iii) Swyddog Monitro'r CJC;

(b) rhoi rhesymau am bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion ychwanegol rhesymol sy'n ofynnol gan y CJC. .

**A9.** Rhaid i chi

(a) cadw at y gyfraith a rheolau'r CJC ar hawlio costau, treuliau a lwfansau yng nghyswllt cyflawni eich dyletswyddau fel Aelod;
(b) osgoi derbyn unrhyw roddion, lletygarwch (heblaw lletygarwch swyddogol fel cinio dinesig neu ginio gwaith wedi'i awdurdodi gan y CJC), manteision mewn nwyddau neu wasanaethau i chi neu unrhyw berson arall a allai olygu bod gennych, neu'n ymddangos yn rhesymol bod gennych, rwymedigaeth amhriodol.

## RHAN 3
## BUDDIANNAU

### Buddiannau Personol

**A10.**
(1) Rhaid i chi ym mhob mater ystyried a oes gennych fudd personol ac a oes raid i chi ddatgelu'r budd hwnnw o dan y Cod Ymddygiad hwn.
(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fudd personol mewn unrhyw fusnes o'r CJC os

(a) yw'n ymwneud neu'n debygol o effeithio ar

(i) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gyflawnir gennych;
(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw gwmni lle'r ydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n derbyn tâl;
(iii) unrhyw berson, heblaw'r CJC, sydd wedi gwneud taliad i chi yng nghyswllt eich ethol neu unrhyw gostau neu dreuliau a achoswyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Aelod;
(iv) unrhyw gorff corfforedig sydd â lleoliad busnes neu dir yn ardal y CJC a lle y mae gennych fudd manteisiol mewn dosbarth o warannau gan y corff hwnnw sy'n fwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu ganfed rhan o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau'r corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y CJC a chi neu gwmni lle'r ydych yn bartner mewn cwmni lle'r ydych yn gyfarwyddwr sy'n derbyn tâl, neu gorff o'r disgrifiad a roddir yn is-baragraff (iv) uchod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fudd manteisiol ynddo ac sydd yn ardal y CJC;

(vii) unrhyw dir lle y mae'r CJC yn landlord a'r tenant yn gwmni yr ydych yn bartner ynddo neu'n gyfarwyddwr sy'n derbyn tâl, neu gorff o'r disgrifiad a roddir yn is-baragraff (iv) uchod;

(viii) unrhyw gorff y cawsoch eich ethol, penodi neu enwebu iddo gan y CJC;



(ix) unrhyw

- (aa) awdurdod neu gorff cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus;
- (bb) cwmni, cymdeithas gofrestredig, elusen neu gorff wedi'i gyfarwyddo at ddibenion elusennol;
- (cc) corff y mae ei brif bwrpasau'n cynnwys dylanwadu ar farn y cyhoedd neu bolisi;
- (dd) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
- (ee) clwb neu gymdeithas neu sefydliad preifat yn gweithredu yn ardal y CJC, yr ydych yn aelod ohonynt neu gyda swydd reoli gyffredinol ynddynt;

(x) unrhyw dir yn ardal y CJC lle y mae gennych drwydded (ar ben eich hun neu ar y cyd ag eraill) i feddiannu am 28 diwrnod neu fwy;

(b) penderfyniad y gellid ystyried yn rhesymol i fod yn effeithio ar

- (i) eich lles neu sefyllfa ariannol neu les neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gyda nhw, neu berson y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw;
- (ii) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gyflawnir gan bersonau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);
- (iii) unrhyw berson sy'n cyflogi neu wedi penodi personau o'r fath a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw gwmni y maen nhw'n bartner ynddo neu'n gyfarwyddwr arno;
- (iv) unrhyw gorff corfforedig y mae gan bersonau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fudd manteisiol ynddo mewn dosbarth o warannau gyda gwerth enwol mwy na £5,000; neu
- (v) unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) – (ee) y mae gan bersonau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) swydd reoli gyffredinol ynddynt,

i raddau helaeth na'r rhan fwyaf o dalwyr treth, trethdalwyr neu breswylwyr eraill ardal y CJC.

# Adran 9 – Cod Ymddygiad

**Datgelu Buddiannau Personol**

**A11.**

(1) Os oes gennych fudd personol mewn unrhyw fusnes gan y CJC ac yn mynychu cyfarfod lle y mae'r busnes hwnnw'n cael ei drafod, rhaid i chi ddatgelu'n llafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y budd hwnnw cyn neu ar ddechrau ystyried y mater, neu pan ddaw'r budd yn amlwg.

(2) Os oes gennych fudd personol mewn unrhyw fusnes gan y CJC ac yn

(a) gwneud sylwadau ysgrifenedig (drwy lythyr, ffacs neu fath arall o gyfathrebiad electronig) i Aelod neu swyddog o'r CJC ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion y budd hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu



(b) gwneud sylwadau llafar (wyneb yn wyneb neu drwy gyfathrebiad electronig o ryw fath) i Aelod neu swyddog o'r CJC, dylech ddatgelu'r budd ar ddechrau gwneud y sylwadau neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fudd o'r fath, a chadarnhau'r sylwadau a'r budd yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod i wneud y sylwadau.

(3) Yn amodol i baragraff 14(1)(b) isod, os oes gennych fudd personol mewn unrhyw fusnes gan y CJC ac rydych wedi gwneud penderfyniad wrth ymarfer swyddogaeth fel swyddog gweithredol neu fwrdd, rhaid i chi sicrhau yng nghyswllt y busnes hwnnw bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ar y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich budd.

(4) Yng nghyswllt budd personol heb ei ddatgelu'n flaenorol, cyn neu'n syth ar ôl i gyfarfod lle y mae'r budd yn cael ei ddatgelu o dan is-baragraff 11(1) ddod i ben, rhaid i chi hysbysu'r CJC yn ysgrifenedig yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan Swyddog Monitro'r CJC, neu, o leiaf gan gynnwys

(a) manylion y budd personol;
(b) manylion y busnes y mae'r budd personol yn berthnasol iddo; a (c) eich llofnod.

(5) Os oes gennych gytundeb gan eich Swyddog Monitro bod y wybodaeth yn ymwneud â'ch budd personol yn wybodaeth sensitif, o dan baragraff 16(1), rhaid i'ch rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu gwybodaeth o'r fath, yn llafar neu'n ysgrifenedig, gael eu disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth budd personol a chadarnhau bod eich Swyddog Monitro wedi cytuno bod natur y budd personol hwnnw'n wybodaeth sensitif.

(6) I bwrpas is-baragraff (4), ystyrir bod budd personol wedi cael ei ddatgelu'n flaenorol dim ond os yw rhybudd ysgrifenedig wedi'i roi'n unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf y cawsoch eich ethol, penodi neu enwebu fel Aelod o'r CJC.

(7) I bwrpas is-baragraff (3), os na fydd rhybudd ysgrifenedig wedi'i roi'n unol â'r paragraff hwnnw, cymerir na fyddwch wedi datgan budd personol yn unol â'r cod hwn.

**Buddiannau Rhagfarnus**

**A12.**

(1) O dan is-baragraff (2) isod, os oes gennych fudd personol mewn unrhyw fusnes gan y CJC, bydd gennych hefyd fudd rhagfarnus yn y busnes hwnnw os yw'r budd yn un y byddai aelod o'r cyhoedd a wyddai am y ffeithiau perthnasol yn ystyried yn rhesymol i fod mor sylweddol fel y byddai'n debygol o ragfarnu eich barn am fudd y cyhoedd.

(2) Yn amodol i is-baragraff (3), ni ystyrir y bydd gennych fudd rhagfarnus mewn unrhyw fusnes os yw'r busnes hwnnw -

(a) yn ymwneud ag

(i) awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn Aelod ohono;



(ii) awdurdod cyhoeddus neu gorff arall yn ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur y mae gennych swydd reoli gyffredinol ynddo;

(iii) unrhyw gorff y cawsoch eich ethol, penodi neu enwebu iddo gan y CJC;

(iv) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (lle na chawsoch eich penodi neu enwebu gan y CJC) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol lle'r ydych yn llywodraethwr;

(b) yn ymwneud â

(i) swyddogaethau'r CJC o ran tâl salwch statudol o dan Ran XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, lle'r ydych yn derbyn neu gyda hawl i dderbyn tâl o'r fath gan y CJC;

(ii) swyddogaethau'r CJC o ran lwfans neu dâl a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(3) Nid yw'r eithriadau yn is-baragraff (2)(a) yn berthnasol os yw'r busnes yn ymwneud â phenderfynu cymeradwyo, rhoi caniatâd, trwyddedu, cydsyniad neu gofrestru.

**Is-bwyllgor Craffu**

**A13**. Mae gennych hefyd fudd rhagfarnus mewn unrhyw fusnes sydd gerbron Is-bwyllgor Craffu'r CJC os

(a) mae'r busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad (wedi'i weithredu neu beidio) neu gamau a gymerwyd gan y CJC neu ei Is-bwyllgorau; a

(b) pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y camau, roeddech yn Aelod o'r CJC, neu Is-bwyllgor, yn ôl y disgrifiad yn is-baragraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y camau.

# Adran 9 – Cod Ymddygiad

**Cyfranogi yng Nghyswllt Buddiannau Wedi Eu Datgelu**

**A14**.

(1) Yn amodol i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), os oes gennych fudd rhagfarnus mewn unrhyw fusnes gan y CJC, oni bai y cawsoch oddefeb gan Is-bwyllgor Safonau'r CJC, rhaid i chi:

(a) dod allan o'r cyfarfod lle y mae'r busnes yn cael ei gyflawni

(i) os yw is-baragraff (2) yn berthnasol, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes ddod i ben, ac yn sicr cyn dechrau ystyried y busnes ymhellach, p'un ai yw'r cyhoedd yn cael aros yn bresennol ar gyfer ystyried y busnes neu beidio; neu

(ii) ym mhob achos arall, pan ddaw'n amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;



(b) peidio ag ymarfer swyddogaethau'r CJC yng nghyswllt y busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad yn ymwneud â'r busnes hwnnw;

(d) peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (drwy lythyr, ffacs na math arall o gyfathrebiad electronig) yng nghyswllt y busnes hwnnw; a

(e) peidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (wyneb yn wyneb na thrwy unrhyw fath o gyfathrebiad electronig) yng nghyswllt y busnes hwnnw neu roi'r gorau'n syth i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r budd rhagfarnus yn amlwg.

(2) Os oes gennych fudd rhagfarnus mewn unrhyw fusnes gan y CJC, gallwch fynychu'r cyfarfod ond dim ond i'r pwrpas o wneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yng nghyswllt y busnes, ar yr amod bod y cyhoedd hefyd yn cael mynychu'r cyfarfod ar gyfer yr un busnes, p'un ai drwy hawl statudol neu fel arall.

(2A) Os oes gennych fudd rhagfarnus mewn unrhyw fusnes gan y CJC, gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod yng nghyswllt y busnes hwnnw ar yr amod bod y cyhoedd yn cael mynychu'r cyfarfod i'r pwrpas o wneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yng nghyswllt y busnes, p'un ai drwy hawl statudol neu fel arall.

(2B) Wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o dan is-baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y gallai'r CJC ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod os

(a) mae'n ofynnol i chi fynychu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Craffu, gan unrhyw bwyllgor o'r fath sy'n ymarfer ei bwerau statudol; neu

(b) mae gennych fantais goddefeb, ar yr amod eich bod

(i) yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a
(ii) cyn neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben, yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r CJC yn cynnwys

(aa) manylion y budd rhagfarnus;
(bb) manylion y busnes y mae'r budd rhagfarnus yn berthnasol iddo;
(cc) manylion yr oddefeb a'r dyddiad y rhoddwyd yr oddefeb; a
(dd) eich llofnod.

(4) Os oes gennych fudd rhagfarnus ac yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r CJC ac yn dibynnu ar oddefeb, rhaid i chi roi manylion yr oddefeb yn y sylwadau ysgrifenedig neu lafar hynny ac, os ydynt yn sylwadau llafar, rhaid i chi roi rhybudd ysgrifenedig i'r CJC o fewn 14 diwrnod i wneud y sylwadau.



**RHAN 4**
**COFRESTR BUDDIANNAU'R AELODAU**

**Cofrestru Buddiannau Personol**

**A15.**
(1) Yn amodol i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod

(a) i ddyddiad mabwysiadu Cod Ymddygiad y CJC neu gymhwyso darpariaethau gorfodol y Cod enghreifftiol hwn i'r CJC; neu
(b) i gael eich ethol neu benodi i swydd (os yw hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau personol os ydynt yn dod o dan gategori a ddisgrifir ym mharagraff 10(2)(a) yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau'r CJC drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r CJC.

(2) Yn amodol i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod i ddod yn ymwybodol bod unrhyw fudd personol newydd yn dod o dan gategori a ddisgrifir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r budd personol newydd hwnnw yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau'r CJC drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r CJC.
(3) Yn amodol i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod i ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i fudd personol newydd sy'n dod o dan gategori a ddisgrifir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau'r CJC drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r CJC.

(4) Nid yw is-baragraffau (1), (2) a (3) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Wrth ddatgelu budd personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, rhaid i chi gofrestru'r budd personol hwnnw yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau'r CJC drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r CJC.

**Gwybodaeth Sensitif**

**A16.**

(1) Os credwch fod y wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, ac mae Swyddog Monitro'r CJC yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r budd neu, os bydd yn codi, newid i'r budd o dan baragraff 15.

(2) O fewn 28 diwrnod i ddod yn ymwybodol o unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n golygu bod gwybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (1) ddim yn wybodaeth sensitif mwyach, rhaid i chi roi gwybod i Swyddog Monitro'r CJC yn gofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng Nghofrestr Buddiannau Aelodau'r CJC.

(3) Yn y cod hwn mae "gwybodaeth sensitif" yn golygu gwybodaeth, drwy fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd, sy'n creu neu'n debygol o greu risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi wynebu trais neu gael eich bygwth drwy fraw.



**Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch**

**A17**. O fewn 28 diwrnod i dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, mantais o ran nwydd neu wasanaeth neu fantais fwy na'r gwerth a nodir mewn penderfyniad gan y CJC, rhaid i chi roi rhybudd ysgrifenedig i Swyddog Monitro'r CJC o fodolaeth a natur y rhodd, lletygarwch, nwydd neu wasanaeth neu fantais dan sylw.

**ATODIAD B**

**RHAGARWEINIAD**

B1 Mae’r ddogfen hon yn disgrifio’r weithdrefn y bydd Is-bwyllgor Safonau’r CJC yn ei dilyn os bydd yn rhaid iddo wneud penderfyniadau am ymddygiad Aelodau’n dilyn ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Swyddog Monitro’r CJC o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a rheoliadau cysylltiedig. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddogfen hon ac unrhyw ofynion statudol, y gofynion statudol hynny fydd yn blaenori.

**DEHONGLIAD**

B2 Yn y weithdrefn hon:

B2.1 mae “y Ddeddf” yn golygu Deddf Llywodraeth Leol 2000;

B2.2 mae'r “Awdurdod” yn golygu’r CJC;

B2.3 mae'r “Cod Ymddygiad” yn golygu’r Cod Ymddygiad Aelodau wedi’i fabwysiadu[13] gan y CJC yn unol ag adran 51 y Ddeddf, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau;

B2.4 mae'r “Achwynydd” yn golygu unrhyw berson a wnaeth unrhyw honiad a arweiniodd at yr ymchwiliad;

B2.5 mae'r “Swyddog Ymchwilio” yn golygu’r person a wnaeth ymchwiliad i unrhyw achos honedig o dorri’r Cod Ymddygiad ac a gynhyrchodd yr adroddiad ymchwilio, naill ai’r Ombwdsmon (neu berson yn gweithredu ar ei rhan / ei ran) neu’r Swyddog Monitro;

B2.6 mae “adroddiad ymchwilio” yn golygu adroddiad ar ganlyniad ymchwiliad i achos honedig o dorri’r Cod Ymddygiad a gynhyrchwyd naill ai gan yr Ombwdsmon o dan a71(2) y Ddeddf neu gan y Swyddog Monitro o dan y Rheoliadau;

B27 mae’r “Aelod” yn golygu unrhyw berson sy’n destun ymchwiliad i unrhyw achos honedig o dorri’r Cod Ymddygiad;

B2.8 mae’r “Swyddog Monitro” yn golygu’r swyddog sydd am y tro wedi’i benodi gan y CJC o dan adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

B2.9 mae’r “Ombwdsmon” yn golygu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

B2.10 mae’r “Rheoliadau” yn golygu Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 wedi eu diwygio;

B2.11 mae’r “Swyddog Safonau” yn golygu’r swyddog sydd am y tro wedi’i benodi gan y CJC i gefnogi gwaith yr Is-bwyllgor Safonau.

[13] Wele Adran 18.1

**CRYNODEB O'R WEITHDREFN**

B3 O dan adran 69 y Ddeddf, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i unrhyw achos honedig o dorri'r Cod Ymddygiad gan Aelodau neu Aelodau Cyfetholedig (neu gyn-Aelodau neu Aelodau Cyfetholedig) y CJC yn ardal y CJC.

B4 O dan adran 70(4) y Ddeddf, os yw'r Ombwdsmon yn rhoi'r gorau i ymchwiliad o'r fath cyn ei orffen, gall gyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad i'r Swyddog Monitro. Bydd y Swyddog Monitro yna'n ymchwilio i'r materion yn unol â'r Rheoliadau cyn adrodd a, lle bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r Is-bwyllgor Safonau.

---

B5 Neu, o dan adran 71(2) y Ddeddf, os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu ar ôl ymchwilio ei bod yn briodol, bydd yn cynhyrchu adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad ac yn ei anfon i'r Swyddog Monitro. Bydd y Swyddog Monitro yna'n ystyried adroddiad yr Ombwdsmon yn unol â'r Rheoliadau cyn, lle bo'n briodol, cyflwyno'r adroddiad a gwneud argymhellion i'r Is-bwyllgor Safonau.

B6 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau yna'n gwneud penderfyniad cychwynnol naill ai:

(a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; neu
(b) y dylai'r Aelod gael cyfle i wneud sylwadau, naill ai'n llafar neu'n ysgrifenedig.

B7 Os yw'r Aelod yn cael cyfle i wneud sylwadau, bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n trefnu gwrandawiad i ystyried unrhyw ymateb gan yr Aelod a rhaid iddo benderfynu o dan reoliad 9(1) y Rheoliadau naill ai:

(a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac felly nad oes angen unrhyw gamau gweithredu;
(b) bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ond nad oes angen unrhyw weithredu yng nghyswllt y methiant hwnnw;
(c) bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac y dylent gael eu ceryddu; neu
(d) bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac y dylid eu hatal dros dro neu eu hatal dros dro'n rhannol o fod yn Aelod neu Aelod Cyfetholedig o'r CJC am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis

a chymryd camau'n unol â hynny.

**YMCHWILIADAU GAN Y SWYDDOG MONITRO (CYFEIRIADAU O DAN ADRAN 70(4) Y DDEDDF)**

B8 Os yw'r Ombwdsmon yn rhoi'r gorau i'w (h)ymchwiliad cyn ei orffen a chyfeirio materion sy'n destun yr ymchwiliad i'r Swyddog Monitro o dan adran 70(4) y Ddeddf, rhaid i'r Swyddog Monitro.

(a) cynnal ymchwiliad; a
(b) adrodd a, lle bo'n briodol, gwneud argymhellion i Is-bwyllgor Safonau'r CJC.

B9 Bydd y Swyddog Monitro'n ymchwilio'n unol â'r Rheoliadau a dilyn unrhyw weithdrefnau y bydd ef / hi'n ystyried i fod yn briodol yn amgylchiadau'r achos.

B10 Ar ôl dod ag ymchwiliad i ben, rhaid i'r Swyddog Monitro:



(a) cynhyrchu adroddiad ar ganfyddiadau ei (h)ymchwiliad a, lle bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r Is-bwyllgor Safonau;
(b) anfon copi o'r adroddiad at yr Aelod; a
(c) cymryd camau rhesymol i anfon copi o'r adroddiad at yr Achwynydd.

B11 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n ystyried adroddiad y Swyddog Monitro ac unrhyw argymhellion yn unol â'r weithdrefn isod.

**YMCHWILIADAU GAN YR OMBWDSMON (CYFEIRIADAU O DAN ADRAN 71(2) Y DDEDDF)**

B12 Os yw'r Ombwdsmon yn gorffen ei (h)ymchwiliad ac yn anfon adroddiad i'r Swyddog Monitro ac Is-bwyllgor Safonau'r CJC o dan adran 71(2) y Ddeddf, rhaid i'r Swyddog Monitro ystyried adroddiad yr Ombwdsmon a, lle bo'n briodol, gwneud argymhellion i Is-bwyllgor Safonau'r CJC.

B13 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ynghyd ag unrhyw argymhellion a wnaed gan y Swyddog Monitro'n unol â'r weithdrefn isod.

**CYFARFOD CYNTAF YR IS-BWYLLGOR SAFONAU – PENDERFYNIAD CYCHWYNNOL**

B14 Ar ôl i'r Swyddog Monitro:

(a) cynhyrchu adroddiad ymchwilio'n unol â Rheol B10(a); neu
(b) ystyried adroddiad ymchwilio'r Ombwdsmon yn unol â Rheol B13

bydd yn trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Safonau cyn gynted â phosib ac yn trefnu i anfon copi o'r adroddiad ymchwilio, ynghyd ag argymhellion y Swyddog Monitro (os oes rhai), at holl Aelodau'r Is-bwyllgor Safonau.

B14 Bydd rhybudd o amser a lleoliad y cyfarfod yn cael ei roi'n unol â Rhan VA Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y diwygiwyd hi gan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001. Bydd yr agenda'n enwi'r Aelod y mae'r honiad o

gamymddwyn wedi'i wneud yn ei erbyn. Y brif eitem gyntaf ar yr agenda fydd penderfynu a ddylid cau allan y cyhoedd ac Aelodau'n unol â Rheol 4.56 a 4.57.

B15 Os yw'r adroddiad ymchwilio wedi'i gynhyrchu gan yr Ombwdsmon, y Swyddog Monitro fydd yn cynghori'r Is-bwyllgor Safonau. Os yw'r adroddiad ymchwilio wedi'i gynhyrchu gan y Swyddog Monitro, bydd y Swyddog Safonau neu berson cymwys addas yn cynghori'r Is-bwyllgor Safonau.

B15 Bydd busnes cyfarfod yr Is-bwyllgor Safonau wedi'i gyfyngu i ystyried yr adroddiad ymchwilio ac argymhellion y Swyddog Monitro (os oes rhai) a gwneud penderfyniad cychwynnol naill ai:



(a) nad oes tystiolaeth o unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; neu

(b) y dylai'r Aelod gael cyfle i wneud sylwadau, naill ai'n llafar neu ysgrifenedig, ar ganfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei bod / ei fod wedi methu, neu efallai wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

B16 Bydd penderfyniad y Pwyllgor o dan Reol B15 yn cael ei gyhoeddi ac enw'r Aelod y gwnaed yr honiad o gamymddwyn yn eu herbyn yn cael ei wneud yn gyhoeddus hyd yn oed os yw'r Pwyllgor yn penderfynu na fethodd gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

**AR ÔL CYFARFOD CYNTAF YR IS-BWYLLGOR SAFONAU**

B17 Os yw'r Is-bwyllgor Safonau'n penderfynu nad oes tystiolaeth o fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd y Swyddog Safonau'n hysbysu'r Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon o hynny.

B18 Os yw'r Is-bwyllgor Safonau'n penderfynu y dylai fod gan yr Aelod gyfle i wneud sylwadau, bydd y Swyddog Safonau'n hysbysu'r Aelod o benderfyniad y Pwyllgor a'r weithdrefn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu ei mabwysiadu i dderbyn ac ystyried unrhyw sylwadau y bydd yn penderfynu eu gwneud.

**PARATOI AM Y GWRANDAWIAD I YSTYRIED SYLWADAU'R AELOD**

B19 Bydd y Swyddog Safonau, drwy ymgynghori â Chadeirydd yr Is-bwyllgor Safonau, yn ysgrifennu at yr Aelod yn cynnig dyddiad ar gyfer gwrandawiad i ystyried unrhyw sylwadau y bydd yr Aelod efallai'n dewis eu gwneud a rhaid i'r Aelod ymateb yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod yn dweud a yw'n dymuno / gallu mynychu'r gwrandawiad neu beidio. Os na fydd yr Aelod yn gallu mynychu'r gwrandawiad ar y dyddiad(au) a gynigiwyd, bydd yr Aelod yn gallu cynnig dyddiadau eraill i'w hystyried gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Safonau, fydd yn penderfynu pa mor rhesymol neu beidio yw'r dyddiad arall a gynigiwyd ac yn trefnu'r dyddiad ar gyfer cynnal y gwrandawiad a bydd y Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw'n penderfynu symud ymlaen neu beidio os na fydd yr Aelod yn mynychu'r gwrandawiad.

B20 Bydd y llythyr gan y Swyddog Safonau'n unol â B19 hefyd yn gofyn i'r Aelod ymateb yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod i'r llythyr hwnnw i gadarnhau a yw'r Aelod:

(a) eisiau cyflwyno sylwadau, yn llafar neu'n ysgrifenedig, ac os felly y dylid cynnwys unrhyw sylwadau ysgrifenedig yn eu hymateb;
(b) yn anghytuno ag unrhyw un o ganfyddiadau ffaith yr adroddiad ymchwilio, ac os felly pa faterion y mae'r Aelod yn anghytuno â nhw a'r rhesymau am anghytuno, yn ogystal â'r ffeithiau yr anghytunir yn eu cylch yn yr adroddiad ymchwilio;



(c) eisiau ymddangos o flaen y Pwyllgor yn bersonol neu gael eu cynrychioli yn y gwrandawiad gan gyfreithiwr, bargyfreithiwr neu rywun arall, yn unol â'u hawl o dan y Rheoliadau;
(d) eisiau rhoi tystiolaeth i'r Is-bwyllgor Safonau, yn llafar neu'n ysgrifenedig;
(e) eisiau galw ar dystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Is-bwyllgor Safonau a chadarnhau pwy ydyn nhw, gan naill ai roi datganiad o'u tystiolaeth neu sylwedd y dystiolaeth i'w rhoi'n llafar i'r Is-bwyllgor Safonau;
(f) eisiau i unrhyw ran o'r cyfarfod gael ei gynnal yn breifat a'r rhesymau pam na ddylai'r cyfarfod fod yn gyhoeddus;
(g) eisiau i unrhyw ran o'r adroddiad ymchwilio, neu ddogfennau perthnasol eraill, gael eu cadw rhag y cyhoedd a'r rhesymau pam na ddylai'r ddogfen fod yn gyhoeddus.

B21 Bydd y Swyddog Safonau'n hysbysu'r Swyddog Ymchwilio o ddyddiad arfaethedig y gwrandawiad ac yn gofyn a fydd ef / hi'n mynychu.

B22 Bydd y Swyddog Safonau'n anfon copi o ymateb yr Aelod o dan reol B19 i'r Swyddog Ymchwilio ac yn gofyn iddo / iddi gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn saith diwrnod:

(a) a oes ganddynt sylwadau ar ymateb yr Aelod;
(b) a ydynt eisiau cael eu cynrychioli yn y gwrandawiad;
(c) a ydynt eisiau galw tystion perthnasol i roi tystiolaeth i'r Is-bwyllgor Safonau;
(d) a ydynt eisiau i unrhyw ran o'r cyfarfod fod yn breifat; a
(e) a ydynt eisiau i unrhyw ran o'r adroddiad ymchwilio neu ddogfennau perthnasol eraill gael eu cadw rhag y cyhoedd.

B23 Bydd y Swyddog Safonau'n ysgrifennu at Aelodau'r Pwyllgor, yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio o leiaf bythefnos cyn y gwrandawiad i:

(a) cadarnhau dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad;
(b) crynhoi'r honiad;
(c) amlinellu prif ffeithiau'r achos y mae cytundeb yn eu cylch;
(d) amlinellu'r prif ffeithiau nad oes cytundeb yn eu cylch;
(e) nodi a fydd yr Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio'n mynychu'r gwrandawiad neu'n cael eu cynrychioli ynddo;
(f) rhestru'r tystion, os oes rhai, y gofynnir iddynt roi tystiolaeth;

(g) amgáu'r adroddiad ymchwilio, unrhyw ddogfennau perthnasol, ymateb yr Aelod ac unrhyw ymateb pellach gan y Swyddog Ymchwilio; a

(h) amlinellu gweithdrefn arfaethedig y cyfarfod.

**PWERAU'R IS-BWYLLGOR SAFONAU**

B24 Gall yr Is-bwyllgor Safonau, yn unol â gofynion cyfiawnder naturiol, gynnal y cyfarfod yn y ffordd y gwêl i fod fwyaf addas er mwyn cadarnhau'r materion sydd i'w trafod ac yn gyffredinol er mwyn cynnal y gwrandawiad yn gyfiawn. Rhaid i'r Pwyllgor, i unrhyw raddau y gwêl yn briodol, geisio osgoi ffurfioldeb ac anhyblygrwydd wrth gynnal yr achos.

Adran 9 – Tudalen 18

Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n penderfynu'r dystiolaeth ffeithiol ar sail beth sydd fwyaf tebygol.

B25 Gall yr Aelod neu'r Swyddog Ymchwilio, p'un ai'n gyfreithiol gymwys neu beidio, gael eu cynrychioli gan neu ddod â pherson arall gyda nhw neu, os yw'r Is-bwyllgor Safonau mewn unrhyw achos yn fodlon bod rheswm da dros wneud hynny, gall wrthod gadael i berson penodol gynorthwyo neu gynrychioli un o'r partïon yn y gwrandawiad.

B26 Gall yr Is-bwyllgor Safonau ofyn am gyngor cyfreithiol gan swyddog o'r CJC a benodwyd i'r pwrpas hwn ar unrhyw adeg yn ystod y cyfarfod neu wrth ystyried y canlyniad. Bydd sylwedd unrhyw gyngor cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor yn cael ei rannu â'r Aelod a'r Swyddog Ymchwilio os ydyn nhw'n bresennol.

B27 Lle bo'n briodol, ac yn unol â'r Rheoliadau, mae gan yr Is-bwyllgor Safonau bŵer i geryddu, atal dros dro, neu atal yr Aelod dros dro'n rhannol am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis.

**GWEITHDREFN Y GWRANDAWIAD**

B28 Cynhelir gwrandawiad yn gyhoeddus oni bai fod yr Is-bwyllgor Safonau'n cael ei ddarbwyllo bod rheswm da dros gau allan y cyhoedd.

B29 Bydd gweithdrefn y cyfarfod yn unol â'r isod, oni bai fod y Cadeirydd yn gwneud unrhyw newidiadau y gwêl yn briodol i sicrhau gwrandawiad teg ac effeithlon.

**Rhagarweiniad**

B30 Bydd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Safonau'n cyflwyno'r bobl sy'n bresennol ac yn egluro dull a threfn y gwrandawiad.

**Cam Cyntaf – Materion Gweithdrefnol Rhagarweiniol**

B31 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau yna'n datrys unrhyw fater neu anghytundeb ynghylch sut y dylai'r gwrandawiad barhau, ac sydd heb eu datrys yn ystod proses y cyn-wrandawiad.

**Ail Gam – Gwneud Canfyddiadau Ffaith**

B32 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau yna'n ystyried a oes unrhyw anghytuno sylweddol ynghylch ffeithiau'r adroddiad ymchwilio.

1 Os oes anghytuno ynghylch y ffeithiau:

(a) gwahoddir y Swyddog Ymchwilio, os yw'n bresennol, i wneud unrhyw sylwadau angenrheidiol i gefnogi'r canfyddiadau ffaith perthnasol yn yr adroddiad ymchwilio;
(b) gall y Swyddog Ymchwilio alw unrhyw dystion ategol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd yr Is-bwyllgor Safonau, a rhaid i'r Pwyllgor roi cyfle i'r Aelod herio unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gan unrhyw dyst sy'n cael ei alw gan y Swyddog Ymchwilio;
(c) yna gwahoddir yr Aelod i wneud sylwadau i ategu ei fersiwn hi / ef o'r ffeithiau;



(d) gall yr Aelod alw unrhyw dystion ategol i roi tystiolaeth, gyda chaniatâd yr Is-bwyllgor Safonau, a rhaid i'r Pwyllgor roi cyfle i'r Swyddog Ymchwilio herio unrhyw dystiolaeth a gyflwynir gan unrhyw dyst sy'n cael ei alw gan yr Aelod.

2 Ar unrhyw adeg, gall yr Is-bwyllgor Safonau holi unrhyw un o'r bobl sy'n cymryd rhan neu unrhyw un o'r tystion.

3 Os yw'r Aelod yn anghytuno ag unrhyw ffaith berthnasol yn yr adroddiad ymchwilio, heb roi rhybudd ymlaen llaw o'r anghytundeb hwnnw, rhaid iddynt roi rhesymau da dros beidio â sôn am y peth cyn y gwrandawiad. Os nad yw'r Swyddog Ymchwilio'n bresennol, bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n ystyried a fyddai er budd y cyhoedd parhau yn ei (h)absenoldeb neu beidio. Ar ôl ystyried esboniad yr Aelod dros beidio â chodi'r mater yn gynt, gall y Pwyllgor yna:

(a) parhau gyda'r gwrandawiad, a dibynnu ar y wybodaeth yn yr adroddiad ymchwilio;
(b) gadael i'r Aelod wneud sylwadau ar y mater, a gwahodd y Swyddog Ymchwilio i ymateb a galw unrhyw dystion, fel bo angen; neu
(c) gohirio'r gwrandawiad er mwyn trefnu i dystion priodol fod yn bresennol, neu i'r Swyddog Ymchwilio fod yn bresennol os nad ydynt yn barod.

4 Ar ddiwedd y sylwadau o ran materion ffaith, bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n ymneilltuo i drafod y sylwadau'n breifat, ac yna bydd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Safonau'n cyhoeddi eu canfyddiadau ffaith.

**Trydydd Cam – Penderfynu a fethodd yr Aelod â chydymffurfio â'r Cod**

**B33**

1 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau yna'n ystyried a yw'r Aelod, ar sail y canfyddiadau ffaith, wedi methu â chydymffurfio â'r Cod.

2 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n gwahodd y Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau ynghylch a yw'r Aelod, ar sail canfyddiadau ffaith yr Is-bwyllgor, wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

3 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n gwahodd yr Aelod i ymateb i sylwadau'r Swyddog Ymchwilio a gwneud sylwadau ynghylch a fethodd, ar sail canfyddiadau ffaith yr Is-bwyllgor, â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

4 Gall yr Is-bwyllgor Safonau, o bryd i'w gilydd, holi unrhyw un sy'n cymryd rhan ar unrhyw bwynt a godir ganddynt yn eu sylwadau.

5 Gwahoddir yr Aelod i wneud unrhyw bwyntiau perthnasol terfynol.



6 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n ymneilltuo i drafod y sylwadau'n breifat a phenderfynu a fethodd yr Aelod â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad neu beidio ac yna bydd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Safonau'n cyhoeddi eu canfyddiadau.

**Pedwerydd Cam – Camau i'w Cymryd**

**B34**

1 Os yw'r Is-bwyllgor Safonau'n penderfynu na fethodd yr Aelod â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn cofnodi'n ffurfiol nad oes unrhyw dystiolaeth bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac felly nad oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu.

2 Os yw'r Is-bwyllgor Safonau'n penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, bydd yn gwahodd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwilio i wneud sylwadau ynglŷn â:

(a) a ddylai'r Pwyllgor roi sancsiwn neu beidio; a (b) beth ddylai unrhyw sancsiwn fod.

3 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n ymneilltuo i drafod y sylwadau'n breifat a phenderfynu naill ai:

(a) nad oes angen cymryd camau gweithredu am fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad;

(b) y dylid ceryddu'r Aelod; neu

y dylid atal yr Aelod dros dro, neu eu hatal dros dro'n rhannol o fod yn Aelod neu'n Aelod Cyfetholedig o'r CJC am gyfnod heb fod yn fwy na chwe mis (neu, os am lai na chwe mis, am weddill cyfnod swydd y person);

ac yna bydd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Safonau'n cyhoeddi eu penderfyniad yn gyhoeddus.

4 Ar ôl gwneud penderfyniad, bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n cyfarwyddo'r Swyddog Safonau i gadarnhau'r penderfyniad, a

rhesymau'r penderfyniad, yn ysgrifenedig gan anfon copi o'r penderfyniad ysgrifenedig (gan gynnwys hawl yr Aelod i apelio) at yr Aelod, yr Achwynydd a'r Ombwdsmon cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

5 Bydd penderfyniad yr Is-bwyllgor Safonau'n cael ei ystyried i fod wedi cael ei dderbyn yr Aelod ar yr ail ddiwrnod ar ôl i'r llythyr gael ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf, ar yr amod bod gan y Swyddog Safonau brawf postio.

**METHU Â GWNEUD SYLWADAU / MYNYCHU'R GWRANDAWIAD**

B35 Os yw'r Aelod yn methu â gwneud sylwadau, gall yr Is-bwyllgor Safonau:



(a) oni bai ei fod yn fodlon bod rheswm boddhaol dros fethu â gwneud, ystyried yr adroddiad ymchwilio a gwneud penderfyniad yn absenoldeb yr Aelod; neu
(b) rhoi cyfle arall i'r Aelod wneud sylwadau.

B36 Os nad yw parti'n bresennol neu heb gynrychiolydd mewn gwrandawiad, gall yr Is-bwyllgor Safonau, os yw'n fodlon bod y parti wedi derbyn rhybudd dyledus o'r gwrandawiad a heb reswm da dros fod yn absennol:

(a) gohirio'r gwrandawiad; neu
(b) gwrando a phenderfynu'r mater yn absenoldeb y parti;
(c) ac yn y naill achos neu'r llall, bydd y Swyddog Safonau'n hysbysu'r Aelod o ganlyniad y gwrandawiad drwy e-bost neu ffonio ac yna'n trefnu i'r canlyniad gael ei hysbysu i'r wasg.

**SALWCH NEU FOD YN ANALLUOG**

B37 Os yw'r Is-bwyllgor Safonau'n fodlon, ar sail y dystiolaeth feddygol a gyflwynwyd, bod unrhyw barti yn methu, oherwydd nam neu salwch corfforol neu feddyliol, â mynychu'r gwrandawiad a bod anallu'r parti i fod yn bresennol yn debygol o barhau am gryn amser, gall yr Is-bwyllgor Safonau wneud unrhyw drefniadau ag y gwêl yn briodol, ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos, i benderfynu'r mater yn deg a gallai hyn gynnwys gohirio'r gwrandawiad ar gyfer dyddiad addas neu fwrw ymlaen gyda'r gwrandawiad yn absenoldeb y parti lle bo hynny'n briodol ym marn yr Is-bwyllgor Safonau.

**ATAL DROS DRO**

B38 Bydd cyfnod o atal dros dro, neu atal dros dro'n rhannol, yn dechrau'r diwrnod ar ôl:

B38.1 y daw'r amser a ganiateir i wneud apêl i Banel Dyfarnu Cymru i ben o dan y Rheoliadau (h.y. 21 diwrnod ar ôl derbyn rhybudd o benderfyniad yr Is-bwyllgor Safonau'n unol â Rheol 44(5); neu

B38.2 derbyn rhybudd neu gasgliad unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau; neu

B38.3 penderfyniad pellach gan yr Is-bwyllgor Safonau ar ôl derbyn argymhelliad gan Banel Dyfarnu Cymru o dan y Rheoliadau,

pa un bynnag sy'n dod olaf.

**CYFEIRIAD AT BANEL DYFARNU CYMRU**

B39 Os yw'r Is-bwyllgor Safonau'n penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, gall yr Aelod ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn y penderfyniad gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru (APW) o fewn 21 diwrnod i dderbyn rhybudd o benderfyniad y Pwyllgor Safonau.

B54 Gall yr APW ategu penderfyniad yr Is-bwyllgor Safonau, cyfeirio'r mater yn ôl i'r Is-bwyllgor Safonau'n argymell cosb wahanol, neu wrthdroi'r penderfyniad.

Adran 9 – Tudalen 22

B41 Os:

(a) yw'r Is-bwyllgor Safonau'n penderfynu bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; a
(b) yw'r Aelod yn apelio i APW o blith aelodau Panel Dyfarnu Cymru; a
(c) os yw'r APW yn cyfeirio'r mater yn ôl at yr Is-bwyllgor Safonau gydag argymhelliad i roi cosb wahanol.

rhaid i'r Is-bwyllgor Safonau gyfarfod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i ystyried argymhelliad yr APW a phenderfynu a ddylai ddal at ei benderfyniad gwreiddiol neu dderbyn yr argymhelliad.

(d) Ar ôl gwneud ei benderfyniad, bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n cyfarwyddo'r Swyddog Safonau i gadarnhau'r penderfyniad, a rhesymau'r penderfyniad, yn ysgrifenedig gan anfon copi o'r penderfyniad ysgrifenedig at yr Aelod, yr Achwynydd, yr Ombwdsmon a llywydd yr APW cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**CYHOEDDI ADRODDIAD YR IS-BWYLLGOR SAFONAU**

B42 Bydd yr Is-bwyllgor Safonau'n cynhyrchu adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad ac yn anfon copi at yr Ombwdsmon, y Swyddog Monitro a'r Aelod gan gymryd camau rhesymol i anfon copi at yr Achwynydd o fewn 14 diwrnod naill ai:

(a) i bryd y daw'r amser a ganiateir i wneud apêl i Banel Dyfarnu Cymru i ben o dan y Rheoliadau, neu
(b) i dderbyn rhybudd neu gasgliad unrhyw apêl yn unol â'r Rheoliadau, neu
(c) i benderfyniad pellach gan yr Is-bwyllgor Safonau ar ôl derbyn argymhelliad gan Banel Dyfarnu Cymru o dan y Rheoliadau, pa un bynnag sy'n dod ddiwethaf.

B43 Ar ôl derbyn adroddiad yr Is-bwyllgor Safonau, bydd y Swyddog Monitro:

(a) yn cyhoeddi'r adroddiad ar wefan y CJC am gyfnod o 21 diwrnod o leiaf a sicrhau bod copïau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn ddi-dâl yn ystod oriau swyddfa yn un neu fwy o swyddfeydd y CJC, lle y bydd gan unrhyw un hawl i wneud copïau o'r adroddiad neu rannau o'r adroddiad pan fydd ar gael;
(b) yn cyflenwi copi o'r adroddiad i unrhyw un sy'n gofyn drwy iddynt dalu unrhyw dâl y gwêl y CJC yn rhesymol i'w godi, a
(c) dim hwyrach na saith diwrnod ar ôl derbyn yr adroddiad gan yr Is-bwyllgor Safonau, yn rhoi rhybudd cyhoeddus drwy hysbyseb ym mhapurau newydd yr ardal ac mewn ffyrdd eraill ag y gwêl yn briodol iddo ef / hi, y bydd copïau o'r adroddiad ar gael yn unol â pharagraffau (a) a (b) uchod), gan nodi o ba ddyddiad (sef dyddiad dim mwy na saith diwrnod ar ôl rhoi'r rhybudd cyhoeddus am y tro cyntaf) y bydd y cyfnod o 21 diwrnod yn dechrau.



**COSTAU**

B44 Nid oes gan yr Is-bwyllgor Safonau unrhyw bŵer i ddyfarnu unrhyw gostau na threuliau'n codi o unrhyw un o'i gyfarfodydd.

**Cau Allan y Cyhoedd ac Aelodau o Wrandawiadau'r Pwyllgor Safonau**

B45 Gellir ond cau allan y cyhoedd a'r wasg lle bo hynny'n unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth yn Adran 8 y Cyfansoddiad hwn neu Reolau 59 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

B46 I bwrpas Rheol B55, nid oes gan unrhyw Aelod hawl i fynychu (ar wahân i'r Aelodau sy'n bresennol ac yn ymddangos o flaen yr Is-bwyllgor Safonau).



**ATODIAD C**

## Rhoddion a Lletygarwch i Aelodau

**Protocol ar Roddion a Lletygarwch i Aelodau**

C1 Nid mater gweinyddol yn unig yw derbyn rhoddion a lletygarwch gan Aelodau. Mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol ar argraff y cyhoedd o'r Aelodau a'r CJC eu bod yn gweithredu er budd y cyhoedd neu er mantais bersonol i ffrindiau a pha bynnag fudd personol y gall Aelodau ei gael allan o'r swydd.

C2 Mae'r gyfraith ar dderbyn rhoddion a lletygarwch wedi'i gosod allan yng Nghod Ymddygiad Aelodau'r CJC ac yn y Deddfau Atal Ymddygiad Llwgr. Mae'r gofynion hyn yna'n cael eu hategu gan y Protocol hwn sydd wedi'i fabwysiadu gan y CJC, i roi rheolau clir ar gyfer gwarchod Aelodau a'r CJC. Gall derbyn rhodd neu letygarwch gan dorri'r Cod, neu fethu â datgan derbyn rhodd neu letygarwch o'r fath, arwain at anghymhwyso'r Aelod o ddal unrhyw swydd

gyhoeddus am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Gall derbyn rhodd neu letygarwch yn llwgr arwain at ddirwy drom neu hyd at 7 mlynedd o garchar.

C3 Mae'r Protocol hwn yn disgrifio:

(a) pa egwyddorion y dylech eu dilyn bob amser wrth benderfynu a fyddai'n briodol derbyn rhodd neu letygarwch;
(b) y weithdrefn ar gyfer cael caniatâd i dderbyn rhodd neu letygarwch, os credwch y byddai'n briodol i chi eu derbyn;
(c) y weithdrefn ar gyfer datgan unrhyw rodd neu letygarwch a dderbyniwch ac ar gyfer egluro unrhyw rodd i'r CJC.

Nid yw'r Cod hwn yn berthnasol i dderbyn unrhyw gyfleusterau neu letygarwch a allai gael ei ddarparu i chi gan y CJC.

**Egwyddorion Cyffredinol**

C4 Ni ddylech byth dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch mewn unrhyw un o'r Sefyllfaoedd Wedi eu Gwahardd a ddisgrifir ym mharagraff 9.84 y Protocol hwn.

C5 Wrth benderfynu a fyddai'n briodol i chi, mewn sefyllfaoedd ar wahân i'r rhai sydd wedi eu gwahardd, dderbyn rhodd neu letygarwch, dylech ddilyn yr egwyddorion canlynol. Hyd yn oed os yw'r rhodd neu letygarwch yn dod o dan un o'r caniatadau cyffredinol a ddisgrifir isod, ni ddylech ei dderbyn os byddai hynny'n torri un neu fwy o'r egwyddorion hyn:

**(a) Ni ddylech byth dderbyn rhodd na lletygarwch fel cymhelliad neu wobr am wneud unrhyw beth fel Aelod**

(i) Fel Aelod, rhaid i chi ymddwyn er budd y cyhoedd a pheidio â chael eich dylanwadu wrth gyflawni eich dyletswyddau gan gynnig, y posibilrwydd o gynnig, neu beidio â chael cynnig unrhyw gymhelliad neu wobr am gyflawni'r dyletswyddau hynny mewn ffordd arbennig.
(ii) O dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Troseddau Llwgr) 1889, os derbyniwch unrhyw rodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais o gwbl fel cymhelliad neu wobr am wneud neu beidio â gwneud unrhyw beth ynghylch unrhyw fater neu drafodiad busnes y mae'r CJC yn ymwneud â fo, byddwch yn cyflawni trosedd gydag uchafswm o 7 mlynedd o garchar.



(iii) Hefyd o dan Gôd Ymddygiad Aelodau'r CJC, rhaid i chi ymddwyn er budd y cyhoedd, gan wasanaethu'r CJC a'r gymuned gyfan, yn hytrach nag ymddwyn er budd unrhyw unigolyn neu garfan o'r gymuned, ac mae rhoi unrhyw fantais neu anfantais amhriodol i rywun, gan gynnwys chi eich hun, yn mynd yn groes i'r Cod.

**(b) Dylech ond derbyn rhodd neu letygarwch os oes mantais neu fudd cymesur i'r CJC.**

(i) Yr unig reswm priodol dros dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch yw y byddai mantais neu fudd cymesur i'r CJC na fyddai wedi bod ar gael heblaw drwy dderbyn y rhodd neu'r lletygarwch hwnnw.

(ii) Gall derbyn lletygarwch roi mantais i'r CJC, fel cyfle i symud ymlaen yn effeithlon gyda busnes y CJC drwy ginio gwaith er enghraifft, neu i ganfasio er buddiannau'r CJC a'i ardal mewn cyfarfod. Mae derbyn rhodd yn llawer llai tebygol o roi mantais o'r fath. Ond oni bai fod y budd i'r CJC yn glir ac yn gymesur â gwerth y rhodd neu'r lletygarwch, y rhagdybiaeth fydd bod y rhodd neu'r lletygarwch yn cael eu rhoi er eich budd personol yn llwyr.

(iii) Fel y nodwn uchod, mae Cod y CJC yn rhagnodi na ddylech roi unrhyw fantais amhriodol i neb, gan gynnwys chi eich hun. Os byddech fel Aelod yn derbyn rhodd neu letygarwch er budd neu fantais i chi eich hun, yn hytrach nag er budd i'r CJC, byddai hynny'n torri'r Cod.

**(c) Ni ddylech byth dderbyn rhodd na lletygarwch os byddai hynny'n agored i gael ei gamddehongli**

(i) Gall ymddangos i ymddwyn yn amhriodol fod yr un mor niweidiol i'r CJC ac i chi fel Aelod ag ymddwyn yn amhriodol. Mae gallu'r CJC i lywodraethu'n gorwedd ar ei enw da am weithredu'n deg ac er budd y cyhoedd. Rhaid i chi felly ystyried a allai derbyn y rhodd neu'r lletygarwch gael ei ddehongli fel arwydd eich bod chi neu'r CJC yn ffafrio person neu gwmni arbennig neu garfan neilltuol o'r gymuned neu'n eich rhoi chi o dan unrhyw rwymedigaeth amhriodol i unrhyw berson neu sefydliad. Os oes unrhyw bosibilrwydd y gallai gael ei ddehongli felly, rhaid i chi naill ai wrthod y rhodd neu letygarwch neu gymryd camau priodol i sicrhau na all camddealltwriaeth o'r fath godi.

(ii) Mae rhai achlysuron yn arbennig o sensitif ac yn gofyn osgoi unrhyw gyfle ar gyfer camddealltwriaeth o'r fath. Maen nhw'n cynnwys:

(a) achlysuron pan fydd y CJC yn mynd drwy broses o gaffael cystadleuol, o ran rhoi'r argraff bod unrhyw dendrwr yn cael ei ffafrio.
(b) wrth benderfynu ceisiadau cynllunio neu bolisi cynllunio, pryd y gallai unrhyw berson neu sefydliad ennill neu golli o'r penderfyniad.
(c) penderfyniadau cyllido, pan fydd y CJC yn penderfynu cais am grant gan berson neu sefydliad.



**(d) Ni ddylech byth dderbyn rhodd na lletygarwch sy'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol**

(i) Dylid cydnabod bod rhai sefydliadau masnachol ac unigolion preifat yn gweld rhoi rhoddion a lletygarwch fel ffordd o brynu dylanwad. Os derbyniwch rodd neu letygarwch yn amhriodol, mae'n bosib y gallent geisio defnyddio hyn i'ch darbwyllo i benderfynu mater er mantais iddynt. Yn yr un modd, os yw eraill yn nodi eich parodrwydd i dderbyn rhodd neu letygarwch yn amhriodol, gallent deimlo na allent mwyach dderbyn ystyriaeth ddiduedd gan y CJC.

**(e) Ni ddylech byth ofyn am rodd neu letygarwch**

(i) Ni ddylech byth ofyn na gwahodd cynnig o rodd neu letygarwch yng nghyswllt eich swydd ar y CJC oni bai y byddai'r rhodd neu'r lletygarwch hwnnw'n cael ei ganiatáu o dan y Cod hwn. Dylech hefyd ofalu i osgoi rhoi unrhyw arwydd y gallech fod yn agored i unrhyw gynnig amhriodol o'r fath.

**Trefniadau Caniatâd**

**C6 Darpariaethau Caniatâd Cyffredinol**

C6.1 I bwrpas eglurder, mae'r CJC wedi cytuno mewn sefyllfaoedd heblaw'r Sefyllfaoedd Wedi eu Gwahardd, y gallwch dderbyn rhoddion a lletygarwch yn yr amgylchiadau canlynol ar yr amod na fyddai hynny'n torri un neu fwy o'r egwyddorion cyffredinol ym mharagraff C3 uchod:

(i) lletygarwch dinesig a roddir gan CJC cyhoeddus arall
(ii) lluniaeth cymedrol yng nghyswllt unrhyw gyfarfod wrth wneud eich gwaith arferol, fel te, coffi, diodydd meddal a bisgedi
(iii) tocynnau ar gyfer digwyddiadau chwaraeon, diwylliannol ac adloniant a noddir gan y CJC
(iv) rhoddion bach o werth isel o dan £25, wedi eu brandio gydag enw'r cwmni neu'r sefydliad sy'n gwneud y rhodd, fel pinnau ysgrifennu, pensiliau, padiau llygoden, calendrau a dyddiaduron. Fodd bynnag, dylech fod yn ofalus i beidio ag arddangos unrhyw eitemau wedi eu brandio o'r fath os gallai hyn awgrymu ffafrio cyflenwr neu gontractwr penodol, er enghraifft wrth gyflawni ymarfer caffael
(v) diod alcoholig neu ddiod meddal cymedrol ar achlysur cyfarfod cymdeithasol damweiniol, fel peint o gwrw gan weithiwr i gontractwr neu rywun yr ydych wedi gwneud busnes gyda nhw ar ran y CJC os byddwch yn cyfarfod yn ddamweiniol mewn tafarn, caffi neu far. Yn yr achosion hyn dylech wneud ymdrechion rhesymol i ddychwelyd y cynnig lle bo'n ymarferol.
(vi) cinio gwaith cymedrol heb fod dros £10 y pen fel rhan o gyfarfod yn swyddfeydd rhywun y mae gan y CJC gysylltiad busnes presennol â nhw, os oes angen hynny i hwyluso cyflawni'r busnes hwnnw. Ni ddylai Aelodau wneud trefniadau o'r fath eu hunain ond gofyn i swyddogion setlo'r trefniadau manwl, ac mae swyddogion dan gyfarwyddyd wrth drefnu unrhyw gyfarfod o'r fath i nodi'n glir i'r person arall na ddylai gwerth cinio o'r fath fod yn fwy na £10 y pen



(vii) rhoddion swfenîr cymedrol gwerth £25 neu lai gan CJC cyhoeddus arall a roddir ar achlysur ymweliad gan neu i'r CJC
(viii) lletygarwch sy'n cael ei dderbyn yn ystod ymweliad neu gyfarfod allanol sydd wedi'i awdurdodi gan y CJC. Ni ddylai Aelodau wneud trefniadau o'r fath eu hunain ond gofyn i swyddogion setlo'r trefniadau manwl, ac mae swyddogion dan gyfarwyddyd i nodi'n glir na ddylai unrhyw letygarwch o'r

fath i Aelodau a swyddogion fod yn fwy na'r hyn a fyddai'n gymesur â natur yr ymweliad

(ix) rhoddion diofyn eraill os yw'n anymarferol eu dychwelyd i'r person neu'r sefydliad a wnaeth y rhodd, ar yr amod bod y CJC yn delio gyda'r rhodd yn hollol unol â'r weithdrefn ganlynol: Rhaid i'r CJC, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn y rhodd, ei phasio i Ysgrifennydd / Ysgrifenyddes Cadeirydd y CJC ynghyd â datganiad ysgrifenedig yn nodi'r wybodaeth ym Mharagraffau C8 isod. Rhaid i'r Ysgrifennydd / Ysgrifenyddes yna ysgrifennu at y person neu'r sefydliad a wnaeth y rhodd yn diolch iddynt am y rhodd ar eich rhan ac yn rhoi gwybod iddynt eich bod wedi rhoi'r rhodd i Gronfa Elusennau'r Cadeirydd, lle y bydd yn cael ei rafflo neu werthu fel arall maes o law a'r elw'n cael ei roi i achos da wedi'i ddewis gan y Cadeirydd.

C7 **Darpariaethau Caniatâd Arbennig**

C7.1 Os dymunwch dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch, mewn sefyllfa wahanol i un o'r Sefyllfaoedd Wedi eu Gwahardd, ac sy'n unol â'r Egwyddorion Cyffredinol ym Mharagraff C3, ond nid o dan unrhyw un o'r caniatadau cyffredinol ym Mharagraff C6, gallwch ond gwneud hynny os cawsoch ganiatâd penodol blaenorol yn unol â'r weithdrefn ganlynol:

C7.2 Rhaid i chi wneud cais ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro'n egluro:

(i) natur y rhodd neu'r lletygarwch a'ch amcan o'i werth marchnad
(ii) pwy a wnaeth y gwahoddiad neu'r cynnig neu ar ran pwy
(iii) y cysylltiad sydd gennych gyda'r person neu'r sefydliad a wnaeth y cynnig neu'r gwahoddiad, fel unrhyw waith a wnaethoch i'r CJC lle'r oeddent yn rhan o hynny
(iv) unrhyw waith, caniatâd, consesiwn neu hwylustod yr ydych yn ymwybodol y gallai'r person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynnig neu'r gwahaniaeth ofyn amdano gan y CJC
(v) unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n arwain i chi gredu na fyddai derbyn y rhodd neu'r lletygarwch yn amhriodol

C7.3 Ni ddylech dderbyn y rhodd neu'r lletygarwch nes eich bod wedi cael y caniatâd priodol.

C7.4 Bydd y Swyddog Monitro'n rhoi manylion unrhyw ganiatâd mewn cofrestr fydd ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus pan fydd cyfrifon y CJC am y flwyddyn berthnasol yn cael eu harchwilio'n gyhoeddus. Ond dylid nodi nad yw hyn yn eich rhyddhau o'r ddyletswydd i gofrestru derbyn rhoddion a lletygarwch yn unol â Pharagraffau C8 a C9 isod.



**Adroddiadau**

C8 Os derbyniwch unrhyw rodd neu letygarwch y credwch sydd ag amcan-werth marchnad neu amcan-gost darparu o £25 neu fwy (neu os derbyniwch ginio

gwaith o'r math a ddisgrifir ym mharagraff C6.1 (vi) uchod os yw'r gost neu werth yn fwy na £10) rhaid i chi, cyn gynted â phosib ar ôl derbyn y rhodd neu'r lletygarwch, wneud datganiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro'n cyflwyno'r wybodaeth ym Mharagraff C7.2 uchod. Mae ffurflen i'r pwrpas hwn wedi'i hatodi i'r Cod hwn ond gallwch anfon yr un wybodaeth drwy unrhyw ddull sy'n gyfleus i chi. Bydd y Swyddog Monitro'n cadw copi o unrhyw ddatganiad o'r fath mewn cofrestr fydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd nes bydd cyfrifon y CJC am y flwyddyn dan sylw'n cael eu cymeradwyo.

C9 Hyd yn oed os yw gwerth y rhodd neu'r lletygarwch yn llai na £25 (neu'n llai na £10 yn achos cinio gwaith o'r math a ddisgrifir ym mharagraff C6.1 (vi)), os ydych yn poeni y gallai ei dderbyn gael ei gamddehongli, gallwch wneud datganiad gwirfoddol yn yr un modd i sicrhau nad oes unrhyw beth dirgel na llechwraidd am y rhodd neu'r lletygarwch.

**Rhoddion i'r CJC**

C10 Gall rhoddion i'r CJC fod ar ffurf darparu tir, nwyddau neu wasanaethau, naill i'w cadw neu brofi gyda golwg ar eu prynu yn y dyfodol, cynnig i wneud gwaith neu noddi digwyddiad wedi'i drefnu neu gefnogi gan y CJC. Ni ddylech ofyn am unrhyw rodd o'r fath ar ran y CJC heblaw os yw'r CJC wedi adnabod yn ffurfiol bod cyfle i barti allanol gyfranogi a sut fydd y cyfranogiad hwnnw'n cael ei sicrhau, er enghraifft drwy noddi perfformiad cerddorol a theatrig cyhoeddus a chyfraniadau datblygwyr o dan Gytundebau Adran 106. Os derbyniwch unrhyw gynnig o'r fath ar ran y CJC, rhaid i chi'n gyntaf ystyried a fyddai'n briodol i'r CJC dderbyn y cynnig (o ran a allai derbyn y rhodd gael ei weld i fod yn rhoi'r CJC o dan unrhyw rwymedigaeth amhriodol, ac a oes budd gwirioneddol i'r CJC a fyddai'n troi'r fantol yn erbyn unrhyw anfantais). Os nad yw'r CJC wedi eich awdurdodi i dderbyn y rhodd, dylech adrodd y cynnig yn uniongyrchol i'r Swyddog Monitro sydd wedi'i awdurdodi gan y CJC, ynghyd â'ch argymhelliad. Bydd y Swyddog Monitro yna'n ysgrifennu'n ôl at y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynnig, i gofnodi derbyn neu beidio â derbyn y rhodd, cofnodi'r rhodd i bwrpas archwilio, a sicrhau bod y rhodd yn cael ei ddefnyddio'n briodol er budd i'r CJC. Os oes gennych unrhyw bryderon am gymhellion y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynnig, neu a fyddai'n briodol i'r CJC dderbyn y rhodd, dylech drafod hyn yn uniongyrchol gyda'r Swyddog Monitro.

**Diffiniadau**

C11 Mae "rhodd neu letygarwch" yn cynnwys:

(i) rhoi nwydd neu wasanaeth am ddim
(ii) y cyfle i brynu nwydd neu wasanaeth am ddisgownt neu ar delerau mwy manteisiol na'r rhai sydd ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol
(iii) y cyfle i dderbyn nwydd neu wasanaeth sydd ddim ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol
(iv) cynnig bwyd, diod, llety neu adloniant, neu gyfle i fynychu unrhyw ddigwyddiad diwylliannol, chwaraeon neu adloniant.

C12 Mae cyfeiriadau at "werth" neu "gost" unrhyw rodd neu letygarwch yn gyfeiriadau at ba bynnag sydd fwyaf o:

(i) eich amcan o'r gost i'r person neu'r sefydliad o ddarparu'r rhodd neu gydnabyddiaeth
(ii) y pris ar y farchnad agored y byddai'n rhaid i aelod o'r cyhoedd ei dalu am y rhodd neu'r lletygarwch, pe bai ar gael yn fasnachol i'r cyhoedd, llai swm arian parod unrhyw gyfraniad y byddai angen i chi ei wneud tuag at y pris hwnnw i'r person neu sefydliad a fyddai'n darparu neu'n cynnig y rhodd neu'r lletygarwch.

C13 Mae cyfeiriadau at "Sefyllfaoedd Wedi Eu Gwahardd" yn gyfeiriadau at sefyllfaoedd lle na ddylai Aelod BYTH dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch, sef:-

(i) sefyllfaoedd lle y byddai'r rhodd neu letygarwch yn cael ei roi gan unigolyn sy'n ymgeisydd am unrhyw orchymyn, trwydded, caniatâd neu gydsyniad i'w wneud neu roi gan y CJC neu gan unrhyw wrthwynebydd i neu gefnogwr rhoi gorchymyn, trwydded, caniatâd neu gydsyniad o'r fath, neu unrhyw unigolyn arall a allai gael ei effeithio gan roi neu wrthod rhoi'r gorchymyn, trwydded, caniatâd neu gydsyniad; a
(ii) sefyllfaoedd lle y byddai'r rhodd neu letygarwch yn cael ei roi gan unigolyn sydd mewn trafodaethau â'r CJC neu wedi cyflwyno tendr neu gynnig i'r CJC yng nghyswllt unrhyw gontract neu drafodiad busnes arfaethedig i brynu neu werthu unrhyw ystâd neu fudd mewn tir neu i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i neu gan y CJC.

C14 I bwrpas y diffiniad hwn:-

mae "unigolyn" yn cynnwys unrhyw gorff cyhoeddus neu statudol, cwmni, partneriaeth, cymdeithas anghorfforedig ac unrhyw sefydliad, endid cyfreithiol neu berson cyfreithiol arall sy'n hysbys i ac yn cael eu cydnabod gan gyfraith Cymru a Lloegr;



**ATODIAD D**

At: Y Swyddog Monitro.

**Datganiad o Dderbyn Rhoddion neu Letygarwch**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| Beth oedd y rhodd neu'r lletygarwch? | |
| Beth yw eich amcan gorau o'i gost neu werth marchnad? | |

| | |
|---|---|
| Pwy wnaeth ei roi? | |
| Pryd a ble y gwnaethoch ei dderbyn? | |
| Ydy o'n dod o dan un o'r caniatadau cyffredinol yn y Cod Ymddygiad? Os felly, pa un? | |
| A gawsoch ganiatâd unrhyw swyddog cyn ei dderbyn? Os do, pwy? | |
| A oedd unrhyw amgylchiadau arbennig i gyfiawnhau derbyn y rhodd neu'r lletygarwch hwn? | |
| A oes gennych unrhyw gyswllt â'r person neu'r sefydliad y derbyniwyd y rhodd neu'r lletygarwch ganddynt? | |
| Llofnod | Dyddiad |



**RHODDION A LLETYGARWCH.**

Rhaid i Aelod sy'n "Gwneuthurwr Penderfyniadau":

beidio â derbyn unrhyw rodd na lletygarwch gan neb sy'n gysylltiedig â mater;
cofrestru unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch a wrthodwyd mewn cofrestr a gedwir i'r pwrpas hwnnw gan y Swyddog Monitro.

Rhaid i'r holl Aelodau eraill gydymffurfio â'r Protocol ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch i Aelodau a osodir allan yn Atodiad C.

"

# Adran 10 - Cyllideb, Cyllid a Chaffael

**Cyllideb**

10.1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r CJC gyfrifo ei gyllideb ar gyfer ei swyddogaethau sef:

10.1.1 Swyddogaeth y Cynllun Datblygu Strategol ("Cyllideb y Cynllun Datblygu Strategol")
10.1.2 Swyddogaethau eraill (y "Gyllideb Gyffredinol")

Rhaid cytuno ar y gyllideb erbyn 31 Ionawr pob blwyddyn fan bellaf.

10.3 Gellir gwneud diwygiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol i'r gyllideb honno.

10.4 Mae gofyniad Cyllideb y Cynllun Datblygu Strategol i'w dalu gan y Cynghorau Cyfansoddol a'r Parc Cenedlaethol – bydd pa gyfran i'w thalu gan bob un yn cael ei benderfynu drwy gytundeb unfrydol gan Aelodau'r Cynghorau a'r Aelod o Barc Bannau Brycheiniog.

10.5 Mae gofyniad Cyllideb y Cynllun Datblygu Strategol i'w dalu gan y Cynghorau Cyfansoddol a'r Parc Cenedlaethol – bydd pa gyfran i'w thalu gan bob un yn cael ei benderfynu drwy gytundeb unfrydol gan Aelodau'r Cynghorau a'r Aelod o Barc Bannau Brycheiniog.

**Y Gronfa Gyffredinol**

10.6 Rhaid i'r CJC sefydlu a chynnal cronfa fydd yn cael ei chyfeirio ati fel Cronfa Gyffredinol y CJC.

10.7 Rhaid i unrhyw symiau sy'n cael eu derbyn neu dalu gan y CJC, heblaw ar gyfer symiau allanol penodol a ddisgrifir yn y Rheoliadau Sefydlu, fod drwy Gronfa Gyffredinol y CJC.

10.8 Rhaid i'r CJC gadw cyfrif o'r symiau derbyn a'r taliadau allan o'i Gronfa Gyffredinol.

**Gweinyddiaeth Ariannol**

10.9 Bydd darpariaethau yn y Rheoliadau Sefydlu'n berthnasol i weinyddiaeth ariannol y CJC.

10.10 Bydd y CJC yn mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Ariannol cysylltiedig y Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151.

Cyfansoddiad y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion
(Dylid darllen Rhan 4 – Dogfen F)

**Caffael**

10.11 Bydd y Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn Adran 12 yn berthnasol i'r CJC.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn fwriadol wag.

# ADRAN 11 – CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL

**Contractau**

11.2 Bydd pob contract a wneir gan y CJC yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Swyddog Monitro.

**Achosion Cyfreithiol**

11.3.1 Awdurdodir y Swyddog Monitro i gychwyn, amddiffyn, cyfranogi mewn neu setlo unrhyw achos cyfreithiol a chymryd pob cam angenrheidiol mewn unrhyw achos lle y mae angen cymryd camau o'r fath i roi grym i benderfyniadau'r CJC, neu os yw'r Swyddog Monitro o'r farn bod angen cymryd camau o'r fath i warchod buddiannau'r CJC;

11.3.2 Mae gan y Swyddog Monitro bwerau dirprwyol i awdurdodi Swyddogion i ymddangos yn y llys ar ran y CJC.

**Dilysrwydd Dogfennau**

11.4.1 Os oes angen unrhyw ddogfen ar gyfer gweithdrefn neu achos cyfreithiol ar ran y CJC, bydd yn cael ei llofnodi gan y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro oni bai fod unrhyw ddeddfiad neu rywbeth tebyg yn awdurdodi neu'n gofyn, neu os yw'r CJC wedi rhoi'r awdurdod gofynnol, i berson arall wneud hynny;

Mae’r dudalen hon wedi’i gadael yn fwriadol wag.

# ADRAN 12 – RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU

**Geirfa:-**

12.1.1 Mae "Tendr" yn golygu bid neu gynnig wedi'i selio i gyflenwi neu dderbyn nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu i wneud gwaith.

12.1.2 Mae "Contract" yn golygu unrhyw gontract gan gynnwys Archeb Brynu neu archeb arall i gyflenwi neu werthu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu i wneud gwaith ond ac eithrio contractau cyflogaeth neu i werthu a phrynu unrhyw fudd mewn tir.

12.1.3 Mae "Dyfynbris" yn golygu cynnig ysgrifenedig a wneir gan gyflenwr / contractwr mewn ymateb i gais a dderbyniwyd gan y CJC yng nghyswllt cyflenwi a / neu werthu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu i wneud gwaith lle y mae eu gwerth yn is na'r rhai yn Rheol 12.46.

12.1.4 Mae "Archeb Brynu" yn golygu unrhyw archeb a osodir ar ffurflen(ni) cymeradwy'r CJC wedi'i llofnodi gan un o swyddogion awdurdodedig priodol y CJC, sy'n cynnwys defnyddio ffurflenni electronig cymeradwy, i gyflenwi neu werthu nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau neu i wneud gwaith.

121.5 Mae "cydnabyddiaeth" yn golygu cyfanswm y gwerth (ariannol neu fel arall) sy'n daladwy gan neu i'r CJC o dan y Contract neu unrhyw gyfres neu gyfuniad o gontractau y mae'n rhan ohono, y bydd ei werth yn cael ei gyfuno i bwrpas y trothwyon a nodir yn Rheolau 12.45 i 12.47 .

12.1.6 Mae "Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol" yn golygu'r tendr neu'r dyfynbris sydd, wrth ystyried nifer o feini prawf gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i bris, ansawdd, darparu, haeddiant technegol a chydnawsedd, perfformiad, cymorth a chost-effeithiolrwydd yn gyffredinol, yn cynnig yr ateb mwyaf economaidd fanteisiol i'r CJC.

12.1.7 "Eglurhad Pellach" – Unwaith fydd y tendrau a / neu'r dyfynbrisiau wedi eu derbyn, efallai y bydd angen cael cyswllt pellach gyda darpar gontractwyr cyn eu gwerthuso'n llawn. Bydd Eglurhad Pellach naill ai ar ffurf cyfnewid dogfennau neu gyfarfod wedi'i gofnodi gyda darpar gontractwyr i egluro agweddau ar dendr a / neu ddyfynbris a chywiro camgymeriadau posib.

12.1.8 Mae "Cytundeb Fframwaith" yn golygu trefniant gydag un neu fwy o gyflenwyr i ddarparu nwyddau, deunyddiau, gwaith neu wasanaethau ac sydd yn ei le dros gyfnod penodol o amser ond heb warantu nifer yr archebion unigol na'r gydnabyddiaeth fydd yn daladwy dros y cyfnod. Bydd y nwydd / gwasanaeth yn cael ei brynu / ei gaffael pan fo'i angen dros gyfnod y Fframwaith / Contract.

12.1.9 Mae'r "Gofrestr Eithriadau" yn golygu'r gofrestr sy'n cael ei chadw gan Swyddog Monitro'r CJC ar gyfer ceisiadau am eithriadau o dendro'n unol â Rheolau 12.57 i 12.60.

12.1.10 Mae "Contractwr" yn golygu trydydd parti y mae'r CJC wedi llunio contract gyda nhw i gyflenwi neu werthu nwyddau, gwasanaethau neu waith.

12.1.11 Mae "Cynllun Caffael" yn golygu cynllun neu fethodoleg i sicrhau bod trafodion caffael mwy neu fwy cymhleth yn digwydd mewn ffordd sy'n

debygol o gynnig ateb gwerth gorau gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i'r elfennau canlynol:

12.1.11.1 cadarnhad o'r gyllideb sydd ar gael
12.1.11.2 cadarnhau nad oes contract corfforaethol addas ar gyfer nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith tebyg mewn bodolaeth yn barod
12.1.11.3 achos busnes (lle bo'n berthnasol) ar gyfer y trafodiad caffael o ran ei gyfraniad i waith yr adran berthnasol a thuag at gyflawni amcanion corfforaethol y CJC





12.1.11.4 y fethodoleg gaffael (gan gynnwys cymhwysiad cyfreithiau'r DU)
12.1.11.5 adnabod swyddog arweiniol
12.1.11.6 adnabod problemau gyda gweithredu'r prosiect (lle bo'n briodol)
12.1.11.7 adnabod gwerthuswyr
12.1.11.8 adnabod rheolwr contract
12.1.11.9 trefniadau ar gyfer cynllun pontio / parhad busnes / cynlluniau symudiadau
12.1.11.10 asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb lle bo'n briodol

**Egwyddorion Blaenoriaethol**

12.2 Ni fwriedir i'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn wrthdaro â chyfreithiau'r DU. Bydd gofynion cyfreithiol ehangach yn cael blaenoriaeth ar y rheolau hyn bob amser.

12.3 Mae'r rheolau hyn yn ymwneud ag ymddygiad sefydliadol wrth gaffael a chyflawni gwaith masnachol. Afraid dweud bod gweithgarwch o'r fath yn cael ei wneud i gefnogi a darparu polisïau ac amcanion ehangach y CJC.

12.4 Nid oes unrhyw beth yn y rheolau hyn i atal y CJC rhag cyflawni ei ddyletswydd i wario arian cyhoeddus yn ddoeth. Rhaid i swyddogion geisio sicrhau gwerth am arian bob amser.

12.5 Rhaid i natur a chwmpas y gweithgarwch caffael fod yn briodol i natur a gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael.

12.6 Wrth reoli caffael, gwneir pob ymdrech i wneud y mwyaf o adnoddau'r CJC a hynny'n unol â chynlluniau strategol y CJC.

12.7 Rhaid gweithredu gyda'r gonestrwydd mwyaf bob amser.

12.8 Ar gyfer contractau o natur strategol bwysig neu wleidyddol sensitif, dylai swyddogion:

12.8.1 gofyn am benderfyniad gan y CJC a ddylid gwahodd tendrau o'r fath drwy strategaeth a gymeradwyir gan swyddogion; a
12.8.2 sicrhau nad yw Aelodau'n rhan o'r broses o werthuso tendrau ond, lle bo'n briodol, gall Aelodau fod yn rhan o'r cam dylunio gwasanaeth neu'r cam comisiynu cyn dechrau'r broses dendro.

**Egwyddorion Cyffredinol**

**Cwmpas y Rheolau Gweithdrefnau Contractau**

12.9 Amcan y gweithdrefnau hyn yw sicrhau bod y CJC yn llunio contractau i gyflenwi a / neu werthu nwyddau / deunyddiau a gwasanaethau neu i wneud gwaith ar y telerau mwyaf economaidd manteisiol drwy ddilyn arferion a gweithdrefnau moesegol, cyson a thryloyw sydd hefyd yn cydymffurfio â'r gofynion gwerth gorau a gyda Strategaeth Gomisiynu a Chaffael y CJC.

12.10 Mae gan swyddogion bwerau dirprwyol i lunio contractau ar ran y CJC, yn amodol i ddilyn y Rheolau Gweithdrefnol hyn ar yr amod bod y swyddogion cyn gwneud hynny'n fodlon bod yr arian cyllideb angenrheidiol yn ei le ac y bydd Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y CJC yn cael eu dilyn.

12.11 Os gall darparwr neu uned fasnachu fewnol ddarparu'r nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith, gellir defnyddio'r darparwr neu'r uned fasnachu fewnol heb orfod dilyn y Rheolau Gweithdrefnol hyn.



12.12 Os nad oes darpariaeth fewnol neu os oes rhesymau gwasanaeth neu amgylchiadau priodol i chwilio am gystadleuaeth, rhaid ufuddhau i'r Rheolau Gweithdrefnol hyn bob tro y mae'r CJC yn caffael contract neu'n cynnig caffael a rhaid dilyn cyfreithiau'r DU lle bo'n berthnasol a rhaid i unrhyw gontract neu gyfres o gontractau sy'n debygol o fod yn werth mwy na'r trothwyon yn y DU o bryd i'w gilydd (ar hyn o bryd £213,477 ar gyfer gwasanaethau a chyflenwadau a £5,336,937 ar gyfer gwaith) gael eu hadrodd i Swyddog Monitro'r CJC cyn gwneud unrhyw beth.

**Cydymffurfio**

12.13 Rhaid i bob contract sy'n cael ei lunio gan y CJC o dan neu yng nghyswllt swyddogaethau'r CJC gydymffurfio:

12.13.1 â'r holl ddarpariaethau statudol perthnasol
12.13.2 â'r rheolau perthnasol ar gaffael yn y DU
12.13.3 â chyfansoddiad y CJC gan gynnwys:

12.13.3.1 y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn; a
12.13.3.2 Rheolau Gweithdrefnau Ariannol; a
12.13.3.3 Cynlluniau Dirprwyo; ac
12.13.3.4 Amcanion strategol y CJC; a
12.13.3.5 Strategaeth a pholisïau comisiynu a chaffael y CJC.

12.14 Os nad yw swyddogion yn cydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn neu ganllawiau cysylltiedig sy'n cael eu mabwysiadu gan y CJC o bryd i'w gilydd, gall arwain at gamau disgyblu.

12.15 Gellir rhoi nifer o drefniadau prynu yn eu lle o fewn y CJC. Mae defnyddio'r trefniadau hyn yn gywir, yn ôl cyngor y Swyddog Monitro, yn ddigon i sicrhau bod swyddogion yn cwrdd â'u cyfrifoldebau cydymffurfio. Gallai trefniadau o'r fath gynnwys:

12.15.1 cytundebau fframwaith sydd ar gael i'w defnyddio gan y CJC

12.15.2 trefniadau caffael a weithredir gan, neu drwy ymgynghori gyda'r Swyddog Monitro

12.15.3 systemau a chatalogau electronig sydd ar gael i'w defnyddio gan y CJC

12.16 Dim ond swyddogion awdurdodedig sy'n gallu gweithredu unrhyw gaffael ar ran y CJC.

12.17 Dylid cofnodi pob penderfyniad a wneir ynglŷn â'r prosesau comisiynu a chaffael.

**Caffael gan Ymgynghorwyr**

12.18 Os yw'r CJC yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran gydag unrhyw gaffael, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod yr ymgynghorwyr yn dilyn y broses gaffael yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn, gan gynnwys adrodd unrhyw gaffael i'r Swyddog Monitro.

12.19 Nid yw unrhyw ymgynghorydd i wneud unrhyw benderfyniad ar ddyfarnu contract neu i bwy i'w ddyfarnu. Rhaid i Swyddog y CJC sy'n gyfrifol am y caffael wneud y penderfyniadau hyn.



Rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau bod perfformiad yr ymgynghorydd o ran caffael yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn a chyfraith y DU.

12.20 Os yw'r CJC yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran yng nghyswllt unrhyw gaffael, rhaid i'r ymgynghorydd ddatgan i'r Prif Weithredwr unrhyw wrthdaro budd posib a allai godi cyn dechrau ar y broses gaffael.

12.21 Os yw'r Prif Weithredwr yn credu bod y gwrthdaro budd yn sylweddol, ni ddylid gadael i'r ymgynghorydd fod yn rhan o'r broses gaffael.

12.22 Os cyflogir ymgynghorwyr neu swyddogion technegol i oruchwylio contractau, rhaid iddynt hwythau hefyd ddilyn Rheolau Gweithdrefnau Contractau a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y CJC. Rhaid i'w contract gwasanaeth gynnwys y gofynion hyn.

**Caffael Ymgynghorwyr**

12.23 Er mwyn osgoi amheuaeth, rhaid penodi ymgynghorwyr yn unol â gofynion y Rheolau Gweithdrefnau Contractau a'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (adrodd costau) hyn.

**Datgan Budd**

12.24 Ni ddylai unrhyw Aelod, Swyddog nac Asiant i'r CJC ddefnyddio eu swydd yn amhriodol i sicrhau budd personol na phreifat o unrhyw gontract wedi'i lunio gan y CJC.

12.25 Rhaid i Aelodau a Swyddogion y CJC gydymffurfio â gofynion Adran 117 Deddf Llywodraeth Leol 1972 o ran datgan buddiannau preifat mewn contractau gyda'r CJC.

12.26 Rhaid i fuddiannau sy'n cael eu datgan gan Aelodau gael eu hadrodd i'r Swyddog Monitro i'w cynnwys yn y gofrestr briodol.

**Caffael Electronig**

12.27 Gellir ond cyflawni unrhyw broses gaffael electronig (e.e. e-dendro) yn defnyddio system electronig wedi'i chymeradwyo gan y Swyddog Monitro.

**Rheoli Gwariant**

12.28 Rhaid i'r Swyddog Adran 151 gadw rhestr o enwau swyddogion sy'n gallu caffael neu werthu cyflenwadau, nwyddau neu waith ar ran y CJC, gan nodi'r uchafswm ariannol ar gyfer pob trafodiad yn erbyn pob enw.

**Gofynion Cyn-Gontractio**

12.29 Cyn dechrau proses gaffael risg uchel / gwerth uchel neu sensitif o dan y Rheolau Gweithdrefnol hyn, dylai'r swyddog drafod gyda'r Swyddog Monitro i sicrhau bod y canlynol wedi cael sylw:

12.29.1 a ddilynwyd y broses gomisiynu briodol gyda phob carreg filltir wedi'i chymeradwyo a'i chadarnhau'n briodol;

12.29.2 effaith y cynnig ar wasanaethau eraill y CJC;

12.29.3 a oes digon o gyllid wedi'i gytuno / yn ei le ar gyfer y gwariant disgwyliedig;





12.29.4 a oes Cynllun Caffael wedi'i gynhyrchu drwy drafod gyda'r Swyddog Monitro ar gyfer contractau sy'n rhan o'r Blaengynllun Gwaith.

# ADRAN 12 – RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACTAU

**Blaengynllun Gwaith**

12.30 Rhaid i'r swyddog perthnasol sicrhau, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, bod yr holl ddigwyddiadau caffael yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) fanylion y gweithgaredd caffael disgwyliedig, cynllun caffael priodol, gwariant a chynilion targed.

**Caffael Cynaliadwy**

12.31 Ar gyfer pob contract o £150,000 neu fwy, dros dymor y contract, rhaid i'r CJC ystyried y materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a'r elw ar fuddsoddiad drwy fabwysiadu dull budd cymunedol o weithredu wrth wneud penderfyniadau caffael strategol, yn defnyddio templed yr Asesiad Risg Cynaliadwy (SRA).

**Cytundebau Prosesu Data**

12.32 Os yw caffael yn cynnwys datgelu data personol o fewn ystyr Adran 1 Deddf Diogelu Data 1988, rhaid i'r swyddog perthnasol sicrhau bod pob proses gaffael, lle bo'n briodol, yn cynnwys Cytundeb Prosesu Data.

**Telerau ac Amodau Contractau**

12.33 Rhaid llunio pob contract yn unol â thelerau ac amodau'r CJC a rhaid datgan hyn ar bob cais am ddyfynbris a gwahoddiad i dendro. Bydd telerau ac amodau'r CJC ar gael ar fewnrwyd y CJC a bydd dolen yn cael ei darparu i'r pwrpas hwn ar bob cais am ddyfynbris, gwahoddiad i dendro ac archeb brynu.

12.34 Rhaid i unrhyw eithriad i'r rheol hon gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Swyddog Monitro'r CJC.

**Contractau Ennill Refeniw**

12.35 Rhaid i unrhyw gontract yn ymwneud ag ennill refeniw gael ei gyfeirio at y Swyddog Monitro cyn gynted â phosib ac ym mhob achos cyn i'r ymarfer caffael ddechrau.

**Cyfleoedd Adfywio**

12.36 Rhaid i'r swyddog perthnasol sicrhau bod pob cynllun comisiynu a / neu gaffael wedi ystyried y cyfleoedd adfywio ar gyfer pob cynnig.

**Dyfynbrisiau a Thendrau**

12.37 Bob amser yn ystod y broses gaffael, rhaid i'r CJC sicrhau bod pob tendrwr yn cael ei drin yn gyfartal ac mewn ffordd ddi-wahaniaethol a thryloyw.

12.38 Mae'n ofynnol i swyddogion ystyried gwariant cronnus defnyddio'r un cyflenwr yn rheolaidd i sicrhau nad yw'r trothwyon tendro o dan Reolau 12.42 i 12.44 yn cael eu torri.

**Trothwyon**

12.39 Nid yw trothwyon caffael yn berthnasol o dan y cytundebau fframwaith sydd ar gael i'w defnyddio gan y CJC.

12.40 Y gwerthoedd o dan Reolau 12.42 i 12.44 fydd cyfanswm gwerth neu werth cyfunol y contract dros gyfnod cyfan y contract, nid dim ond y swm blynyddol.

12.41 Hyd yn oed na thorrir y trothwyon o dan Reolau 12.42 a 12.43, gall y Swyddogion er hynny ddefnyddio un o'r gweithdrefnau tendro ffurfiol, lle bo'n briodol am resymau gwasanaeth priodol.

**Pob Nwydd a Gwasanaeth ac eithrio Gwaith**

12.42 Hyd at £5,000, nid oes ond angen dangos bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau gan ddilyn yr egwyddorion yn y Rheolau Gweithdrefnol hyn ac yn y ddogfen Canllawiau i Swyddogion.

12.43 Rhwng £5,000 a £49,000, dylid dilyn ysbryd y Rheolau Gweithdrefnol hyn a lle bo'n ymarferol rhaid cael o leiaf tri dyfynbris cystadleuol ysgrifenedig gan gwmnïau a fydd, o ddewis, wedi eu cofrestru ar wefan gaffael genedlaethol (Gwerthwch i Gymru ar hyn o bryd). Neu gallai'r gofynion gael eu hysbysebu'n agored ar wefan gaffael genedlaethol (Gwerthwch i Gymru ar hyn o bryd). Rhaid cadw dyfynbrisiau o'r fath am gyfnod o ddim llai na dwy flynedd o ddyddiad dyfarnu'r Contract.

12.44 Gyda chontract £50,000 neu fwy, rhaid tendro a hysbysebu ar wefan gaffael genedlaethol (Gwerthwch i Gymru ar hyn o bryd). Os yw'r contract yn werth mwy na throthwy'r DU, rhaid tendro a hysbysebu'r broses gaffael yn briodol. Rhaid i'r swyddog perthnasol sicrhau yr ymgynghorir gyda'r Swyddog Monitro cyn hysbysebu.

12.45 Os yw'r weithdrefn deialog gystadleuol yn cael ei mabwysiadu, rhaid gwahodd o leiaf dri thendr.

**Contractau Asiantaeth / Consortiwm**

12.46 Os yw trefniant Asiantaeth / Consortiwm yn ei le rhwng y CJC a'r Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol eraill neu gorff cyhoeddus arall, yna ni ystyrir bod y Rheolau Gweithdrefnol hyn wedi cael eu torri os yw'n ofynnol i'r CJC ddilyn Rheolau Gweithdrefnol neu Godau Ymarfer yr Asiantaeth, Awdurdod Lleol neu'r corff cyhoeddus hwnnw.

**Ffurf Contractau**

12.47 Yn amodol i Reol 12.48 isod, rhaid i bob contract gael ei lunio neu gadarnhau'n ysgrifenedig a'i lofnodi gan bob parti. Bydd llofnodion electronig gyda thrywydd archwilio wedi'i sefydlu drwy feddalwedd wedi'i chymeradwyo gan y Swyddog Monitro'n dderbyniol. Dim ond y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro sy'n gallu llofnodi contractau risg / gwerth uchel neu sensitif. Gall swyddogion ddirprwyo awdurdod i lofnodi unrhyw gontract arall i swyddogion AR YR AMOD bod y dirprwyo'n cael ei wneud yn ysgrifenedig a'i gofnodi mewn cofrestr i'w chadw gan bob swyddog.

12.48 Caniateir contractau sy'n cael eu llunio drwy system Archebion Prynu Electronig gymeradwy'r CJC AR YR AMOD bod y swyddog awdurdodi wedi'i benodi'n unol â'r Rheoliadau Ariannol.



12.49 Oni bai fod y Swyddog Monitro'n ystyried ei fod yn ddiangen, rhaid i bob contract gynnwys y telerau a'r amodau sylfaenol canlynol o leiaf:

12.49.1 disgrifiad / manyleb o'r gwaith, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau sydd i'w darparu neu gyflawni;

12.49.2 y pris neu gydnabyddiaeth tâl arall sydd i'w dalu, dull ac amseru'r taliadau, a pha mor aml a chyfrifiad o unrhyw amrywiad neu gynnydd;

12.49.3 erbyn pryd neu dros ba dymor y mae'r contract i gael ei gyflawni;

12.49.4 yr hawl gan y CJC i:

12.49.4.1 adennill neu ddal taliad yn ôl mewn achos o ddiffygdalu;

12.49.4.2 canslo, atal dros dro neu derfynu'r contract i gyd neu'n rhannol;

12.49.4.3 darparu'r gwasanaeth ei hun neu newid y contractwr;

12.49.4.4 adennill yr holl gostau cysylltiedig.

12.49.5 sicrhau indemniti gan y contractwr i yswirio yn erbyn colledion neu ddyledion a achosir gan y CJC o ganlyniad i weithredu neu esgeulustod y contractwr;

12.49.6 ei gwneud yn ofynnol bod gan y contractwr ddigon o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus / Cyflogwr ac unrhyw yswiriant arall perthnasol i'r contract;

12.49.7 ei gwneud yn ofynnol bod y contractwr yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, rheoliadau a chodau ymarfer ayyb sy'n berthnasol i'r contract;

12.49.8 dim hawl i'r contractwr aseinio neu is-osod y contract heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y CJC;

12.49.9 y gall y CJC ganslo'r contract ac adennill unrhyw golledion o ganlyniad os yw'r contractwr neu ei weithwyr neu asiantau, yn wybod neu'n ddiarwybod i'r contractwr, yn:

12.49.9.1 gwneud unrhyw beth amhriodol i ddylanwadu ar y CJC i ddyfarnu'r contract. (yn hyn o beth, tynnir sylw gweithwyr y CJC at Gôd Ymddygiad Aelodau'r CJC sy'n rhaid ufuddhau iddo);

12.49.9.2 cyflawni trosedd o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 neu Adran 117(2) Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng nghyswllt y contract.

12.49.10 sy'n destun cyfreithiau Cymru a Lloegr.

12.50 Rhaid hefyd ystyried cynnwys a pha mor berthnasol yw cymalau'n ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data, cynaliadwyedd, ffioedd cadw gwasanaeth, bondiau neu warantau a bod angen cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg a Chynllun Iaith Gymraeg y CJC ei hun.

12.51 Ni ddylid derbyn Telerau ac Amodau Safonol contractwyr heb ofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro.



**Tendrau**

12.52 Ac eithrio fel y nodir yn Rheol 17.53 isod, os disgwylir yn rhesymol i'r gydnabyddiaeth tâl sy'n daladwy o dan unrhyw gontract:

12.52.1 fod dros £100,000 yn achos contract am weithredu cynlluniau adeiladu neu beirianneg sifil; neu

12.52.2 fod dros £50,000 yn achos unrhyw gontract arall am gyflenwi nwyddau, deunyddiau a gwasanaethau neu am wneud gwaith (heblaw cynlluniau adeiladu y cyfeirir atynt o dan Reol 17.55.1 uchod)

rhaid i'r Swyddogion ddewis contractwyr drwy un o'r dulliau canlynol:

12.52.2.1 tendro drwy hysbyseb o dan Reolau 12.60 i 12.62;

12.52.2.2 tendro dethol o restr o gontractwyr cymeradwy wedi'i llunio'n unol â chyfreithiau caffael y DU o dan Reol 12.63.

**Eithriadau o Dendro**

12.53 Yn amodol i Reolau 12.54 a 12.55 isod, o bryd i'w gilydd gall contractau sy'n werth llai na throthwy'r DU gael eu hawdurdodi ymlaen llaw gan y Swyddog Adran 151, hyd yn oed os na chawsant eu caffael yn unol â Rheol 12.54, yn yr amgylchiadau canlynol:

12.53.1 i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith os yw'n ymddangos ym marn ysgrifenedig y Swyddog mai dim ond un cyflenwr sydd ar gael heb ddewis derbyniol arall ac mae'n cydymffurfio â Rheol 12.55 isod;

12.53.2 i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith os yw'r CJC wedi penderfynu safoni drwy brynu gan ddim ond un cyflenwr, neu os ym marn ysgrifenedig y Swyddog y mae angen gwasanaethau, nwyddau neu ddeunyddiau arbenigol y gall ond un cyflenwr eu darparu ac mae'n cydymffurfio â Rheol 12.55 isod;

12.53.3 os oes angen, ym marn ysgrifenedig y Swyddog, ehangu, ychwanegu at neu gynnal y nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau a dim ond y contractwr neu'r cyflenwr gwreiddiol sy'n gallu gwneud hyn yn foddhaol ac mae'n cydymffurfio â Rheol 12.55 isod;

12.53.4 i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith ar frys os yw'r Swyddog wedi ardystio'n ysgrifenedig y byddai'r broses dendro'n atal eu cyflenwi o fewn yr amser angenrheidiol. Fel rheol, ni ddylai brys o'r fath fod wedi cael ei greu gan ddiffyg gweithredu blaenorol neu ddiffyg blaengynllunio, ond os yw'r brys wedi'i greu am y rhesymau hyn, gall y Swyddog Adran 151 er hynny gymeradwyo'r cais gydag unrhyw amodau ag y gwêl yn briodol i sicrhau cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnol hyn yn y dyfodol;

12.53.5 i gyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau ail law neu a ddefnyddiwyd yn flaenorol os yw'r Swyddog wedi ardystio'n ysgrifenedig bod y farchnad am nwyddau neu ddeunyddiau o'r fath yn un y byddai'n afresymol tendro ar ei chyfer neu os yw'r amser sydd ei angen i gwblhau'r broses dendro'n debygol o arwain at golli cyfle i brynu eitem ail law neu a ddefnyddiwyd yn flaenorol;





12.53.6 i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith mewn unrhyw amgylchiadau eraill lle y mae'r Swyddog wedi ardystio'n ysgrifenedig bod rhesymau gwasanaeth priodol dros beidio â

thendro i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith ac yn fodlon na fydd unrhyw anfantais economaidd i'r CJC o beidio â thendro.

12.54 Rhaid i geisiadau am eithriadau o dan Reolau 12.53 gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Swyddog Adran 151. Ni ystyrir bod unrhyw eithriad wedi'i gytuno nes cael caniatâd ysgrifenedig gan y Swyddog Adran 151.

12.55 Os yw Swyddog yn gwneud cais am eithriad o dan Reolau 12.53.1 i 12.53.1 uchod, rhaid i'r Swyddog ardystio'n ysgrifenedig bob tro bod manteision ac anfanteision dewis un cyflenwr wedi cael eu cofnodi.

12.56 Rhaid i bob eithriad a ganiateir gan y Swyddog Adran 151 yn unol â Rheolau 12.53 a 12.54 gael ei gofnodi yn y Gofrestr Eithriadau.

12.57 Gellir hefyd llunio contract heblaw'n unol â Rheol 12.52:

12.57.1 os yw'r contract wedi'i ddyfarnu drwy Gonsortiwm, Cymdeithas neu gorff tebyg y mae'r CJC, am y tro, yn aelod ohono neu ohoni neu'n gallu ei ddefnyddio; neu .

12.57.2 os yw'r CJC yn ystyried bod amgylchiadau arbennig sy'n cyfiawnhau hepgor y Rheolau Gweithdrefnol ac yn awdurdodi'r hepgor drwy benderfyniad.

12.58 Yn amodol i Reol 12.55, rhaid i bob contract gael ei lywodraethu gan Amodau Contract y CJC ei hun (a allai gael eu hamrywio o bryd i'w gilydd a'r amrywiadau a / neu'r diwygiadau hynny'n gyson ac unol â Strategaeth Gomisiynu a Chaffael y CJC) neu unrhyw ffurfiau eraill ar gontract a allai gael eu cymeradwyo o bryd i'w gilydd gan y Swyddog Monitro.

12.59 Gallai'r CJC ddefnyddio, lle bo'n briodol, Telerau ac Amodau'r Contractwr os yw'r Swyddog Monitro'n caniatáu hynny ac ar yr amod eu bod yn cynnwys, neu'n cael eu diwygio i gynnwys, y materion y cyfeirir atynt yn Rheol 12.53.

**Tendro drwy Hysbysebu**

12.60 Yn amodol i Reolau 12.61 a 12.62 isod, rhaid hysbysebu pob cyfle i dendro ar wefan gaffael genedlaethol (Gwerthwch i Gymru ar hyn o bryd) ac yn unol â chyfreithiau caffael y DU lle bo'n briodol.

12.61 Gallai hysbyseb ymddangos yn y wasg leol os, ym marn y Swyddog, mae'n annhebygol y bydd ymateb boddhaol o ran natur y nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith sy'n cael eu caffael.

12.62 Gallai'r hysbyseb hefyd ymddangos mewn cylchgrawn masnach priodol a / neu bapur newydd cenedlaethol neu gyfryngau eraill os yw hyn, ym marn y Swyddog, yn debygol o fod yn fanteisiol i'r CJC.

**Tendro Dethol o Restr o Gontractwyr Cymeradwy**

12.63 Bwriad y rhestri hyn yw sicrhau bod contractwyr cymwys ar gael i wneud gwaith sydd angen ei wneud yn rheolaidd ac y gallai nifer o gontractau'r flwyddyn gael eu rhoi ar ei gyfer (er enghraifft gwaith cynnal a chadw priffyrdd).

**Creu Rhestri Cymeradwy**

12.64 Os yw Swyddog am resymau gweithredol yn credu mai'r ffordd orau o gaffael nwyddau a / neu wasanaethau yw drwy ddethol rhestr o gontractwyr cymeradwy, rhaid i'r Swyddog sicrhau bod y rhestr o gontractwyr yn cael ei llunio'n unol â chyfreithiau caffael y DU a dim ond ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro.

**Gwahodd Tendrau**

12.65 Rhaid i bob Gwahoddiad i Dendro (ITT) gynnwys, o leiaf, y dogfennau neu'r wybodaeth ganlynol neu drwy Gytundeb Fframwaith:

12.65.1 disgrifiad / manyleb y gwaith, deunyddiau, nwyddau neu wasanaethau sydd i'w darparu / cyflenwi ynghyd â dyddiad neu dymor darparu gofynnol;

12.65.2 telerau ac amodau perthnasol (gan gynnwys Tystysgrifau o ran Canfasio a Thendro Cydgynllwynio) yn unol â Rheol 17.58;

12.65.3 Ffurflen Dendro'n nodi dros ba gyfnod y mae'r Tendr ar agor i gael ei dderbyn;

12.65.4 y meini prawf a ddefnyddir i werthuso a dyfarnu'r Contract, fydd fel arfer yn cynnwys cyfeiriad at y tendr mwyaf economaidd fanteisiol ac yn achos contractau i'w dyfarnu'n unol â throthwyon y DU a meini prawf pwysoli;

12.65.5 y ffaith nad yw'r CJC yn ymrwymo ei hun i dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr;

12.65.6 cyfres o Gyfarwyddiadau i Dendrwyr yn nodi trefniadau gweinyddol y broses gaffael (gan gynnwys y dyddiad cau i dendro),

12.66 Rhaid i bob ITT nodi y bydd tendr ond yn cael ei ystyried os yw'n cyrraedd erbyn y dyddiad a'r amser dyledus ac yn y ffurf y dylid dychwelyd y tendr.

12.67 Gallai tendrau papur ond cael eu gwahodd ar ôl derbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro.

**Derbyn ac Agor Tendrau**

12.68 Rhaid cofnodi pob tendr sy'n cyrraedd ar ddyddiad eu hagor a'u cadw am gyfnod o dair blynedd. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys enw'r tendrwr,

natur y nwyddau, gwasanaethau, deunyddiau neu waith, y dyddiad, pris neu'r gydnabyddiaeth tâl (lle bo'n bosib), ac enw'r Swyddog.



12.68.1 Gallai'r Swyddog ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro priodol, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, ganiatáu ystyried tendr wedi'i gyflwyno ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tendro AR YR AMOD:

12.68.1.1 ei bod / ei fod yn fodlon y byddai hynny er budd ariannol gorau i'r CJC; a

12.68.1.2 ei bod / ei fod yn fodlon nad yw'r tendrwr wedi sicrhau mantais dros y tendrwyr eraill drwy fethu â chyflwyno tendr cyn y dyddiad cau ar gyfer tendro; a

12.68.1.3 y cymerir y penderfyniad i dderbyn y tendr cyn agor gweddill y tendrau.

12.68.2 Rhaid trin tendr a gyflwynwyd yn briodol yn unol â'r ITT (neu a fyddai wedi cael ei gyflwyno'n briodol oni bai am fai y mae'r CJC a / neu ei gyflenwr Technoleg Gwybodaeth yn gyfrifol amdano), ond sydd heb ei gofnodi am ryw reswm, yn y ffordd ganlynol:

12.68.2.1 os yw'n cael ei gyflwyno i'r Swyddog Monitro cyn agor y tendrau eraill ond ar ôl y dyddiad cau, bydd yn cael ei ystyried ynghyd â'r gweddill;

12.68.2.2 os yw'n cael ei gyflwyno i'r Swyddog Monitro ar ôl agor y tendrau eraill ac os yw'r Swyddog Monitro'n fodlon bod y tendr wedi cyrraedd y CJC yn unol â'r ITT, gall gael ei ystyried.

**Gwerthuso Tendrau**

12.69 Yn achos y rhan fwyaf o gontractau a phob un a lywodraethir gan gyfreithiau caffael y DU, dylid defnyddio gweithdrefn werthuso ar sail cymhareb ansawdd pris. Os na ddefnyddir cymhareb ansawdd pris, rhaid cael caniatâd gan y Swyddog Monitro.

12.70 Rhaid i bob gwerthusiad sgorio'r tendrau'n wrthrychol yn defnyddio meini prawf wedi eu pwysoli yn nhrefn pwysigrwydd a'u cyhoeddi yn y ITT ac fel arfer yn cynnwys costio oes gyfan sy'n golygu ystyried y gost lawn o gynnal a chadw, datgomisiynu a gwaredu.

12.71 Rhaid cadw'n gaeth bob amser a thrwy gydol y broses werthuso at y meini prawf a'r pwysoliadau hyn.

12.72 Dylai'r Swyddog adnabod aelodau'r panel gwerthuso ar y cyfle cyntaf posib a, lle bynnag y bo'n bosib, dylid eu cynnwys mewn penderfynu ar y meini prawf gwerthuso, y pwysoliadau a'r cwestiynau sydd i'w gofyn i'r Tendrwyr.

12.73 Rhaid hyfforddi pob gwerthuswr yn briodol mewn sut i ddefnyddio'r broses werthuso electronig a'r drefn sgorio berthnasol.

**Dyfarnu Tendrau**

12.74 Gall Swyddogion gymeradwyo diwygiad i dendr ar ôl iddo gyrraedd a chyn ei dderbyn dim ond i gywiro gwall diffuant, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro. .

12.75 Gall Swyddogion dderbyn tendr sydd heb fod yr un isaf os nad yw'r nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith y tendrwyd ar eu cyfer ar gael i'w cyflenwi'n syth gan y tendr buddugol sydd wedi torri ei gontract ac ar yr amod





(a) y darperir yn benodol ar gyfer hynny yn y dogfennau tendro, a (b) os penderfynir ym marn Swyddogion ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Monitro y gellir dyfarnu'r contract i'r tendrwr a ddaeth yn ail

**Dibriffio**

12.76 Rhaid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i dendrwyr drwy hysbysiad dyfarnu contract. Ar gyfer contract wedi'i ddyfarnu sydd dros drothwy'r DU, rhaid anfon hysbysiad dyfarnu contract i gael ei chyhoeddi yn y cyhoeddiad perthnasol dim hwyrach na 30 diwrnod ar ôl dyfarnu'r contract ac ar ffurf hysbysiad wedi'i ragnodi yn y rheoliadau perthnasol.

12.77 Rhaid i'r swyddog cyfrifol sicrhau o fewn 15 diwrnod i'r dyddiad y mae'r CJC yn derbyn cais ysgrifenedig gan unrhyw gyflenwr aflwyddiannus (yn y cam dethol neu dendro) eu bod yn hysbysu'r cyflenwr hwnnw o'r rhesymau dros fod yn aflwyddiannus, ac os oedd y cyflenwr yn aflwyddiannus yn y cam tendro, rhaid i'r swyddog cyfrifol eu hysbysu o nodweddion a manteision cymharol y tendrwr llwyddiannus yn ogystal ag enw'r person y dyfarnwyd y contract iddynt.

12.78 Dylid cyfeirio ceisiadau gan dendrwyr aflwyddiannus i gael cyfarfodydd dibriffio wyneb yn wyneb i'r Swyddog Monitro.

12.79 Os oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei datgelu i dendrwyr, rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda'r Swyddog Monitro ar ôl ystyried gofynion unrhyw ddeddfwriaeth yn ymwneud â datgelu gwybodaeth.

**Y Gofrestr Gontractau**

12.80 Rhaid cofnodi pob contract gwerth dros £5,000 dros dymor y contract yng Nghofrestr Gontractau'r CJC. Mae gan Swyddogion ddyletswydd i sicrhau cydymffurfio â hyn.

## Cofnodi, Cadw a Rheoli Dogfennau

12.81 Rhaid i bob tendr, ar ôl eu hasesu, gael eu cadw'n ddiogel (gan gynnwys mewn storfa electronig ddiogel). Rhaid cadw pob contract dan sêl, h.y. Gweithredoedd (gan gynnwys Tendrau) am 12 mlynedd o leiaf; contractau syml am 6 mlynedd o leiaf; dogfennau tendrau aflwyddiannus am 2 flynedd.

## Rheoli Contractau

12.82 Rhaid i bob contract risg / gwerth uchel neu sensitif fod â rheolwr contract penodol yn CJC ar ei gyfer tra bydd mewn grym. Rhaid i bob contract o'r fath gael adolygiad rheolaidd wedi'i gofnodi gyda'r contractwr. Dylai'r adolygiadau hyn gynnwys ond heb ei gyfyngu i:

12.82.1 trosglwyddo busnes;
12.82.2 darparu'r gwasanaeth;
12.82.3 materion gweithredol;
12.82.4 cydymffurfio â thelerau'r contract;
12.82.5 cydymffurfio â'r telerau ariannol.

## Amrywio Contractau

12.83 Mae amrywio'n golygu newid telerau'r cytundeb yr oedd y partïon wedi eu cytuno a'u derbyn yn flaenorol pan lofnodwyd y contract.



12.84 Mae gan y Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 neu'r Swyddog Monitro awdurdod i gytuno ar unrhyw amrywiad i Gontract ar yr amod ei fod yn parhau i gynnig yr ateb mwyaf economaidd fanteisiol i'r CJC a heb newid yn sylweddol unrhyw gynnig a gytunwyd yn flaenorol gan y CJC.

12.85 Dylid ond cymeradwyo amrywiad ar gontract os nad yw'n golygu newid sylweddol i'r contract a gafodd ei gaffael yn wreiddiol.

12.86 Ni ddylid drysu rhwng amrywiadau a hawliadau, sydd fel arfer yn codi o bethau annisgwyl neu allanol yn digwydd. Mae hawl contractwr i wneud hawliad yn codi o'r gyfraith ac nid oes angen caniatâd y CJC i wneud. Mae'r term 'hawlio amrywiad' yn gamarweiniol. Mae contractwr naill ai'n ymgeisio am amrywiad neu'n gwneud hawliad.

12.87 Rhaid i ffurf pob amrywiad ar gontract gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Monitro neu swyddog wedi'i enwebu ganddo ef neu hi.

12.88 Rhaid i amrywiad a gytunir fod yn ysgrifenedig a chael ei lofnodi gan holl bartïon y contract a'i gofnodi yng Nghofrestr Gontractau'r CJC. Mae gan Swyddogion ddyletswydd i sicrhau cydymffurfio â hyn.

**Estyniad ar Gontract**

12.89 Estyniad ar gontract yw math o amrywiad yn gofyn am barhau gyda chontract ar ôl y dyddiad y daw i ben.

12.90 Gellir ond gwneud penderfyniad i ymestyn cyfnod (tymor / parhad) contract cyn y dyddiad dod i ben gwreiddiol, os yw'n unol â thelerau ac amodau'r contract gwreiddiol ac yn cael ei ystyried gan yr ymarfer caffael gwreiddiol.

12.91 Os nad yw telerau'r contract a / neu'r ymarfer caffael gwreiddiol yn darparu'n benodol ar gyfer estyniad, yna gellir ond ymestyn contract o'r fath mewn amgylchiadau eithriadol lle y mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu a materion gwerth am arian wedi cael sylw. Bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud gan Swyddogion drwy ymgynghori â'r Swyddog Monitro. .

12.92 Dylai estyniadau contract a ganiateir o dan Reol 12.91 ac sy'n newid sylweddol i delerau'r contract a gafodd ei gaffael yn wreiddiol, fod am gyfnod penodol yn unig er mwyn rhoi amser i weithredu proses gaffael newydd.

12.93 Rhaid i bob estyniad fod yn ysgrifenedig a chael ei gofnodi yng Nghofrestr Gontractau'r CJC. Mae gan Swyddogion ddyletswydd i sicrhau cydymffurfio â hyn.

**Cyfyngiadau Ariannol**

12.94 Lle y nodir unrhyw drothwy ariannol yn y Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn, bydd y ffigur hwnnw ar 23 Mehefin 2022 a gallai gael ei adolygu o bryd i'w gilydd fel y gwêl y Swyddog Adran 151 yn briodol ac mae gan y Swyddog Monitro awdurdod dirprwyol i ddiwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny heb gyfeirio at y CJC.

**Gwerthu**

12.95 Er y bydd y CJC gan amlaf yn prynu nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith, mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn yr un mor berthnasol i werthu neu ddarpariaeth o'r fath gan y CJC a rhaid eu dilyn bob amser lle bo'n bosib a phriodol.





12.96 Dylai'r CJC geisio cael y gwerth gorau am unrhyw eitem y mae'n ei gwerthu a allai olygu cystadleuaeth rhwng partïon gyda diddordeb a gallai hynny olygu defnyddio gwefan ocsiwn electronig.

12.97 Dylid gofyn am gyngor y Swyddog Adran 151 wrth ystyried gwerthu er mwyn trafod y dull neu'r broses briodol i'w dilyn. Dylid hefyd cyfeirio at yr adran Gwerthu Asedau yn y Rheoliadau Ariannol.

12.98 Yn achos gwaith a wneir neu wasanaeth yn cael ei ddarparu gan y CJC ar gyfer trydydd partïon, mae Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 yn caniatáu hyn ar ran Cyrff Cyhoeddus penodedig. Ni chaniateir (ar wahân mewn rhai amgylchiadau eithriadol) darparu

gwasanaeth na gwneud gwaith ar gyfer cwmnïau ac unigolion preifat ,ac os yw hyn yn cael ei ystyried, rhaid gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro.

**Cydymffurfio â’r Rheolau Gweithdrefnol**

12.99 Un o'r amodau sydd ymhlyg yng nghytundeb cyflogaeth holl aelodau staff y CJC sy’n gyfrifol am weinyddu contractau yw y dylent bob amser ufuddhau i ddarpariaethau’r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y CJC. Gallai methu â gwneud hyn gael ei ystyried i fod yn fater disgyblu difrifol.

**Adolygu a Diwygio’r Rheolau Gweithdrefnau Contractau**

12.100 Bydd y Swyddog Monitro’n adolygu’r Rheolau Gweithdrefnau Contractau hyn yn rheolaidd ac yn cynnal adolygiad ffurfiol bob pum mlynedd. Bydd unrhyw ddiwygiadau y bwriedir eu gwneud yn cael eu hadrodd i’r CJC i’w cymeradwyo heblaw os yw’r Rheolau hyn yn darparu fel arall.

# ADRAN 13 – INDEMNITI AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

13.1 **Cafodd yr indemniti isod ei gymeradwyo a'i fabwysiadu** gan y CJC ar 4 Gorffennaf 2022.

13.2

***INDEMNITI AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION***

**1.** Gwneir yr indemniti hwn o dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniti ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006, ac mae'n ategol i ddarpariaethau A.265 Deddf Iechyd Cyhoeddus 1875 a ehangwyd arni gan A.39 ac A.44(1) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**2.** Yn amodol i'r cyfyngiadau ar indemniti a ddisgrifir yn rheol 3G isod, mae'r CJC yn indemnio pob Aelod a Swyddog o'r CJC yn erbyn unrhyw hawliad, atebolrwydd, colled a / neu ddifrod yng nghyswllt unrhyw weithredu neu fethiant i weithredu gan unrhyw Aelod neu Swyddog sydd:

(a) wedi'i awdurdodi gan y CJC; neu

(b) sy'n ffurfio rhan o, neu'n codi o unrhyw bwerau neu ddyletswydd gan yr Aelod neu Swyddog o ganlyniad i ymarfer unrhyw swyddogaeth gan yr Aelod neu Swyddog (p'un ai wrth ymarfer y swyddogaeth y mae'r Aelod neu'r Swyddog yn gwneud hynny yn eu capasiti fel Aelod neu Swyddog o'r CJC neu beidio)

(i) ar gais neu gyda chaniatâd penodol y CJC; neu

(ii) ar gyfer pwrpasau'r CJC

Heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr indemniti hwn (uchod), mae'r indemniti'n cynnwys gweithredu:-

(a) a wneir o dan bwerau dirprwyol;

(b) a wneir yn bersonol o dan unrhyw ddarpariaeth statudol benodol fel y Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro, Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997;

(c) a wneir ar lefel Partneriaeth, trefniadau cydweithio anffurfiol, sefydliadau elusennol, cwmnïau (o ba bynnag gyfansoddiad) pan fydd yr Aelod neu Swyddog yn gwasanaethu fel cynrychiolydd y CJC ar y cyrff hyn.

**3.** **Amodau a Chyfyngiadau'r Indemniti**

# ADRAN 13 – INDEMNITI AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

**A. Didwylledd**

Rhaid i Aelod neu Swyddog sy'n dibynnu ar yr Indemniti:-



(i) credu bod y gweithredu dan sylw, neu'r methiant i weithredu, o fewn pwerau'r CJC

neu

(ii) os yw'r gweithredu neu fethiant i weithredu'n ymwneud â chyflwyno neu awdurdodi unrhyw ddogfen yn cynnwys datganiad am bwerau'r CJC, neu unrhyw ddatganiad bod camau penodol wedi eu cymryd neu ofynion wedi eu cyflawni, credu bod cynnwys y datganiad yn wir;

a hefyd

yn y naill achos neu'r llall, ei bod yn rhesymol i'r Aelod neu Swyddog gredu hynny pan oedd yr Aelod neu Swyddog wedi gweithredu neu fethu â gweithredu, ac os felly bydd y Cyngor yn indemnio yng nghyswllt gweithredu neu fethu â gweithredu sy'n cael ei ddarganfod wedyn i fod y tu allan i bwerau'r Aelod neu Swyddog dan sylw, ond dim ond lle'r oedd yr Aelod neu Swyddog yn credu'n rhesymol bod y gweithredu neu fethu â gweithredu o fewn pwerau'r Aelod neu Swyddog pan oedd yr Aelod neu Swyddog wedi gweithredu neu fethu â gweithredu.

**B. Ad-dalu Costau**

Os yw Aelod neu Swyddog yn derbyn indemniti ar gyfer amddiffyniad mewn achos troseddol neu achos yn honni bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri, yna:-

(i) yng nghyswllt achos troseddol, os yw'r Aelod neu Swyddog wedi'i gael yn euog o drosedd, rhaid i'r symiau a wariodd y CJC neu ei yswirwyr yng nghyswllt yr achos hwnnw gael eu talu'n ôl i'r CJC neu'r yswirwyr;

(ii) os yw'r achos yn ymwneud â honiad bod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad:-

(a) os canfyddir bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad (neu'r Aelod wedi

cyfaddef i hynny) ac o ganlyniad mae'r Aelod yn cael ei atal dros dro, ei atal dros dro'n rhannol neu ei anghymhwyso, yna rhaid i'r symiau a wariodd y CJC neu ei yswirwyr gael eu talu'n ôl i'r CJC neu ei yswirwyr.

(b) yn achos honiad o dorri'r Cod Ymddygiad a chanfyddir bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad (neu'r Aelod wedi cyfaddef i hynny) ac o ganlyniad mae'r Aelod yn cael ei geryddu neu'n cael cosb ar wahân i atal dros dro, atal dros dro'n rhannol neu anghymhwyso, yna os yw Is-bwyllgor Safonau'r CJC yn ystyried hynny i fod yn briodol, rhaid i'r symiau a wariodd y CJC neu ei yswirwyr gael eu talu'n ôl i'r CJC neu ei yswirwyr.



**C. Lefel Cynrychiolaeth**

Os yw Aelod neu Swyddog yn cael eu cynrychioli'n broffesiynol o dan delerau'r Indemniti hwn, rhaid i'r Aelod neu Swyddog ofyn am ganiatâd ymlaen llaw gan y CJC drwy ei Is-bwyllgor Safonau ar gyfer natur a lefel y gynrychiolaeth honno, ar yr amod bob amser na fydd y penderfyniad ar natur neu lefel y gynrychiolaeth honno'n cyfyngu'n afresymol ar hawl yr Aelod neu Swyddog unigol i amddiffyn yr achos yn briodol.

**D. Difenwi**

Nid yw'r indemniti hwn yn ymestyn i unrhyw hawliad **<u>sy'n cael ei wneud</u>** gan Aelod neu Swyddog yng nghyswllt honiad o ddifenwi'r Aelod neu Swyddog dan sylw.

**E. Egwyddorion Cyffredinol**

(i) Bydd y CJC yn rhoi mynediad rhesymol a chymesur i'r Aelod neu Swyddog at weithwyr y CJC ac adnoddau a chyfleusterau'r CJC fel bo'r swyddog unigol yn gallu ymateb yn briodol i honiadau o atebolrwydd personol yn eu herbyn;

(ii) Bydd y CJC yn caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol i Aelod neu Swyddog ar wahân i gynghorwyr cyfreithiol y CJC ei

hun (a / neu gynghorwyr cyfreithiol yswirwyr y CJC) os gallai buddiannau'r CJC a'r swyddog unigol wrthdaro neu mewn amgylchiadau eraill tebyg lle y cytunir rhwng y CJC a'r Aelod neu Swyddog unigol bod cynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân yn briodol.

(iii) Ni fydd y CJC yn ceisio adennill oddi wrth Aelod neu Swyddog unigol unrhyw golledion a achoswyd i'r CJC o ganlyniad i weithredu neu fethu â gweithredu gan yr Aelod neu Swyddog dan sylw ac eithrio:-

(a) os nad oedd yr Aelod neu Swyddog dan sylw'n credu'n rhesymol bod y gweithredu neu fethiant i weithredu o fewn eu pwerau pan ddigwyddodd y gweithredu neu fethiant i weithredu; neu



(b) os oedd y gweithredu neu fethiant i weithredu'n drosedd.

**F. Cyfyngiad ar Indemniti**

Y cyfyngiad ar yr indemniti a ddarperir o dan yr Adran hon yw £50,000.